

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO</b>	<b>GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE</b>
<b>DYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021 am 2:00 y. p.</b>	<b>THURSDAY, 9 DECEMBER, 2021 AT 2:00 p.m.</b>
<b>CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW</b>	<b>VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

### **Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

### **ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers (*Cadeirydd/Chair*)

### **AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

## RHAGLEN

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 28)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 21 Medi, 2021
- 20 Hydref, 2021
- 15 Tachwedd, 2021

Yn codi oddi ar gofnodion cyfarfod 21 Medi, 2021 –

- **Eitem 3 – Llywodraethu Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth 2020/21**

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn egluro trefniadau'r Gwasanaeth Dysgu ar gyfer cwblhau'r gwaith yn gysylltiedig â'r archwiliad cydsyniad a'r Cofnod o Weithgareddau Prosesu.

### 3 **ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHU GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION MÔN** (Tudalennau 29 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

### 4 **STRATEGAETH ATAL TWYLL, LLWGRWOBROWYO A LLYGREDD 2021-24** (Tudalennau 53 - 72)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

### 5 **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22** (Tudalennau 73 - 90)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 6 **ARCHWILIO ALLANOL - CYNGOR SIR YNYS MÔN: CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2020** (Tudalennau 91 - 98)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

### 7 **ARCHWILIO ALLANOL : RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU: CSYM DIWEDDARIAD CHWARTEROL MEDI 2020** (Tudalennau 99 - 110)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Mewnol.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddus yr Awdurdod*

- 8 **ARCHWILIO ALLANOL: CYLLID MYFYRWYR (ER GWYBODAETH)**  
(Tudalennau 111 - 158)  
Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.
- 9 **CÔD LLYWODRAETHU LLEOL** (Tudalennau 159 - 184)  
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.
- 10 **ADOLYGIADAU CENEDLAETHOL A'U HARGYMHELLION CYSYLLTIEDIG**  
(Tudalennau 185 - 198)  
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.
- 11 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 199 - 208)  
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.
- 12 **SIARTR ARCHWILIO MENWOL** (Tudalennau 209 - 222)  
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.
- 13 **RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU** (Tudalennau 223 - 228)  
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021

<b>PRESENNOL:</b>	Y Cyngorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)  Y Cyngorwyr John Griffith, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts.
<b>WRTH LAW:</b>	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 3, 4 a 5) Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP) Prif Archwilydd (NW) Pennaeth y Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 8) Rhaglen, Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 9) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 10) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cyngorydd Mrs Margaret Roberts, Mrs Annwen Morgan, (Prif Weithredwr), Mr Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc), Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cyngorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio dros Fusnes Corfforaethol), Alwen Williams (BUEGC), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru), Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

#### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni wnaeth unrhyw un ddatgan diddordeb.

#### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi –

Cyfeiriwyd at Raglen ac Amserlen Archwilio Cymru a ddangosodd y byddai'r archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn digwydd yn y cyfnod rhwng Mehefin a Medi, 2021, ond mewn blynyddoedd blaenorol byddai'r cyfrifon archwiliedig terfynol fel arfer wedi'u cyhoeddi ym mis Medi. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y newid mewn amserlen a'r rhesymau y tu ôl i hynny.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi cyfrifon 2020/21 wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd mis Tachwedd, 2021 yn unol â'r hyn y cytunwyd arno o ran cwblhau a chyhoeddi cyfrifon ar gyfer 2019/20 oherwydd y pwysau ychwanegol ar gynghorau wrth iddynt barhau i ymateb i Covid-19. Mae Archwilio Cymru hefyd yn delio â phwysau adnoddau wrth archwilio cyfrifon awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth. Mae'r atodlen ddiwygiedig yn golygu y bydd y cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2020/21 ynghyd ag adroddiad yr Archwiliad Allanol ar y datganiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Hydref, 2021 a chânt eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo yn ddiweddarach y mis hwnnw, yn unol â'r rheoliadau sy'n ymestyn y terfynau amser statudol hyd at 31 Awst ar gyfer cyhoeddi cyfrifon drafft a 30 Tachwedd ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig.

### **3. LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG) 2020/21**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn nodi datganiad a throsolwg yr UBRG o gydymffurfiaid y Cyngor â'r gofynion cyfreithiol a'r codau ymarfer perthnasol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol ac, yn Atodiadau 1 i 7 darparwyd data allweddol am lywodraethu gwybodaeth y Cyngor gan gynnwys cyswllt â rheoleiddwyr allanol, digwyddiadau diogelwch a thorri cyfrinachedd neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chwynion yn ystod y cyfnod.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig (UBRG) ar brif bwyntiau'r Adroddiad Blynyddol fel a ganlyn –

- Archwiliwyd prosesau ac arferion y Cyngor o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) gan Swyddfa'r Comisiynywyr Pwerau Ymchwilio yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad. Roedd yr arolygiad yn ffafriol ac ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol. Er bod y Cyngor yn gwneud defnydd cyfrifol ond cyfyngedig o RIPA, mae angen y rolau, y gweithdrefnau polisiâu a'r hyfforddiant perthnasol a rhaid iddynt fod yn weithredol.
- Cysylltodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) â'r Cyngor mewn perthynas â 2 gŵyn diogelu data. Er nad ymchwiliwyd i'r materion yn y pen draw gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gofynnwyd i'r Cyngor adolygu ei ymatebion i'r achwynwyr a chymryd unrhyw gamau priodol i sicrhau yr ymdriniwyd â'r cwynion yn llawn. Mae'r cwynion wedi'u hadolygu a chwblhawyd materion. Cyflwynwyd un apêl i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfnod hwn, ac fe'i cadarnhawyd.
- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Camerâu Goruchwylio yn goruchwylio cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Camerâu Goruchwylio. Mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio Asesiad Effaith Diogelu Data penodol y Comisiynydd Camerâu Goruchwylio ers 2019/20 ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor pryd bynnag y cynigir system teledu cylch cyfyng newydd. Er na fu unrhyw gysylltiad rhwng y Cyngor a Swyddfa'r Comisiynydd Camerâu Goruchwylio yn ystod cyfnod yr adroddiad, gwnaed llawer iawn o waith yn y cyfnod hwnnw i gryfhau'r trefniadau gan gynnwys mynd i'r afael â'r bylchau llywodraethu sy'n gysylltiedig â systemau teledu cylch cyfyng hanesyddol a fodolai cyn cyflwyno Cod y

Comisiynydd Camerâu Goruchwylio. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, hyfforddwyd defnyddwyr a rheolwyr teledu cylch cyfyng ar elfennau diogelu data defnyddio teledu cylch cyfyng.

- Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd 30 o ddigwyddiadau diogelwch data gan y Cyngor yn cynnwys 28 Lefel 0 -1 (achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a gadarnhawyd ond nid oes angen eu hadrodd i SCG/rheoleiddwyr eraill) a 2 ddigwyddiad Lefel 2 (digwyddiadau diogelwch data y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r SCG amdanynt oherwydd y risg a gyflwynir gan y digwyddiad).
- Derbyniwyd cyfanswm o 736 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2020 a 31 Mawrth, 2021 yn cynnwys 5,397 o gwestiynau unigol. Ceir dadansoddiad o'r ceisiadau fesul gwasanaeth ac yn ôl y math o ymgeisydd yn Atodiad 3 yr adroddiad. O'r 736 o geisiadau, arweiniodd 5 at adolygiad mewnol o'r ymatebion a wnaed gan y Cyngor, ac mae'r canlyniadau fel yr amlinellir. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020, trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael fel mater o drefn er mwyn rheoli effaith ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn well. Er mwyn asesu p'un ai a yw cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd gan y Cyngor yn ffactor effeithiol o ran lleihau effaith ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, paratowyd adnodd hunanasesu a'i ddosbarthu i wasanaethau'r Cyngor gyda phob un ar wahân i swyddogaeth Adnoddau yn cymryd rhan yn yr hunanasesiad. Nodir canlyniad yr hunanasesiad yn Atodiad 8 ac mae'n cadarnhau ei bod yn annhebygol y bydd cyhoeddi gwybodaeth yn lleihau nifer y ceisiadau gan mai anaml y mae cyhoeddi dogfennau'n rheolaidd yn darparu'r cyd-destun sydd ei angen ar ymgeiswyr Rhyddid Gwybodaeth. Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bod gwybodaeth a gyhoeddwyd yn arwain at geisiadau ychwanegol.
- Derbyniwyd cyfanswm o 5 cwyn Deddf Diogelu Data yn ystod blwyddyn yr adroddiad. Ymchwiliwyd i 4 ohonynt ond ni chawsant eu cadarnhau. Yn y pedwar achos yma, canfuwyd bod trefn brosesu'r Cyngor yn cael ei hystyried yn gyfreithlon ac nad oedd hawliau gwrthrych y data yn cael eu peryglu.
- Derbyniwyd cyfanswm o 24 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth (SAR); o'r 22 SAR yr ymatebwyd iddynt, anfonwyd 78% o'r ymatebion o fewn y terfyn amser. Mae dau SAR wedi'u gohirio yn amodol ar dderbyn y dystiolaeth angenrheidiol, a derbyniwyd un ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac felly nid oedd yn rhaid ymateb o fewn cyfnod yr adroddiad. Gall y ceisiadau hyn fod yn gymhleth ac mae'n aml yn cymryd llawer o amser i ddelio â nhw. Datblygwyd methodoleg a darparwyd hyfforddiant.
- Datblygwyd Cynllun Gwaith Diogelu Data yn y misoedd ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth diogelu data newydd yn 2018 ac adroddwyd i'r Pwyllgor hwn. Mae pob elfen o'r cynllun gwaith hwnnw wedi'u cwblhau ers tro ar wahân i'r ddwy elfen a amlinellir yn y Tabl yn Atodiad 6 y gellir eu priodoli i'r Gwasanaeth Dysgu; mae'r elfennau hyn sy'n weddill yn ymwneud â'r angen i adolygu'r defnydd o gydsyniad fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu ac i ddatblygu a monitro ROPA Erthygl 30 y Cyngor.
- Ceir amserlen o hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn Atodiad 7; Mae 90% o'r staff a dargedwyd wedi cael hyfforddiant yn ystod cyfnod yr adroddiad a bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cael eu hannog i dargedu'r 10% sy'n weddill yn y cyfnod adrodd presennol.
- Oherwydd y galw am gyngor gweithredol, buddsoddir yng nghapasiti llywodraethu gwybodaeth y Cyngor i ddarparu cymorth uniongyrchol i gleientiaid yn unol â rhwymedigaethau allweddol diogelu data sy'n golygu nad oes capasiti mwyach ar gyfer unrhyw gynlluniau strategol a chorfforaethol nad ydynt yn hanfodol. Cynigir felly, yn hytrach nag adrodd ar gynnydd gwasanaethau gyda chynlluniau gweithredu, y bydd sylw yn y dyfodol yn symud i geisio sicrwydd gan Benaethiaid Gwasanaethau fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth ar feysydd cydymffurfio allweddol.
- Y casgliad y daw'r UBRG iddo yw bod tystiolaeth ddogfennol sylweddol i ddangos bod trefniadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn dda. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y systemau, y prosesau, y polisiau a'r hyfforddiant llywodraethu

gwybodaeth sydd gan y Cyngor ar waith sy'n rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau ac wedi cymryd camau priodol a rhesymol i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r UBRG hefyd o'r farn bod llywodraethu gwybodaeth wedi'i wreiddio yn niwylliant gweithredol y Cyngor. Fodd bynnag, mae dau faes o hyd lle mae angen rhagor o waith mewn cysylltiad â'r tasgau na chwblhawyd gan y Gwasanaeth Dysgu ac Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data teledu cylch cyfyng.

- Yn y flwyddyn i ddod, bydd y ffocws ar gefnogi gwasanaethau gydag achosion penodol a darparu hyfforddiant parhaus; mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld ffyrdd newydd, gwahanol ac arloesol o weithio'n datblygu yn sgil Covid 19, gan gynnwys yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a fydd yn gofyn am amser a sylw. Yn ogystal â hyn, mae pecyn penodol ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â system datganiad sicrwydd a fydd yn cael ei ategu gan hyfforddiant priodol.

Wrth ystyried yr adroddiad blynyddol, lefel cydymffurfio a'r risg y mae'n eu hadlewyrchu, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Y camau sydd eu hangen ac y gellid eu cymryd yn ymarferol i alluogi'r UBRG i ddod i gasgliad bod trefniadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn dda iawn neu'n rhagorol. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu perfformiad gwasanaethau. Dywedodd y Swyddog Monitro/UBRG pe bai'r blaenoriaethau a'r meysydd ffocws fel yr amlinellir yn cael eu cyflawni a bod asesiad ansawdd y meysydd hyn yn foddhaol yna gallai fod yn bosibl uwchraddio'r gwerthusiad o drefniadau'r Cyngor. Y llynedd oedd y flwyddyn gyntaf yr oedd y UBRG o'r farn ei bod yn bosibl dynodi trefniadau'r Cyngor o dan y pennawd Da, felly mae'n mynd i'r cyfeiriad cywir. O ran asesu perfformiad gwasanaethau, y bwriad yw gweithio gyda Phenathiaid Gwasanaethau a Chyfarwyddwyr i ddatblygu meini prawf penodol. Er nad oes cysail ar gyfer gwaith o'r fath ymhlith awdurdodau lleol y gall y Cyngor fanteisio arnynt, nododd y Swyddog Monitro/UBRG y bydd meysydd perfformiad mewn perthynas â hyfforddiant, goruchwyllo, cwynion ac amseroedd cyflawni yn cael eu hystyried a bydd llawer o'r elfennau corfforaethol yn cael eu cymhwyso i wasanaethau'n unigol. Y nod yw nodi unrhyw wendidau ar lefel gwasanaeth fel y gellir mynd i'r afael â nhw.
- Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaeth Dysgu ym mis Mawrth 2021 yn dal heb gydymffurfio o ran gweithredu camau mewn perthynas â chwblhau'r archwiliad cydsyniad a gwaith cysylltiedig â'r ROPA; holodd y Pwyllgor a oedd yr UBRG yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau a allai fod wedi digwydd yn y cyfamser. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro/UBRG nad yw'r sefyllfa wedi newid er bod y mater wedi'i godi gyda'r Gwasanaeth Dysgu ar sawl achlysur gan gynnwys mewn nifer o gyfarfodydd ac er gwaethaf cefnogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth wneud hynny. Dywed y Gwasanaeth Dysgu fod ganddo nifer o flaenoriaethau ac nad yw'r elfennau a amlygwyd ymysg y blaenoriaethau pwysicaf. Wrth ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd y Swyddog Monitro/UBRG fod y gwaith sy'n weddill yn statudol ac felly bod disgwyl i'r Gwasanaethau Dysgu gydymffurfio.

Yng ngoleuni'r eglurhad uchod, cynigiwyd, er mwyn cael sicrwydd ar y mater hwn, y dylid gofyn i'r Gwasanaeth Dysgu gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor fan bellaf, gydag eglurhad o'i drefniadau ar gyfer cwblhau'r gwaith sy'n weddill sy'n cynnwys yr archwiliad cydsyniad a'r Cofnod o Weithgareddau Prosesu.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn datganiad yr UBRG.**
- **Nodi bod yr archwiliad cydsyniad yn y Gwasanaeth Dysgu yn dal heb ei gwblhau.**



- **Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo bod gwaith y Cyngor i ddatblygu ei Erthygl 30 Cofnod o Weithgareddau Prosesu GDPR yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth Dysgu;**
- **Bod y Gwasanaeth Dysgu yn adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor fan bellaf gydag eglurhad o'i drefniadau ar gyfer cwblhau'r gwaith sy'n weddill fel y disgrifir uchod h.y. yr archwiliad cydsyniad a'r Cofnod o Weithgareddau Prosesu.**
- **Bod adroddiadau'r UBRG yn y dyfodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar adrodd ar sicrwydd a dderbyniwyd gan yr UBRG gan y Penaethiaid Gwasanaeth fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth.**

#### **4. ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON, CWCYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2020 a 31 Mawrth, 2021 i'w hystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr gwasanaeth o dan y Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol – Y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion ac fe'u hadroddir yn flynyddol i Banel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y prif bwytiau fel a ganlyn –

- Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniwyd 104 o bryderon a gwnaed 43 o gwynion. O'r 43 o gwynion, roedd 42 wedi derbyn ymateb llawn erbyn 31 Mawrth 2021, gyda'r gŵyn sy'n weddill yn gofyn am ymchwiliad pellach sylweddol cyn rhoi ymateb terfynol i'r ymgeisydd.
- O'r 42 o gwynion yr ymdriniwyd â nhw yn ystod y cyfnod, cadarnhawyd 2 yn llawn, cadarnhawyd 1 yn rhannol ac ni chadarnhawyd 39 ohonynt. Cafodd naw cwyn a oedd wedi bod drwy'r broses fewnol eu huwchgyfeirio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gwrthodwyd pob un o'r 9.
- Bu gostyngiad yn nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y flwyddyn o 26, i lawr o 69 yn 2019/20; ceir dadansoddiad o bryderon, cwynion a chanmoliaeth yn ôl gwasanaeth yn y tabl ym mharagraff 8 o'r adroddiad.
- Cyfradd gyffredinol yr ymatebion i gwynion a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith) oedd 90%. Pan fydd ymatebion yn hwyr, disgwylir i wasanaethau anfon ymateb dros dro i'r achwynydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd ac i esbonio'r rhesymau dros yr oedi.
- O ddadansoddi'r tabl ym mharagraff 8 o'r adroddiad, roedd 9% (i fyny o 8% yn 2019/20) o'r cwynion a dderbyniwyd yn deillio o bryderon a uwchgyfeiriwyd sy'n awgrymu bod gwasanaethau'n delio'n effeithiol â phryderon gan gyfyngu ar gwynion ffurfiol. Anfonwyd 9% arall (4 o'r 43) at y Cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a wrthododd ddelio â nhw nes bod popeth posibl wedi cael ei wneud i ddatrys materion drwy broses fewnol y Cyngor yn y lle cyntaf. Gall achwynwyr hefyd fynd â'u cwynion yn uniongyrchol i gam ffurfiol y broses gwyno fewnol ac mae hyn yn cyfrif am 82% o'r cwynion a dderbyniwyd.
- Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Mae argymhellion blaenorol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach wedi dod yn rhan o fusnes fel arfer wrth ddelio â chwynion. Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn esbonio pa wersi a ddysgwyd o'r 2 gŵyn a gadarnhawyd ac a gadarnhawyd yn rhannol.
- Er nad oes hawl fewnol i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn ymateb i gŵyn, mae'r Polisi Pryder a Chwynion yn cynnwys yr opsiwn o uwchgyfeirio cwyn i

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor. Cyflwynwyd 18 o gwynion yn berthnasol i'r broses hon gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o fewn amserlen yr adroddiad. Ni ymchwiliwyd i unrhyw un o'r cwynion.

- Yn ystod 2020/21 ni dderbyniwyd yr un gwŷn cod ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn Cyngorydd Sir. Caiff gwybodaeth gyfyngedig am gwynion o'r fath ei hadrodd yn ffurfiol i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ddwywaith y flwyddyn.
- Ni dderbyniwyd cwyn ffurfiol yn ymwneud ag iaith yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, derbyniwyd un achos o bryder fel y'i cofnodwyd ac fe'i datryswyd heb iddo gael ei symud ymlaen i fod yn gŵyn ffurfiol. Caiff unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hadrodd yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.
- Yn ystod 2020/21, derbyniwyd 2 achos o chwythu'r chwiban a cheir amlinelliaid ohonynt yn y tabl ym mharagraff 14 o'r adroddiad. Gweithredwyd ar y ddau achos a chafodd y canlyniadau eu bwydo'n ôl i'r sawl oedd wedi chwythu'r chwiban gan y Swyddog Monitro.
- Yn ystod y flwyddyn cafodd y polisi Pryderon Corfforaethol a Chwynion ei adolygu a'i ddiwygio i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r canllawiau ymdrin â chwynion o dan yr Awdurdod Safonau Cwynion a grëwyd gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mân welliannau oedd y rhain ac nid ydynt wedi newid y broses sydd wedi bod mewn grym ers mis Ebrill, 2013. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon ar 26 Mai, 2021 fod polisi'r Cyngor yn cydymffurfio â'r canllawiau.
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cyfrifoldeb newydd y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i adolygu a chyflwyno adroddiadau ar ymdrin â chwynion.

Wrth ystyried yr adroddiad cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol -

- A oes gan aelod etholedig sy'n destun cwyn i'r Ombwdsmon hawl i weld y dystiolaeth yn ei erbyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, pan fo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn penderfynu agor achos a chynnal ymchwiliad i gŵyn yn erbyn aelod etholedig, yna rhaid i'r dystiolaeth sy'n berthnasol i'r mater dan sylw y cwynir amdano gael ei rhannu â'r aelod etholedig y gwneir y gŵyn yn ei erbyn sydd wedyn â hawl i ymateb.
- Gan nodi bod cyfran uchel o'r cwynion a wneir i'w priodoli i dri gwasanaeth, roedd y Pwyllgor am wybod a ydynt yn rhannu thema gyffredin a thrwy hynny ei gwneud yn haws rhagweld a/neu atal cwynion pellach yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, er y gofynnir i Swyddogion Cwynion y Gwasanaethau nodi unrhyw dueddiadau/patrymau a/neu faterion mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd, bod yr Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor hwn yn cofnodi'r cwynion a gadarnhawyd yn hytrach na'r cwynion a gyflwynwyd.
- A yw diffyg ymateb i ohebiaeth a/neu beidio â ffonio pobl yn ôl fel yr addawyd yn gŵyn mor gyffredin ag y mae tystiolaeth anecdotaidd a ddarperir i aelodau etholedig yn ei awgrymu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro nad yw nifer y cwynion o'r fath yn arbennig o uchel, gan nodi nad yw'r hyn y mae aelodau etholedig yn ei glywed am gwynion o'r math hwn yn cael ei gadarnhau gan nifer wirioneddol y cwynion o'r fath sy'n dod drwy'r broses gwyno. Bydd system ffôn gorfforaethol newydd yn cael ei gosod. Gobeithio y bydd hefyd yn helpu ac yn hwyluso'r system i ymateb i alwadau.
- Ei bod yn braf nodi bod cyfanswm o 464 o ganmoliaethau hefyd wedi dod i law yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad sy'n dyst i ba wasanaethau ar draws y Cyngor sy'n perfformio'n dda, yn enwedig gan fod nifer sylweddol o'r canmoliaethau hynny'n ymwneud â gwasanaethau sydd â chysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel un sy'n rhoi sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn ymdrin â'i gwynion yn effeithiol.**

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DERBYN POLISI'AU 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn nodi lefel y cydymffurfio mewn perthynas â derbyn polisi drwy system Rheoli Porth Polisi'r Cyngor ar gyfer y bedwaredd flwyddyn o fonitro i'r Pwyllgor ei ystyried.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro sylw at y canlynol –

- Mae'r naw polisi craidd sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y set graidd a restrir ym mharagraff 1 yr adroddiad. Mae'r naw polisi craidd hyn yn cael eu derbyn bob dwy flynedd ond byddant yn orfodol i staff newydd drwy gydol y cyfnod hwnnw. Oherwydd Covid 19, gohiriwyd y broses ym mis Mawrth, 2020 ond fe'i hail-ddechreuwyd ar 1 Medi, 2021.
- Y pum polisi a restrir ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad sydd wedi bod yn destun ail-dderbyn ers 1 Medi 2020. Dangosir data cydymffurfio fesul gwasanaeth ar 11 Awst 2021 yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Mae'r tabl ym mharagraff 3.1 yn cymharu'r cyfraddau cydymffurfio cyfartalog a adroddwyd i'r Pwyllgor hwn dros y pedair blynedd diwethaf.
- Cwestiynodd y Pwyllgor hwn y gostyngiad yn lefelau cydymffurfio o fewn y Gwasanaethau Tai yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2020. Tynnwyd sylw'r Pennaeth Gwasanaethau Tai at hyn ac ar ôl hynny, bu gwelliant sylweddol yn y gyfradd gydymffurfio gyfartalog ar gyfer y Gwasanaeth yn gyffredinol. Serch hynny, mae'r data yn Atodiad 1 yn dangos gostyngiad amlwg yn nifer y staff yn y Gwasanaethau Tai sydd wedi derbyn y polisi diwethaf a gyhoeddwyd, sydd i lawr i 76%. Fodd bynnag, mae adroddiadau cydymffurfio i'r UDA yn dangos bod mwy o oedi o ran derbyn polisi o fewn y Gwasanaethau Tai sydd o bosibl oherwydd y nifer uwch o staff technegol yn hytrach na staff clericyddol/swyddfa yn y gwasanaeth.
- Dechreuodd cynllun peilot ar 14 Medi 2020 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr canol dderbyn tri pholisi Adnoddau Dynol gyda phob polisi wedi'i neilltuo i swyddogion perthnasol a enwebwyd gan bob gwasanaeth. Nodir data cydymffurfio fesul gwasanaeth ar gyfer y papurau a gyhoeddir yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Bydd y papur terfynol – canllawiau ar gyfer dynodi sgiliau iaith ar gyfer swyddi mewnol ac allanol – yn cael ei gyhoeddi i'w dderbyn yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Y mater cydymffurfio mewn cysylltiad â staff heb fynediad i'r Porth Polisi. Nid yw staff nad ydynt yn defnyddio'r Cyfeirlyfr Gweithredol - tua 700 o weithwyr - sy'n cynnwys y rhai a restrir yn y tabl yn 3.3 - yn rhan o'r broses derbyn polisi. Mae dibyniaeth y Porth Polisi ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor wedi'i gydnabod fel gwendid o'r cychwyn cyntaf ac fe'i cydnabuwyd fel risg gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2020 pan geisiodd sicrwydd bod y mater yn cael ei ddilyn ar y lefel uchaf. Er bod y mater wedi bod yn cael ei ystyried yn gorfforaethol, mae'r agwedd benodol hon ar dderbyn polisiâu corfforaethol yn dal wedi'i ohirio a bydd yn parhau felly am gyfnod amhenodol nes y bydd ateb digidol a chost-effeithiol ar gael. Cafodd cynnig i dreialu proses bapur gyda'r Gwasanaethau i Oedolion lle byddai staff yn dod i Bencadlys y Cyngor i gael eu briffio ar y polisiâu, cyn ymrwymo iddynt, ei atal oherwydd y pandemig ac mae'n annhebygol o gael ei weithredu yn y dyfodol agos. Oni bai a hyd nes y bydd y sefyllfa'n newid, ni fydd y mater yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor mwyach. Dylid nodi, fodd bynnag, fod llawer o'r meysydd sydd wedi'u cynnwys ym mholisiâu'r set graidd hefyd wedi'u cynnwys o fewn rhaglenni sefydlu a hyfforddi corfforaethol er nad yw hyn yn rhoi'r un sicrwydd â'r Porth Polisi.
- Derbyn polisi ar gyfer staff partneriaeth a/neu asiantaeth nad ydynt yn cael eu cyflogi'n dechnegol gan y Cyngor. Er mwyn cael sicrwydd bod staff nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Cyngor yn ymwybodol o'r polisiâu corfforaethol a nodir ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad ac yn cydymffurfio â nhw, rhoddwyd templed i'r

gwasanaethau sy'n cynnwys datganiad i'w lofnodi gan staff sydd yn y categori hwnnw. Mae'r polisïau ar gael iddynt yn y Porth i'w darllen ymlaen llaw ond mae cwblhau'r broses yn y porth yn ddewisol.

- Y camau nesaf. Cyn bo hir, bydd y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael ei ail-dderbyn i'w ddilyn gan y Polisi Diogelu Corfforaethol sydd wedi'i aildrefnu o fis Mawrth, 2021 i sicrhau ei fod yn cynnwys gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 cyn iddo gael ei ail-dderbyn. Yna, bydd pob un o'r naw polisi yn y set graidd (paragraff 1) wedi'u cyflwyno i'w hail-dderbyn a byddant yn destun adroddiad i'r UDA i gadarnhau a ddylid cadw pob un o'r naw polisi fel rhan o'r broses dderbyn orfodol ai peidio.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac yn y drafodaeth a ddilynodd, codwyd y pwyntiau canlynol –

- Y sefyllfa o ran bod staff newydd y Cyngor yn dod yn gyfarwydd â pholisïau ac yn eu derbyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro fod staff newydd sydd ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor ac sydd â mynediad i'r Porth Polisi, yn cael eu hadnabod gan y system un diwrnod ar ôl iddynt ymuno a bydd y broses derbyn polisi yn dechrau ar eu cyfer bryd hynny. Bydd y staff hynny nad ydynt ar system y Cyfeirlyfr Gweithredol yn cael hyfforddiant yn y rôl fel rhan o'u swydd ond ni fydd ganddynt fynediad i gyfleusterau'r Porth Polisi.
- A yw'r mater cydymffurfio sy'n gysylltiedig â'r staff heb fynediad i'r Porth Polisi wedi'i gofrestru'n ffurfiol fel risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac os felly, beth yw ei statws RAG? Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddfa Fonitro, er ei bod yn gallu cadarnhau bod y mater cydymffurfio penodol hwn wedi'i gynnwys fel risg o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, nad oedd ganddi wybodaeth am ei statws RAG wrth law ond y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl ymgynghori â'r swyddog perthnasol.
- A ofynnwyd i awdurdodau lleol eraill am eu hymateb i'r mater cydymffurfio o ran staff heb fynediad i'r Porth Polisi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro nad yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n defnyddio system Porth Polisi yn y ffordd y mae Ynys Môn yn ei wneud; yn achos y rhai sydd â system o'r fath e.e. mewn cyngor cyfagos deallir bod y porth yn cael ei ddefnyddio'n fwy fel llyfrgell bolisi ac na ddefnyddir y botwm clicio i dderbyn.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa bresennol o ran derbyn polisïau ar draws y Cyngor.**

## **6. ARCHWILIO ALLANOL: ASESAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL - CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Allanol ar ganlyniad asesiad o gynaliadwyedd ariannol Cyngor Sir Ynys Môn i'r Pwyllgor ei ystyried. Cynhaliwyd yr asesiad gan fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Roedd asesiad 2020/21 yr Archwiliad Allanol ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam: Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol Covid-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol ac yn dilyn hynny cyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ynghylch cynaliadwyedd ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i bandemig Covid 19. Mae'r adroddiad uchod yn cwblhau Cam 2 gwaith asesu cynaliadwyedd ariannol Archwilio Allanol yn ystod 2020/21 fel rhan o'r adroddiad lleol sy'n cael ei lunio ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.

Dywedodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru fod casgliad yr asesiad yn gyffredinol yn gadarnhaol ond bod nifer o heriau'n parhau. Cyfeiriodd at y prif ganfyddiadau fel a ganlyn –

- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyffredinol, ond erys sawl her ariannol - mae effaith uniongyrchol Covid19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi'i lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn wynebu tua £6.2 miliwn o wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 a cholli £2.4 miliwn o incwm yn ystod 2020/21. Bydd y Cyngor wedi mynd i £0.1 miliwn o wariant ychwanegol a cholli incwm nad yw wedi'i gwmpasu gan gyllid ychwanegol.
- *Mae cynyddu cyllidebau gwasanaethau a arweinir gan y galw wedi galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyfan, ond erys sawl her ariannol – mae Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer Tir ac Adeiladau ar gyfer 2015-2020 yn hen ac mae angen ei ddiweddarau. Yn yr un modd â chynghorau eraill yng Nghymru, prin yw'r mynediad sydd gan y Cyngor at gyllid cyfalaf gan leihau ei allu i fuddsoddi cyfalaf; bydd anawsterau wrth ragweld gydag unrhyw sicrwydd beth fydd lefelau Ariannu Allanol Cyfun yn y dyfodol cyn cyhoeddi'r setliad drafft ym mis Rhagfyr, yn arwain at fwch cyllido cyfanredol sylweddol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig*
- *Mae strategaeth ariannol y Cyngor wedi adfer y gronfa gyffredinol i lefel darged, ond mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwysu'r gyllideb, nid yw hyn yn gynaliadwy – cynyddodd lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £29.7m erbyn diwedd 2020/21 sef 20.6% o gost net gwasanaethau. Defnyddiodd y Cyngor £300,000 o gronfeydd wrth gefn i ariannu cyllideb 2021/22 a oedd yn caniatáu gostyngiad o 0.75% yn y Dreth Gyngor. Nid yw ariannu ymrwymiad sylfaenol o ffynonellau ariannu untro yn gynaliadwy ac mae'n arwain at bwysau ariannu heb eu datrys mewn cyllidebau yn y dyfodol.*
- *Mae'r Cyngor wedi darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb yn 2019/20 a 2020/21 ar ôl diffygion yn y ddwy flynedd flaenorol*
- *Bydd nodi a chyflawni arbedion yn fwy heriol wrth symud ymlaen – cyflawnodd y Cyngor 86% o'r arbedion arfaethedig yng nghyllideb 2019/21 (£2.2m o £2.56m) a 79% o'r arbedion arfaethedig yng nghyllideb 2020/21 (£244k o £307k). Mae Arddangosyn 7 yn dangos arbedion a gynlluniwyd gan y Cyngor yn ystod 2016/17 i 2020/21 yn erbyn arbedion gwirioneddol. Mae arbedion a gynlluniwyd ond nas cyflawnwyd mewn blwyddyn yn ychwanegu at y pwysau i sicrhau arbedion yn y blynyddoedd dilynol.*
- *Mae hylifedd y Cyngor ar ôl cyfnod o ddirywiad wedi sefydlogi'n ddiweddar.*
- *Mae'r adroddiad yn cynnwys un cynnig ar gyfer gwella mewn perthynas â diweddarau a chymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.*

Wrth ymateb i'r adroddiad, croesawodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yr adroddiad fel un a oedd yn gefnogol i drefniadau rheoli ariannol y Cyngor a diolchodd i Archwilio Cymru am y sylwadau a'r dadansoddiad. Cytunodd fod y buddsoddiad ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn gwasanaethau a arweinir gan y galw yn adlewyrchu cyllidebau'r gwasanaethau hynny'n fwy cywir ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'u hanghenion sy'n golygu bod y cyllidebau hynny bellach yn fwy cadarn. Fodd bynnag, gall y sefyllfa newid yn dibynnu ar lefel y galw yn y dyfodol wrth i'r Cyngor barhau i ddod allan o'r pandemig a allai olygu y bydd yn rhaid adolygu'r cyllidebau hynny. Fel gyda llawer o gynghorau eraill yng Nghymru, mae sefyllfa ariannol Ynys Môn wedi gwella i raddau helaeth oherwydd y cymorth ariannol a roddwyd i ddelio â Covid 19 gan Lywodraeth Cymru mewn blwyddyn eithriadol; fodd bynnag, disgwylir y bydd y galw ar wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu o ganlyniad i'r pandemig gan ychwanegu at gostau'r Cyngor. Codwyd hyn fel risg gyda'r Pwyllgor Gwaith a aeth ati i gymeradwyo'r cam o gynyddu isafswm lefel balansau'r Gronfa Gyffredinol i fod yn uwch na'r 5% o feincnod y gyllideb referniw net i £9m ar gyfer 2021/22 er mwyn lliniaru effaith unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau i'r Cyngor a allai arwain at orwario posibl. Cydnabu'r Swyddog Adran 151 y pwynt a wnaed gan Archwilio Allanol, sef nad oedd y Cyngor bob amser yn llwyddo i gyflawni'r arbedion arfaethedig yn llawn; yn unol ag argymhelliad blaenorol gan Archwilio Allanol, mae'r Cyngor yn ystyried gosod targed arbedion yn uwch na'r hyn sydd ei angen i gyflawni cyllideb gytbwys fel bod

ganddo waged i ddisgyn yn ôl arno. Er bod y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr, y gobaiht yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi syniad o beth fydd lefel y cyllid llywodraeth leol dros gyfnod hirdymor yn hytrach na'r drefn bresennol o bennu cyllid blynyddol. O ran unig argymhelliad yr adroddiad, mae diweddarau'r Cynllun Rheoli Asedau mewn golwg gyda gwaith pellach fydd angen ei wneud i sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd â Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

Wrth ystyried cynnwys asesiad Archwilio Allanol, gwnaeth y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Wrth nodi bod cyflawni'r holl arbedion a nodwyd o flwyddyn i flwyddyn yn dod yn her gynyddol, yn enwedig os yw gostyngiadau mewn gwasanaethau i'w hosgoi, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod a oedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg. Dywedodd Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru wrth gadarnhau bod hon yn broblem sy'n wynebu pob awdurdod lleol yng Nghymru a thu hwnt, yn enwedig ar ôl cyfnod hir o lymder, ei fod yn derbyn bod yr amgylchedd ariannol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd yn heriol iawn.
- Gan gyfeirio at gyfraniad gofalywyr drwy gydol y pandemig, nododd y Pwyllgor fod codiad cyflog o 3% wedi'i argymhell ar gyfer gweithwyr gofal iechyd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r cynnydd tebygol mewn cyflogau i weithwyr y sector gofal a'r goblygiadau posibl o ran costau i'r Cyngor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod anghenion gofal ar Ynys Môn yn cael eu diwallu mewn dwy ffordd – gan staff gofal y Cyngor ei hun a gan staff yn y sector gofal annibynnol o dan contract i'r Cyngor. Ar gyfer 2021/22, y cynnig ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu y Cyngor yw codiad cyflog o 1.75%. Nid yw'r Undebau ar hyn o bryd wedi'i dderbyn a thynnwyd sylw at y cynnig uwch a wnaed i weithwyr y sector iechyd a'r angen am degwch rhwng y ddau sector. Gan esbonio bod gan y Cyngor ddau brif gytundeb a ddefnyddir i bennu cyflogau ac amodau – yr un ar gyfer staff addysgu a'r staff eraill nad ydynt yn addysgu, dywedodd y Swyddog Adran 151 nad yw'r Cyngor yn gallu gwahaniaethu rhwng categorïau o weithwyr nad ydynt yn addysgu pan ddaw'n fater o godiadau cyflog, a hefyd, nad yw'n benderfyniad i'r Cyngor yn unig – pennir dyfarniad cyflog staff nad yw'n addysgu drwy gytundeb ledled Cymru a Lloegr. Yn ogystal â hyn, mae dau fesur cyflog, Cyflog Byw Cenedlaethol y Llywodraeth a'r Cyflog Byw Go lawn a argymhellir gan y Sefydliad Cyflog Byw. Er bod y Cyngor yn talu uwchlaw'r Cyflog Byw Go lawn, mae darparwyr y sector gofal annibynnol yn gyffredinol yn talu llai na'r Cyflog Byw Go lawn er mai mater i bob darparwr annibynnol yw pennu cyfraddau cyflog eu staff. Mae galwadau i gydnabod cyfraniad gweithwyr gofal yn ariannol yn ystod y pandemig yn debygol o gael eu gwneud, ac os bydd darparwyr y sector gofal annibynnol yn penderfynu cynyddu eu cyflog i staff hyd at y Cyflog Byw Go lawn (cynnydd o tua £1 y flwyddyn) a throsglwyddo'r gost i'r Cyngor yn y ffioedd y mae'r Cyngor yn eu talu i ddarparwyr, yna amcangyfrifir y byddai hynny'n golygu cost ychwanegol o tua £750,000 i'r Cyngor. Byddai'r Cyngor yn ei chael yn anodd ei ariannu heb gymorth ychwanegol yn y setliad gan Lywodraeth Cymru neu fel arall, drwy gynyddu'r Dreth Gyngor o 2%.

- Gan gyfeirio at yr argymhelliad y dylid diweddarau Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o arwyddocâd y Cynllun yng nghyd-destun cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Eglurodd Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru y bydd dyheadau'r Cyngor ar gyfer ei asedau yn debygol o fod wedi newid ers ffurfio'r Cynllun Asedau presennol, felly mae ei ddiweddarau yn rhoi cyfle i'r Cyngor ailystyried ei sylfaen asedau a chysylltu'r Cynllun â'i uchelgeisiau yn erbyn yr hyn sy'n fforddiadwy.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod angen i'r Cynllun Asedau nodi rhestr o asedau, cyflwr, addasrwydd ac anghenion buddsoddi

cyfredol y Cyngor; mater i'r Pwyllgor Gwaith wedyn yw pennu strategaeth sy'n seiliedig ar faint o'r asedau hynny y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol. Efallai nad oes angen yr holl asedau sydd gan y Cyngor i fodloni amcanion y gwasanaeth a hefyd nad yw'n fforddiadwy gwneud hynny o ystyried y cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf a chost uchel cynnal a chadw. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau, trwy ddarparu trosolwg o'r asedau eiddo cyffredinol a ddelir gan y Cyngor a'u cost, yn bwydo i mewn i'r Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi argaeledd adnoddau a'u dyraniad at ddibenion cyfalaf. Cymhlethdod ychwanegol yw targedau lleihau carbon. Bydd angen buddsoddiad sylweddol arnynt a gallai hynny olygu gorfod cael gwared ar asedau na ellir eu haddasu neu eu trawsnewid yn adeiladau carbon niwtral.

- Gan gyfeirio at sylwadau Archwilio Allanol bod defnydd o gronfeydd wrth gefn i helpu i ariannu'r gyllideb refeniw yn anghynaliadwy, roedd y Pwyllgor am wybod a yw system bresennol y Cyngor felly'n risg ac a oes angen ei newid. Cadarnhaodd Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru fod y Cyngor wedi defnyddio £300,000 o gronfeydd wrth gefn i ariannu cyllideb 2021/22; dywedodd y byddai hynny wedi bod yn destun mwy o bryder 2 i 3 blynedd yn ôl pan oedd cyllideb y Cyngor wedi gorwario a'i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi gostwng yn sylweddol. Er nad yw'n bryder uniongyrchol ar hyn o bryd gan nad yw'r ffigur yn uchel, nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn fel hyn yn ddoeth gan y bydd yn rhaid gwneud yr arbediad yn y flwyddyn ganlynol pan gaiff ei ychwanegu at arbedion y flwyddyn honno a thrwy hynny gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod Aelodau Etholedig wedi cael gwybod nad yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r gyllideb refeniw yn strategaeth gynaliadwy yn y tymor hir. Fodd bynnag, tynnwyd £300,000 o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu cyllideb 2021/22 yng nghyd-destun gwell sefyllfa wrth gefn gyffredinol a hefyd gan wybod y byddai arbedion a fyddai'n bodloni'r diffyg o £300k (contract prydau ysgol) ar gael yn 2021/22. Er y bydd y Cyngor yn asesu'r sefyllfa ar gyfer 2022/23, y strategaeth yw na fydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cael eu defnyddio i ariannu'r gyllideb refeniw oni bai nad oes opsiwn arall ar gael. Cynghorir y Pwyllgor Gwaith ar gynnig cyllideb ar gyfer 2022/23 y gellir ei chydbwysio heb orfod troi at ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad Archwilio Allanol ar gynaliadwyedd ariannol Cyngor Sir Ynys Môn a nodi ei gynnwys.**

## **7. ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD CYNNYDD BARGEN TWF GOGLEDD CYMRU - BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Allanol ar ganlyniad ei adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar ei daith i gefnogi datblygiad economi'r rhanbarth a chyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar sut mae BUEGC yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen ynni carbon isel ac wrth wneud hynny archwiliodd drefniadau llywodraethu; y cymorth a ddarperir gan swyddfa rheoli'r rhaglen; effaith Covid 19 ar ddarpariaeth a gynlluniwyd a dysgu a rennir ar gyfer yr uchelgais yn gyffredinol.

Dywedodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru fod yr adolygiad wedi canfod bod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir wedi'u sefydlu ers tro gyda chefnogaeth Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, y gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau arfaethedig a bod BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd –

- Mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir, er nad yw pob elfen yn weithredol;
- Mae'r BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n canfod bylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu gapasiti, mae'n gwneud iawn am y diffygion hynny mewn modd dyfeisgar; ac
- Mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd; mae'r BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r adroddiad yn cynnwys chwe chynnig ar gyfer ffyrdd y gallai'r cynghorau drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wella'r modd y cyflawnir eu nodau cyffredinol ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Arddangosyn 1 ar dudalen 5 yr adroddiad.

Wrth ymateb i'r adroddiad, dywedodd Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fod y sefyllfa'n datblygu'n gyflym a bod nifer o'r cynigion eisoes wedi cael ymateb; disgwylir y bydd cynnydd pellach wedi'i wneud pan adroddir yn ôl tua diwedd y flwyddyn. Mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sgil effaith Brexit a Covid-19 ac mae'n parhau i fod yn gyfnewidiol. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn cynnwys unrhyw beth annisgwyl ac mae nifer o'r argymhellion yn ymwneud â meysydd lle mae darnau o waith eisoes wedi dechrau. Hwn oedd yr adolygiad cyntaf o Fargen Twf Gogledd Cymru a'r trefniadau ategol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru, ac ar ôl pwyso a mesur, mae wedi bod yn broses adeiladol ac mae'r farn a'r cynigion dilynol ar gyfer gwella wedi bod yn gadarnhaol i'r Tîm.

Wrth ystyried cynnwys adroddiad Archwilio Allanol, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch a oes unrhyw un o brosiectau Bargen Twf Gogledd Cymru wedi dechrau; a yw cynnydd mewn prisiau yn debygol o achosi problem ac a ragwelir unrhyw broblemau wrth fynd drwy'r broses gynllunio.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Portffolio, er nad oes unrhyw brosiect wedi dechrau eto, fod tri Achos Busnes Amlinellol wedi'u cyflwyno i BUEGC ac wedi cael eu cymeradwyo i symud ymlaen i'r cam nesaf - datblygu Achos Busnes Terfynol, sy'n cynnwys y broses gaffael. Ni ragwelir y bydd y gwaith adeiladu gwirioneddol yn dechrau tan ddiwedd y flwyddyn galendr neu'n gynnar yn y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Portffolio fod argaeledd adnoddau, sgiliau a deunyddiau yn risg sylweddol ac mae hyn wedi cael ei gydnabod gan Fargeinion Twf ledled y DU. Mae'r rheini a risgiau eraill yn cael eu cydnabod a'u rheoli. Erbyn i'r prosiectau ddechrau ar y cyfnod caffael a'r gwariant, y gobaith yw y bydd amodau economaidd wedi setlo; fodd bynnag, mae'r Tîm yn gweithio yn erbyn cyfres o dybiaethau gan fod y sefyllfa economaidd wedi bod yn gyfnewidiol. Mae manteision i weithio ar Fargen Twf lle mae llawer o gytundebau eraill o'r fath ledled y DU gan y gellir dysgu gwersi a gellir rhannu arfer gorau. Er mwyn sicrhau y gall y prosiectau symud ymlaen, mae angen ymyrryd yn y farchnad gan y gallai hyn fod yn risg na ellir ei lliniaru. Mae angen osgoi sefyllfa lle mae prosiectau'n cael eu dad-gwmpasu gan fod budd i Ogledd Cymru drwy'r Fargen Twf wedi'i bennu a dyna'r canlyniad arfaethedig ar gyfer y buddsoddiadau a wnaed. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda noddwyr prosiectau ac awdurdodau cynllunio lleol i nodi unrhyw risgiau cynllunio yn gynnar yn y broses er mwyn asesu a yw'r risgiau a nodwyd yn her ai peidio ac i weithio drwy bob risg. Mae'r awydd i weld prosiectau'r Fargen Dwf yn cael



eu gwireddu yn gryf gan fod y prosiectau wedi'u cynllunio i sicrhau twf a swyddi i'r rhanbarth.

- O ystyried costau cynyddol a nifer o ffactorau allanol eraill y tu hwnt i reolaeth BUEGC, a fydd modd cyflawni prosiectau o dan y Fargen Dwf yn unol â dyheadau neu a fyddant yn cael eu glastwreiddio ac yn methu â sicrhau gwerth am arian.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Portffolio fod Cofrestr Risg Portffolio bellach wedi'i pharatoi a'i gweithredu a bod proses adrodd wedi'i sefydlu lle mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadrodd i BUEGC bob chwarter. Mae Cofrestrau Risg Rhaglenni hefyd wedi'u datblygu ar gyfer pob un o'r pum rhaglen. Cyflwynir gwybodaeth am brosiectau risg uwch er mwyn ymdrin â risgiau'n dryloyw a thrwy hynny sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud ar yr adeg briodol i gael gwerth o'r buddsoddiad. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd fod grŵp cenedlaethol o Swyddfeydd Portffolio o Geisiadau Bargeinion Twf yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban yn rhannu arfer da. O ran y tirlun ariannu, eglurodd mai'r her nesaf fydd datblygu strategaeth i gyflwyno cyllid y sector preifat gan fod y cyfraniadau i Fargen Twf Gogledd Cymru gan Lywodraeth San Steffan a Chymru wedi'u gwneud ar sail sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat hefyd.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio am ei phresenoldeb a'i chyfraniad i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor.

### **Penderfynwyd derbyn adroddiad Archwilio Allanol ar ei adolygiad o gynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru a nodi ei gynnwys.**

## **8. ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN – CYNLLUNIO'R GWEITHLU**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Allanol ar ddull a threfniadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran cynllunio'r gweithlu i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cyfeiriodd Ms Bethan Roberts, Archwilio Cymru at bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu wrth nodi a diwallu anghenion gweithlu'r dyfodol ac wrth ymateb yn rhagweithiol i unrhyw faterion a allai godi; tynnodd sylw at brif ganfyddiadau adroddiad Archwilio Allanol fel a ganlyn –

- Ar ôl profi heriau'r gweithlu yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, mae'r Cyngor yn defnyddio'r profiad hwnnw i ddatblygu cynllunio'r gweithlu ac mae ganddo gyfleoedd pellach i sicrhau manteision ar draws gwasanaethau; daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd –
  - Datblygwyd Strategaeth Gweithlu gan y Cyngor yn 2012 ond ni chafodd ei ymgorffori ym mhob gwasanaeth.
  - Mae'r dull o gynllunio'r gweithlu gan Wasanaeth Plant a Theuluoedd y Cyngor wedi bod o gymorth i ymateb i'r heriau y mae'n eu hwynebu
  - Mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio mwy ar gynllunio'r gweithlu a thrwy gynnal y ffocws hwn, gall sicrhau mwy o fanteision ar draws yr holl wasanaethau.

Mae Archwilio Allanol wedi gwneud dau argymhelliad, y naill mewn perthynas â gweithredu cynlluniau'r gweithlu ar draws yr holl wasanaethau a'r llall mewn perthynas â chael sicrwydd bod cynlluniau'r gweithlu yn ddogfennau byw.

Wrth ymateb i'r adroddiad, cadarnhaodd Pennaeth y Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod trafodaethau ac adborth gan Archwilio Cymru wedi bod yn adeiladol ac yn ddefnyddiol ac ers adolygiad Archwilio Allanol ym mis Chwefror, 2021 mae proses bellach wedi dechrau lle

trafodir cynllunio'r gweithlu bob chwarter yng nghyfarfodydd y Penaethiaid sy'n cynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a phob Pennaeth Gwasanaeth. Erbyn hyn, mae gan bob gwasanaeth gynllun gweithlu er bod angen ffurfioli rhai yn fanylach. Mae Penaethiaid Gwasanaeth hefyd yn cyfarfod â Swyddogion Adnoddau Dynol bob chwarter i ystyried data'r gweithlu sydd yn ei dro yn llywio cynllun gweithlu'r gwasanaeth. Mae cynllunio'r gweithlu wedi dod yn bwysicach yng ngoleuni'r pandemig a phroblemau recriwtio eang yn genedlaethol; mae angen hyblygrwydd er mwyn gallu delio ag amgylchedd sy'n newid a'r newid o ran anghenion a heriau.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad Archwilio Allanol o ran cynllunio'r gweithlu o fewn Cyngor Sir Ynys Môn a nodi ei gynnwys.**

## **9. ARCHWILIO ALLANOL: ADRODDIADAU AC ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU - LLYTHYR AT Y CADEIRYDD**

Cyflwynwyd llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Archwilio Cymru dyddiedig 3 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd y llythyr yn nodi'r dull i'w ddefnyddio gan Archwilio Cymru i helpu cynghorau yng Nghymru i ystyried adroddiadau gan y prif gyrrff adolygu allanol ac i sicrhau eu hunain bod ganddynt drefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

Cadarnhaodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru fod y llythyr wedi'i anfon at Gadeiryddion holl Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio Cymru i atgoffa'r pwyllgorau hynny o bwysigrwydd ystyried yr adroddiadau gan reoleiddwyr allanol ar bob ffurf ac o gael proses ar waith i gael sicrwydd y gweithredwyd ar yr adroddiadau a'r argymhellion hynny.

Wrth ymateb i'r llythyr, dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod yr Awdurdod, mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru, wedi nodi'r holl adroddiadau adolygu cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers pwynt y cytunwyd arno yn 2019 ac o ganlyniad mae gwaith ar y gweill i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb yr Awdurdod i'r adolygiadau cenedlaethol hynny i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i ffurfioli'r trefniadau ar gyfer olrhain yr argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn ei adroddiadau adolygu lleol drwy system olrhain camau gweithredu'r Cyngor 4action a ddefnyddir i reoli a dilyn camau gweithredu yn erbyn adroddiadau adolygu'r Archwiliad Mewnol.

**Penderfynwyd nodi'r llythyr at Gadeirydd Archwilio Cymru a'r ymateb gan y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, a nodi hefyd y bydd y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf yn derbyn diweddariad am gynydd y camau gweithredu yn erbyn yr argymhellion a geir yn adroddiadau adolygiad cenedlaethol Archwilio Cymru.**

## **10. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi'r archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 20 Gorffennaf 2021, llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i ganolig i'r Pwyllgor ei ystyried.

Roedd y Pennaeth Archwilio a Risg yn crynhoi'r cynnydd hyd yma fel a ganlyn –

- Bod dau adroddiad wedi'u cwblhau yn y cyfnod. Mae'r ddau ohonynt wedi arwain at sgôr Sicrwydd Rhesymol, y naill yn ymwneud â Dyraniadau Tai lle codwyd 3 mater/risg sylweddol a 3 cymedrol a'r llall mewn perthynas â'r Broses ar gyfer y Rhai sy'n Gadael - Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf lle codwyd 3 mater cymedrol.

- Cynhaliwyd yr adolygiad o Ddyraniadau Tai ar gais y Pwyllgor Gwaith ar ôl iddo dderbyn adroddiad am berfformiad gwael o ran yr amser a gymerwyd i ail-osod eiddo gwag. Er i'r adolygiad o'r mesur perfformiad hwn ddod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli ac ail-osod eiddo gwag, canfu nad yw'r mesur perfformiad sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ba mor gyflym y caiff eiddo gwag eu hail-osod yn cyd-fynd â pholisi a dull gweithredu tai diweddar sy'n ceisio gwella cydlyniant cymunedol, cynyddu cynaliadwyedd tenantiaethau ac o ganlyniad lleihau nifer cyffredinol yr eiddo gwag. Roedd hyn wedi cyfrannu at berfformiad gwael yn y maes hwn. Amlygwyd hefyd nad oedd mesur perfformiad i adlewyrchu targed uchelgeisiol y Cyngor ar gyfer prynu, adnewyddu a gosod hen eiddo'r Cyngor. Er bod y chwe mater/risgiau a godwyd yn peri risg i allu'r gwasanaeth i gyrraedd ei dargedau perfformiad yn y maes hwn, mae Archwilio Mewnol yn fodlon eu bod yn cael eu cynnwys ar lefel gwasanaeth ac nad ydynt yn peri risgiau sylweddol i'r Cyngor gyflawni ei amcanion yn gyffredinol, gan arwain at farn/sgôr sicrwydd Rhesymol.
- Cynhaliwyd yr adolygiad dilynol o'r Broses ar gyfer y Rhai sy'n Gadael ym mis Mai, 2021 i bennu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r pedwar mater/risgiau a godwyd gan adroddiad gwreiddiol yr adolygiad ym mis Medi, 2020. Roedd un ohonynt yn risg "sylweddol" oherwydd effaith bosibl y risg. Daeth yr adroddiad dilynol i'r casgliad bod y rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r risg a ystyriwyd yn risg sylweddol a'i fod yn gwneud cynnydd i fynd i'r afael â'r tri risg sy'n weddill.
- Mae'r 5 archwiliad hwnnw ar y gweill ar hyn o bryd fel y crynhoir yn y tabl ym mharagraff 14 o'r adroddiad sy'n diweddarau statws y gwaith sydd ar y gweill. Mae'r tîm Archwilio Mewnol hefyd yn cymryd rhan mewn tri ymchwiliad cymhleth ar hyn o bryd.
- Rhyddhawyd cyfran gyntaf o ganlyniadau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol 2020/21 ym mis Ionawr, 2021. Mae'r canlyniadau paru'n amlygu twyll a gwallau posibl yn systemau'r Cyngor. Ar hyn o bryd mae Archwilio Mewnol yn gweithio ar ymchwilio i ganlyniadau paru yn y pum maes a restrir ym mharagraff 18 yr adroddiad.
- Nid oes unrhyw gamau hwyr ar hyn o bryd. Adroddir ar wahân am fanylion y camau sy'n weddill.
- Er bod staff yn dychwelyd ar ôl cael eu hadleoli a chael cyfrifoldebau ychwanegol oherwydd bod lefelau'r pandemig wedi gostwng, nid yw'r tîm wedi cyrraedd ei lawn gapasiti o hyd. Mae'r camau recriwtio i lenwi swydd wag Uwch Archwilydd wedi'i gymeradwyo gan yr UDA ac mae'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Y dyddiad cau yw 20 Medi, 2021. Bydd llenwi'r swydd hon yn golygu y bydd capasiti'r tîm bron yn llawn gyda dim ond hanner swydd cyfwerth ag amser llawn yn aros yn wag yn sgil gweithio hyblyg. Fodd bynnag, bydd aelod arall o'r tîm sydd ar secondiad i'r Uned Gyfrifyddiaeth yn ymestyn cyfnod ei secondiad hyd at ddiwedd mis Mawrth, 2021. Er bod hyn yn golygu y bydd y tîm yn gweithredu ar lai o gapasiti tan ddiwedd y flwyddyn, mae'r arbedion o'r swyddi hyn yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen archwilio TG a rhai contractau ar gyfer darnau penodol o waith.
- Blaenoriaeth uniongyrchol Archwilio Mewnol yw adolygu'r risgiau gweddilliol coch ac ambr newydd (6 risg) ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yna'r risgiau nad ydynt wedi'u hadolygu mewn dros ddwy flynedd (6 risg). Yn y tymor hir, nododd adolygiad o reoli twyll nifer o gamau gweithredu fel yr amlinellir ym mharagraff 29 o'r adroddiad - rhoddir sylw i'r rhain cyn diwedd y flwyddyn.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- O ran adolygiad Archwilio Mewnol o Ddyraniadau Tai, nododd y Pwyllgor fod yr adolygiad wedi nodi diffygion yn system rheoli tai Orchard y Gwasanaeth Tai, yn benodol ei anallu i gyflawni rhai agweddau ar y broses eiddo gwag sydd wedi arwain at y gwasanaeth yn mabwysiadu ac yn gweithredu prosesau a systemau ar wahân sy'n achosi aneffeithlonrwydd a dyblygu ar yr un pryd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r

sefyllfa ynghylch system Orchard a ph'un ai a fyddai'r Gwasanaeth Tai yn gallu uwchraddio'r system i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y gwasanaeth wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn ystod yr ychydig fisoedd blaenorol i uwchraddio system Orchard drwy gyflwyno meddalwedd Acuserve a fydd yn darparu gallu ychwanegol i reoli'r broses eiddo gwag yn benodol. Bydd yn weithredol o fis Hydref 2021 ymlaen.

- Roedd y Pwyllgor am wybod ar ba sail y cafodd yr adolygiad o Ddyraniadau Tai sy'n cynnwys 3 risg sylweddol yr un sgôr sicrwydd Rhesymol â'r adolygiad dilynol o Broses ar gyfer y Rhai Sy'n Gadael nad yw'n codi unrhyw faterion o bwys.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Archwilio Mewnol o'r farn bod y materion/risg a godwyd gan yr adolygiad o Ddyraniadau Tai yn golygu bod angen eu cyfeirio at yr UDA neu pe na bai eu heffaith wedi'i chyfyngu i'r Gwasanaeth Tai yn unig o ran ei allu i gyrraedd ei dargedau perfformiad yn y meysydd a adolygwyd, yna byddai'r adolygiad wedi cael sgôr sicrwydd Cyfyngedig. Dywedodd fod y sgôr sicrwydd y mae Archwilio Mewnol yn ei roi yn seiliedig ar asesiad ansoddol yn hytrach nag asesiad meintiol o'r materion/risgiau a nodwyd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

## **11. MATERION A RISGIAU SY'N WEDDILL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnwys diweddariad ar faterion a risgiau sy'n weddill ar 31 Awst 2021 i'r Pwyllgor eu hystyried.

Tynnodd y Prif Archwilydd sylw at y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Cyn uwchraddio'r system olrhain 4action, cyflwynwyd adroddiad ar faterion a risgiau sy'n weddill i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn. Cyflwynwyd yr adroddiad manwl cyntaf yn amlinellu perfformiad wrth fynd i'r afael â chamau archwilio ers gweithredu'r system 4action newydd i'r Pwyllgor ar 20 Ebrill, 2021. Ar y pryd, cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai'n hoffi i adroddiad o'r math hwn gael ei gyflwyno iddo bob dwy flynedd. O'r herwydd, yr adroddiad hwn yw'r ail ddiweddariad canol blwyddyn.
- Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau Coch yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw faterion/risgiau coch yn weddill ar hyn o bryd.
- Ar 31 Awst, 2021 mae 56 o gamau gweithredu sy'n weddill yn cael eu holrhain yn 4action. O'r rhain, mae 19 yn cael sgôr (ambr) sylweddol a 37 (melyn) cymedrol o ran blaenoriaeth risg. (Graff 1).
- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau ac sy'n hwyr.
- Mae Graff 3 yn yr adroddiad yn dangos statws yr holl gamau gweithredu waeth beth fo'r dyddiad terfyn y cytunwyd gan y rheolwyr. Mae'n dangos bod y rheolwyr bellach wedi mynd i'r afael â 49% ohonynt a bod Archwilio Mewnol wedi cadarnhau bod 47% o'r rhain wedi'u cwblhau. Roedd y 2% arall yn ymwneud â chamau gweithredu yn deillio o archwilio Taliadau Cyflenwyr Cynnal a Chadw. Bydd Archwilio Mewnol yn dilyn y rhain yn ffurfiol ym mis Ionawr, 2022.
- Mae tua 20% o'r camau gweithredu a ddangoswyd fel rhai heb gychwyn yn ôl y system 4action yn ymwneud â dau archwiliad – Taliadau Cyflenwyr Cynnal a Chadw a'r Panel Rhianta Corfforaethol a gwblhawyd tua diwedd blwyddyn ariannol 2020/21 a lle nad yw'r materion/risgiau a nodwyd wedi cyrraedd y dyddiadau cwblhau y cytunwyd gan y rheolwyr.

- Mae Graff 4 yn yr adroddiad yn dangos statws yr holl gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod 100% wedi cael sylw. O'r rhain, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi dilysu bron pob un ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â'r archwiliad Taliadau Cyflenwyr Cynnal a Chadw - trefnwyd gwaith dilynol yn y Flwyddyn Newydd. O bryd i'w gilydd a dim ond pan fo rheswm dilys dros wneud hynny, gellir ymestyn dyddiadau targed. Oherwydd argyfwng Covid-19, mae nifer o derfynau amser targed wedi'u hymestyn ar gyfer gwasanaethau y mae eu blaenoriaeth dros y 18 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig.
- Mae'r 56 o gamau heb eu cyflawni wedi'u hymestyn rhwng 2016/17 a 2020/21. Nid yw'r rheolwyr wedi mynd i'r afael yn llawn eto ag un "hen" gam gweithredu sy'n dyddio'n ôl i 2016/17. Caiff hyn ei ystyried yn flaenoriaeth gymedrol neu felyn o ran risg ac mae'n ymwneud â'r gofyniad i wasanaethau roi sicrwydd bod eu gweithgarwch caffael yn effeithiol yn y broses her gwasanaeth flynyddol. Mae'r gwaith i fynd i'r afael ag ef bron wedi'i gwblhau gyda'r rheolwyr yn sicrhau y caiff ei ddatrys mewn pryd ar gyfer yr ymarfer her gwasanaeth nesaf ym mis Tachwedd, 2021.
- Nad oes unrhyw faterion/risgiau sylweddol neu ambr sy'n dyddio'n ôl ymhellach na 2019/20 (graff 6) sy'n dangos bod rheolwyr yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â risgiau o flaenoriaeth risg uwch.
- Ceir diweddariad statws manwl o'r holl faterion/risgiau sylweddol neu ambr sy'n weddill sy'n cael eu holrhain ar hyn o bryd yn system 4action yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio mynd ar drywydd yr holl gamau sy'n weddill i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

#### **Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau Archwilio Mewnol sy'n weddill.**
- **Cadarnhau bod lefel y manylder sydd yn yr adroddiad yn diwallu anghenion sicrwydd y Pwyllgor yn y maes hwn.**

#### **12. BLAEN RAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnwys y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried. Gwnaed mân ddiwygiadau pellach i'r Flaenraglen Waith ers ei chyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, 2021 i adlewyrchu eitemau sydd wedi'u haildrefnu oherwydd llwyth gwaith neu ffactorau eraill a chynnwys cyfarfod ychwanegol i ystyried Datganiad terfynol y Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Penderfynwyd nodi'r mân ddiwygiadau i'r Flaenraglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021/22.**

#### **13. UNRHYW FUSNES ARALL – PENODI AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Er na chafodd y mater hwn ei gynnwys fel rhan o fusnes y cyfarfod, cytunodd y Cadeirydd iddo gael ei adrodd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch prydlondeb y broses ar gyfer penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a fydd, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cyfateb i draean o aelodaeth y Pwyllgor o fis Mai ymlaen, 2022 gydag un ohonynt fydd yn cadeirio'r Pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod grŵp Gorchwyl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu ffurflen gais a hysbyseb gyffredinol ar gyfer recriwtio aelodau lleig i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio'r holl gynghorau yng Nghymru. Gobeithio y byddant yn cael eu cyhoeddi yn yr wythnos sy'n dechrau ar 4 Hydref, 2021. Bydd CLILC yn delio â hysbysebu a hyrwyddo'r swyddi fel proses i Gymru gyfan. Yn Ynys Môn, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor argymhell penodi aelodau lleig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor a'r nod yw bod wedi ymgymryd â'r ymrwymiad hwnnw erbyn diwedd y flwyddyn galendr fel bod yr aelodau lleig newydd wedi'u hapwyntio cyfarfod Chwefror 2022 y Pwyllgor, ac yn gallu dechrau yn ei swydd fel sy'n ofynnol ym mis Mai 2022.

Nododd y Cadeirydd a'r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf a chymerwyd sicrwydd o'r paratodau cynnar y bydd yr holl drefniadau angenrheidiol ar waith i allu bodloni'r gofynion deddfwriaethol o ran penodi aelodau lleig.

**Y Cyngorydd Peter Rogers  
Cadeirydd**

DRAFT

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

### Cofnodion y cyfarfod rhithiol arbennig a gynhaliwyd ar 20 Hydref, 2021

<b>PRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)  Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP) Prif Archwiliwr (NW) Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorydd Gwilym O. Jones
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac estynnodd wahoddiad i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i wneud datganiad ynglŷn â'r busnes y bwriadwyd ymdrin ag o yn ystod y cyfarfod hwn.

Bu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ddatgan bod y cyfarfod wedi'i alw i ystyried y Datganiad o Gyfrifon Terfynol ar gyfer 2020/21 ynghyd ag adroddiad a barn yr Archwilwyr Allanol ar y datganiadau ariannol, sef yr adroddiad ISA 260. Er y gwyddai pawb y byddai'n her paratoi a chwblhau'r cyfrifon o fewn yr amserlen arfaethedig oherwydd effaith barhaus y pandemig, newid archwilwyr allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 a gwahanol ddisgwyliadau'r archwilwyr newydd fel rhan o'r broses, o ran yr wybodaeth a oedd ei angen arnynt i'w galluogi i gynnal yr archwiliad a bodloni eu hanghenion sicrwydd, bu'n rhaid i'r Gwasanaeth Cyllid newid ei drefniadau ac ymarferion gwaith ac mae hyn wedi arwain at fwy o waith na ragwelwyd. Er hyn, gwnaethpwyd pob ymdrech, hyd yn oed ar ddechrau'r wythnos hon, i geisio sicrhau bod y cyfrifon ar gael i'w cyflwyno yn ystod y cyfarfod hwn, ond, yn anffodus, llesteiriwyd yr ymdrechion hyn ymhellach pan y bu'n rhaid i aelod allweddol o'r staff fod yn absennol o'r gwaith. Er gwaethaf popeth, rhaid diolch i Bethan Owen, Rheolwr y Gwasanaeth Cyllid a Jemma Robinson, Uwch Gyfrifydd yn ogystal â Yvonne Thomas a Gareth Evans o Archwilio Cymru am eu holl ymdrechion dros yr wythnosau diwethaf ac yn enwedig yn ystod y dyddiau diwethaf wrth iddynt ymdrechi i gwblhau'r cyfrifon terfynol i'w cyflwyno i'r pwyllgor yn ôl y bwriad. Er nad ydi'r newidiadau i'r cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf, 2021 yn sylweddol, mae rhai ohonynt yn golygu addasu'r cyfrif incwm a gwariant ac o'r herwydd rhaid addasu'r fantolen, sy'n golygu bod yn rhaid gwneud newidiadau cyfatebol i nodiadau'r datganiadau ariannol a'r adroddiad naratif cysylltiedig; yna rhaid gwirio a chywiro'r newidiadau yn y fersiwn Gymraeg a Saesneg sydd yn golygu bod llawer iawn o waith ynghlwm â chyflwyno'r ddogfen i'w chyhoeddi.

Y bwriad yw ail alw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried y Datganiad o Gyfrifon terfynol ar gyfer 2020/21 a'r adroddiad ISA 60 Ddydd Llun, 15 Tachwedd a'u cymeradwyo wedi hynny yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 22 Tachwedd sy'n golygu y byddwn yn dal i gwrdd â'r dyddiad cau statudol ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, sef 30 Tachwedd,

Bu i'r Pwyllgor a'r Aelod Portffolio Cyllid gydnabod yr heriau a wynebwyd wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon Terfynol ar gyfer y cyfarfod hwn a derbyn yr eglurhad a roddwyd gan y Swyddog Adran 151 ynglŷn â pham nad oedd hyn wedi bod yn bosibl yn y pen draw, a bu iddynt hefyd gydnabod gwaith y Gwasanaeth Cyllid a mynegi eu diolch i'r staff am eu hymdrechion, yn enwedig yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

Holodd yr Is-gadeirydd pa un ai a oedd unrhyw elfennau penodol o'r cyfrifon wedi achosi her i'r archwilwyr a chyfeiriodd at faterion yn ymwneud â'r cynllun Pensiwn Athrawon a oedd wedi cael sylw yn y wasg yn ddiweddar, ac a oedd yn ymwneud yn benodol â throsglwyddo cyfraniadau i'r cynllun.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod yr eitem ar y Cynllun Pensiwn Athrawon ar wefan BBC Cymru a'r eitem ddilynol ar y newyddion Cymraeg wedi bod yn gamarweiniol ar y gorau ac ar y gwaethaf yn ffeithiol anghywir ar nifer o bwyntiau, a'u bod wedi achosi pryder diangen i athrawon. Yn groes i'r stori ar y newyddion a wnaeth ddatgan nad oedd yr holl gyfraniadau wedi'u trosglwyddo i'r Cynllun Pensiwn Athrawon cadarnhaodd nad dyma'r achos a bod yr holl gyfraniadau a ddidynnwyd o gyflogau athrawon wedi'u talu i'r cynllun pensiwn gan olygu nad oes unrhyw oblygiadau o ran y cyfrifon gan eu bod yn adlewyrchu'r cyfraniadau a ddidynnwyd ac a drosglwyddwyd. Pob blwyddyn mae ffurflen datgan gwybodaeth a chyfraniadau pensiwn yn cael ei pharatoi a'i dilysu drwy gael ei harchwilio; nid oes yr un datganiad blynyddol wedi cael ei haddasu ers i'r Swyddog Adran 151 fod yn y swydd.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod y Cynllun Pensiwn Athrawon yn wahanol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon; mae'n gynllun heb ei ariannu sy'n cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Pensiwn Athrawon (TPS) ac mae taliadau pensiwn yn seiliedig ar gyflog terfynol a hyd gwasanaeth sydd yn ffactor allweddol. Awgrymwyd yn yr eitem gan y BBC mai problem sy'n bodoli yn Ynys Môn yn unig yw hon ond nid yw hyn yn wir ac i ategu hyn cyfeiriodd y Swyddog at erthygl a gyhoeddwyd yn "Schools Week" ym mis Hydref 2020 ynglŷn â bylchau ym mhensiynau athrawon ac fe amlygwyd bod y broblem yn bodoli'n genedlaethol. Roedd yr erthygl yn datgan er bod modd i athrawon godi arian o'u pensiwn gyda gwasanaeth ar goll, bod modd cywiro'r problemau hyn ar ôl i'r pensiwn gael ei godi ac y byddai'r Gwasanaeth Pensiwn Athrawon yn ail gyfrifo'r symiau dyledus.

Paratoir ygwybodaeth ynglŷn â chyfraniadau a gwasanaeth pob athro (parhaol, dros dro a llanw) a chaiff ei gyflwyno i'r TPS mewn ffeiliau ar wahân pob mis. Yn hanesyddol roedd hon yn broses a waned â llaw, ond bellach caiff ei chwblhau'n electronig ac yn dilyn cael mynediad at eu cofnodion gwasanaeth drwy borth ar-lein, mae rhai athrawon wedi dod o hyd i fylchu yn eu cofnodion. Tra bo problemau wedi bod ynglŷn â'r modd yr oedd yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan yr Awdurdod dros amser, mae'r broses wedi cael eu gwella i sicrhau bod y ffeiliau hyn yn gywir ac mae'r adran Archwilio Mewnol hefyd wedi adolygu'r newidiadau a chadarnhau bod y system yn gadarn. Fodd bynnag, mae camgymeriadau yn ymddangos ar hap ac mae'n anodd cyfrif amdanynt gan nad oes digon o adborth yn cael ei roi gan y TPS i gadarnhau bod y data a dderbyniwyd wedi'i ddilysu a bod cofnodion yn cael eu diweddarau yn unol â hynny. Er bod y TPS wrthi'n diwygio'i systemau i ganiatáu cyflwyno un ffeil data cyfansawdd o'r flwyddyn nesaf ymlaen, a ddylai leihau'r anghysondebau, mae bylchau hanesyddol yn bodoli o hyd ac yr unig ffordd o'u cywiro yw gwirio pob slip cyflog unigol ar gyfer y mis y mae a wnelo'r bwch ag o. Gan nad yw'n bosib i'r Awdurdod gyflawni'r



dasg hon, gofynnir i athrawon wirio eu cofnodion rhag unrhyw flychau yn eu cyflogaeth a rhoi gwybod i'r Awdurdod er mwyn iddo ddilysu'r wybodaeth a chywiro unrhyw wallau. Yn dilyn ailstrwythuro'r tîm Cyflogau mae swyddog penodedig yn gyfrifol am y gwaith hwn.

Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ymlaen i egluro y gallai'r Awdurdod gynnal y gwiriadau hyn pe byddai athro'n dod o hyd i flychau ond nad yw'n gallu dweud pryd na pham y mae'r bylchau hyn yn bodoli, fodd bynnag nid oes gan yr Awdurdod yr adnoddau i wneud hyn ar gyfer pob un athro.

Mynegodd y Pwyllgor eu diolch i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 am egluro'r sefyllfa mewn perthynas â phensiynau athrawon ac am egluro sut mae'r cynllun y gweithio.

**Wedi hynny gohiriwyd y cyfarfod tan 15 Tachwedd, 2021.**

**Y Cyngorydd Peter Rogers  
Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021 (gohiriwyd o 20 Hydref 2021)

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)  Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, Dylan Rees, Margaret M. Roberts.
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) Rheolwr Cyllid (CK) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorwyr Gwilym O. Jones, Alun Roberts, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Derwyn Owen, (Cyfarwyddwr Ymgysylltu – Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (JHJ), Rheolwr Sgrwtini (AGD)

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21 AC ADRODDIAD ISA 260

- Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad o'r Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2020/21 ar ôl cwblhau'r archwiliad.

Wrth adrodd bod y terfyn amser statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 wedi cael ei ymestyn unwaith eto i 30 Tachwedd 2021, er mwyn caniatáu ar gyfer yr amodau gwaith yn gysylltiedig â'r pandemig Coronafeirws, manteisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y cyfle i ddiolch i bawb a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o baratoi ac archwilio'r cyfrifon, gan gynnwys staff gwasanaethau Cyllid a Chyfrifeg y Cyngor a hefyd swyddogion Archwilio Cymru a oedd yn archwilio'r Datganiad o'r Cyfrifon am y tro cyntaf eleni. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai newidiadau'n cael eu gwneud i rai prosesau a phapurau gwaith er mwyn adlewyrchu'r safonau sy'n ofynnol gan Archwilio Cymru, sy'n wahanol i ofynion archwilwyr blaenorol y Cyngor. Ymdriniwyd â'r holl faterion a gododd trwy gydol yr archwiliad yn brydlon ac yn foddhaol.

Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at y newidiadau yn y cyfrifon ers i'r cyfrifon drafft gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2021, sy'n cael eu nodi yn adran 3 yr adroddiad ac mae adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol yn ehangu arnynt hefyd. Newidiadau technegol eu natur ydynt yn bennaf ac er eu bod wedi arwain at addasu'r cyfrif incwm a gwariant a'r fantolen, nid yw'r un o'r newidiadau wedi cael effaith ar Falansau Cronfa'r Cyngor na'r Cyfrif Refeniw Tai. Lle bo'n berthnasol, adolygwyd y nodiadau ar y cyfrifon i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed o fewn corff y cyfrifon ac, ar yr un pryd, ymdrechwyd i wella ansawdd y nodiadau a dileu'r rhai hynny nad ydynt ym marn yr archwilydd yn ychwanegu gwerth at y cyfrifon. I gloi, mae'n bleser gallu adrodd bod adroddiad yr archwilydd yn cadarnhau i'r cyfrifon gael eu paratoi'n briodol, yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifo, a'u bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2021.

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y cyflwynwyd fersiwn drafft ohono i'r Pwyllgor roi sylwadau arno ym mis Mehefin 2021) yn ceisio rhoi sicrwydd fod trefniadau priodol ar waith gan y Cyngor i reoli ei fusnes yn ystod y flwyddyn a bydd yn ffurfio rhan o'r Datganiad Cyfrifon terfynol ar gyfer 2020/21.
- Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, Adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020/21 (adroddiad ISA 260).

Adroddodd Mr Derwyn Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Cymru, ar brif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 fel a ganlyn –

- Ni all archwilydd byth roi sicrwydd llawn bod cyfrifon wedi cael eu datgan yn gywir ond yn hytrach maent yn gweithio i lefel o berthnasedd. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain. Pennwyd lefel perthnasedd o £2.663m ar gyfer archwiliad 2020/21. Pennwyd lefel perthnasedd is ar gyfer datganiadau partion cysylltiedig (£10,000) a Chydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion (£1,000).
- Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar bob agwedd o gymdeithas, ac mae'n parhau i wneud hynny. Felly, mae'r ffaith i'r cyfrifon gael eu paratoi yn wyneb heriau'r pandemig yn dyst i ymrwymiad tîm cyfrifon y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar yr archwiliad ac mae'r prif effeithiau'n cael eu crynhoi yn Arddangosyn 1 yr adroddiad. Maent yn ymwneud â'r amserlen, ardystio'r cyfrifon, a fydd unwaith eto eleni'n cael ei wneud yn electronig, a'r dull o gynnal yr archwiliad a chael tystiolaeth archwilio, a llwyddwyd i wneud hynny trwy fabwysiadu dulliau gweithio o bell. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig sy'n berthnasol i'r broses archwilio yn parhau i gael ei adolygu, gan gynnwys a oes arferion arloesol y gellir eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.
- Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y bydd y Cyngor wedi cyflwyno Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae barn ddiamod yn golygu nad oes unrhyw bryderon perthnasol ynghylch unrhyw agweddau o'r cyfrifon.
- Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad ac mae'n cadarnhau barn yr archwilydd annibynnol bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 ac iddynt gael eu paratoi yn gywir yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol.
- Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y cyfrifon sy'n dal heb eu cywiro.

- Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan reolwyr. Maent yn cael eu nodi gydag esboniadau yn Atodiad 3 yr adroddiad.
- Yn ystod yr archwiliad, roedd yr archwilwyr yn ystyried nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd ar unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi; roedd dau fater yn codi yn y meysydd hyn eleni, mewn perthynas â'r canlynol –
- Symleiddio'r cyfrifon – mae Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 y Cyngor yn fanwl ac mae'n cynnwys sawl datgeliad sydd islaw lefel perthnasedd ac o bosib nad oes angen eu datgelu'n benodol, neu sy'n cynnwys gormod o fanylion. Mae Awdurdodau sydd eisoes wedi cymryd camau i symleiddio wedi canfod y gellir paratoi cyfrifon cliriach a byrrach i safon uchel gyda llai o adnoddau ac nid yn unig y mae'n lleihau'r amser a'r ymdrech a gymerir i gynhyrchu'r datganiad diwedd blwyddyn ond hefyd yr amser a'r ymdrech a gymerir i gwblhau'r broses archwilio allanol. Er mwyn galluogi hyn, efallai y bydd angen adolygu rhywfaint o brosesau diwedd blwyddyn. Mae trafodaethau a gynhaliwyd gyda swyddogion wedi bod yn gadarnhaol gydag arwydd eu bod yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu set fwy penodol o gyfrifon yn y dyfodol. Bydd Archwilio Cymru'n gweithio'n agos â'r Cyngor i gefnogi'r tîm cyllid i wneud y newidiadau angenrheidiol cyn cynhyrchu cyfrifon 2021-22.
- Ansawdd cyfrifon drafft a phapurau gwaith - er y cydnabyddir bod absenoldeb swyddog cyllid allweddol wedi effeithio'n andwyol ar y gwaith o baratoi cyfrifon 2020/21, dylai'r Cyngor gymryd camau i gryfhau ymhellach prosesau ar gyfer adolygu'r holl bapurau gwaith yn y cam cyn archwilio. Bydd hyn yn gwella ansawdd a chysondeb y wybodaeth a gyflwynir ac yn lleihau nifer yr ymholiadau a'r amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad. Dylid canmol staff cyllid am eu parodrwydd i sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda staff Archwilio Cymru ac i wella prosesau, ansawdd y cyfrifon a'r cofnodion sylfaenol. Bydd Archwilio Cymru'n gweithio gyda'r Cyngor dros y misoedd nesaf i adeiladu ar hyn.
- Bod yr argymhellion, fel y nodir nhw ym mharagraffau 28 i 30 yr adroddiad, yn adlewyrchu'r canfyddiadau uchod ynghylch gwella agweddau ansoddol y cyfrifon mewn perthynas â symleiddio'r cyfrifon a chryfhau'r broses adolygu ansawdd. Mae Archwilio Cymru'n bwriadu cynnal ymarfer dysgu ôl-brosiect gyda staff allweddol er mwyn gwella'r broses o gynhyrchu cyfrifon ymhellach ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod y Gwasanaeth Cyllid a'r Cyngor yn derbyn argymhellion yr archwilydd annibynnol ac y bydd yn gweithio gydag Archwilio Cymru i roi'r argymhellion hynny ar waith gyda'r nod o wella'r broses o gynhyrchu'r cyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae cwrdd â'r amserlen fyrrach ar gyfer cau'r llyfrau yn heriol ac mae'n rhoi pwysau ar staff y Gwasanaeth Cyllid i gwblhau'r broses yn gynharach ac mae posibilrwydd y bydd materion/ymholiadau yn codi wedyn yn ystod y broses archwilio. Er y deallir y rhesymau dros gau lawr yn gynharach er mwyn sicrhau bod llai o bwyslais yn cael ei roi ar edrych yn ôl a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar edrych ymlaen, mae cyflawni'r dyddiadau yn heriol ac mae'n golygu bod y broses yn fwy agored i gamgymeriadau.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau a ganlyn –

- Mewn perthynas â'r newidiadau i'r cyfrifon ers cyflwyno'r fersiwn drafft i'r Pwyllgor, nodwyd fod nifer o ffigurau'r flwyddyn flaenorol yng ngholofnau'r tablau (h.y. blwyddyn ariannol 2019/20) wedi cael eu newid ac mewn sawl achos mae'r rhif olaf wedi newid gan 1; gofynnwyd a yw hyn o ganlyniad i newid mewn rheol neu ymarfer talgrynnu i fyny neu i lawr, o ystyried bod y lefel perthnasedd yn llawer uwch, ac a yw newidiadau i gyfrifon archwiliedig y flwyddyn flaenorol yn cael unrhyw effaith ar gyfrifon 2020/21.

Eglurodd y Rheolwr Archwilio Ariannol ar gyfer Archwilio Cymru nad oedd rhai o'r ffigyrau yn y cyfrifon drafft ar gyfer 2020/21 yn cyd-fynd â'r ffigyrau a gyhoeddwyd ar gyfer cyfrifon y flwyddyn flaenorol gan olygu bod rhai newidiadau wedi cael eu gwneud yn ystod yr archwiliad. Wrth gadarnhau mai dyna oedd yr achos, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg y gwelwyd ar ôl trosglwyddo data rhwng taenlenni bod y ffigyrau yn anghyflawn a/neu nad oeddent yr un fath ac felly bu'n rhaid eu cywiro er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r cyfrifon terfynol a gyhoeddwyd ar gyfer 2019/20.

- Mewn perthynas â phartïon cysylltiedig, nodwyd bod taliadau a wnaed gan y Cyngor i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPCB - parti cysylltiedig trwy reolaeth gyffredin gan lywodraeth ganolog) ar gyfer 2020/21 yn dod i gyfanswm o £1.189m, a bod £0.458m yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn tra bod y taliadau a dderbyniodd y Cyngor gan BIPBC yn dod i gyfanswm o £6.132m gyda swm o £1.354m yn ddyledus gan y parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor eisiau gwybod a oedd unrhyw broblemau o ran sicrhau'r arian sy'n ddyledus gan BIPBC a'r amser y mae'n cymryd i dalu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cyfrifon yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg benodol, sef 31 Mawrth 2021, ac y gallai'r sefyllfa fod wedi newid wedi hynny. Er y cafwyd problemau yn y gorfennol mewn perthynas â chyfraniad BIPBC tuag at rhai costau gofal, a oedd yn berthnasol i bob cyngor yn y rhanbarth, daethpwyd i gytundeb erbyn hyn ynghylch yr hyn sy'n daladwy mewn sawl achos ac mae llawer o'r ddyled hanesyddol wedi cael ei thalu. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gwella a chryfhau ei brosesau ei hun i sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol i gefnogi cytundebau a wneir gyda BIPBC ar gyfer darparu gwasanaethau. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 bod ymgysylltu a thrafodaethau gyda BIPBC wedi gwella'n fawr ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar yr arian sy'n ddyledus, a dywedodd nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw broblemau wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â thalu biliau'r Bwrdd Iechyd.

- Mewn perthynas â'r newidiadau i'r ffigyrau yn y tabl o dan Nodyn 14 (Incwm Treth a Grantiau Amhenodol) o gymharu â'r fersiwn drafft. Er y nodwyd bod y newid i'r ffigur ailddosbarthu trethi annomestig yn £2.14m, gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch newidiadau i ffigyrau eraill yn y tabl a oedd yn golygu bod newid net o £68k o gymharu â'r cyfrifon drafft.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mai'r prif newid oedd y rhaniad yn ymwneud ag ailddosbarthu Trethi Annomestig a'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd hyn oherwydd y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ail-gyfrifo i adlewyrchu gostyngiad yn y cronfeydd Trethi Annomestig y mae'r Llywodraeth yn eu derbyn a chynnydd yn y cyfraniad yr oedd rhaid iddo ei wneud oherwydd hynny i'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'n bosib bod yr archwiliad wedi nodi newidiadau llai eraill a oedd yn cael effaith ar ffigyrau incwm y Dreth Gyngor a/neu Grantiau Cyfalaf yn y tabl yn Nodyn 14. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyllid y gellir priodoli'r ffigur newid net o £68k i'r driniaeth o Grant ymwneud â Threthi Annomestig a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Mr Derwyn Owen o Archwilio Cymru bod yr holl newidiadau rhwng y cyfrifon drafft heb eu harchwilio a'r cyfrifon terfynol archwiliedig wedi eu nodi yn Atodiad 3 adroddiad ISA 260 yr archwilyr allanol ac mae'r adroddiad hwnnw yn cydnabod hefyd bod nifer o newidiadau a diweddariadau datgelu eraill llai

arwyddocaol (islaw lefel perthnasedd) wedi cael eu gwneud o ganlyniad i waith yr archwilwyr.

- O ystyried y bwriad i symleiddio'r cyfrifon, cyfeiriwyd at y tablau o dan Nodyn 28 (Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol) a Nodyn 29 (Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi). Er bod y Tabl yn Nodyn 28 yn cyfeirio at lif arian o weithgareddau gweithredol, nodwyd ei fod hefyd yn cynnwys addasiad ar gyfer llif arian o weithgareddau buddsoddi sydd yn cael ei droi o chwith wedyn yn y tabl yn Nodyn 29 a theimlwyd bod hynny'n gwneud y cyfrifon yn fwy dryslyd yn hytrach nag yn fwy eglur.

Wrth gydnabod y pwynt a wnaethpwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod y datganiad llif arian yn Nodyn 28 yn cael ei osod ar fformat hanesyddol a'i fod yn enghraifft o'r math o feysydd yr edrychir arnynt mewn ymgais i symleiddio ac egluro'r cyfrifon.

- Yn y tabl ar gyfer Grantiau Refeniw a dderbyniwyd ymlaen llaw ar dudalen 63 y cyfrifon, nodwyd bod angen newid y cyfeiriad at y *North East Wales Ambition Board* yn y ddogfen Saesneg i ddarllen *North Wales Economic Ambition Board*.
- Oherwydd y newid mewn archwilwyr allanol a'r newid mewn dull/safbwyntiau mewn perthynas â'r broses paratoi cyfrifon, awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol i'r Pwyllgor gael cyfarfod ar wahân gydag Archwilio Cymru er mwy cael mwy o wybodaeth am y syniad o symleiddio'r cyfrifon a deall yn well yr hyn sydd wedi newid o ran ymarfer a disgwyliadau o gymharu ag archwilwyr blaenorol y Cyngor.

Dywedodd Mr Derwyn Owen y byddai Archwilio Cymru'n hapus i gwrdd â'r Aelodau os mai dyna oedd eu dymuniad. Daw'r cysyniad o symleiddio gan CIPFA sydd wedi cydnabod bod cyfrifon awdurdodau lleol wedi dod yn hirfaith ac yn gymhleth ac mae'n annog cynghorau ar draws Cymru a Lloegr i adolygu nifer y nodiadau a gynhwysir yn y cyfrifon ac ystyried a ydynt yn ychwanegu gwerth. Penderfyniad lleol yw beth sydd i'w gynnwys yn y cyfrifon ac mae Archwilio Cymru yn hapus i gynnal trafodaeth â'r Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ac, yn dilyn hynny, efallai y byddai'n briodol cynnal cyfarfod â'r Pwyllgor i sicrhau bod Aelodau'n fodlon ag elfennau'r cyfrifon (os o gwbl) yr argymhellir eu tynnu allan o'r Datganiad y flwyddyn nesaf. Mewn perthynas â newid archwilwyr, cynhaliwyd yr archwiliad ar yr un sail ag archwiliadau yn y gorffennol, sef yn unol â safonau archwilio rhyngwladol yn ôl y gofyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod y Cyngor yn fodlon edrych ar ffyrdd o leihau maint y cyfrifon a'u gwneud yn fwy hygyrch i'r darllenwr gan eu bod wedi dod yn gynyddol feichus a chymhleth yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan olygu ei bod yn anodd i'r cyhoedd eu deall ac mae hynny'n tanseilio eu gwerth a'u pwrpas. Fodd bynnag, mae symleiddio'n berthnasol nid yn unig i gynnwys y cyfrifon ond hefyd i'r prosesau mewnol ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon a'r wybodaeth a gesglir, sy'n golygu y bydd y broses archwilio yn haws hefyd.

Oherwydd y newidiadau i gyfansoddiad pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yng Nghymru a ddaw i rym ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd, awgrymwyd hefyd y dylid gohirio cyfarfod rhwng Aelodau'r Pwyllgor ac Archwilio Cymru tan ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 pryd y gellir wedyn gofyn i Archwilio Cymru gynnal seminar hyfforddi rhithwir ranbarthol er mwyn diwallu anghenion aelodau pwyllgor newydd.

**Penderfynwyd –**

- **Argymhell i'r Cyngor ei fod yn derbyn y Datganiad o'r Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2020/21.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo ac at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.**
- **Nodi Adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020/21.**

**NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**Y Cyngorydd Peter Rogers  
Cadeirydd**

**DRAFT**



CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
<b>Cyfarfod:</b>	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
<b>Dyddiad:</b>	9 Rhagfyr 2021
<b>Pennawd yr Adroddiad:</b>	Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth Blynyddol Ysgolion Ynys Môn- Tachwedd 2021
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	Hysbysu aelodau o'r lefel o gydymffurfiaeth a risg diogelwch data mewn perthynas ag ysgolion, a crynhoi blaenoriaethau presennol
<b>Adroddiad gan:</b>	Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion Est: 1833, <a href="mailto:dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk">dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Elin Williams, Swyddog Diogelu Data Ysgolion Est: 1833, <a href="mailto:dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk">dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk</a>

### Pwrpas yr adroddiad hwn

Darparu dadansoddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r materion Llywodraethu Gwybodaeth allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf 2020 a Thachwedd 2021 a chrynhoi'r blaenoriaethau cyfredol.

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth am ysgolion, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR); Deddf Diogelu Data 2018 a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion y camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Gorffennaf 2020) i roi polisïau a dogfennau i ysgolion i gefnogi ysgolion i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae hefyd yn rhoi manylion am gynnwys *Cynllun Diogelu Data Ysgolion 2021-2022* a'r cynnydd hyd yma yn erbyn y cynllun a hefyd yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y *Cynllun Cymorth ar gyfer Ysgolion - Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data Ysgolion 2020-21*.

Rhaid nodi bod y cyfnod hwn wedi bod yn arbennig o heriol i ysgolion oherwydd pandemig byd-eang Covid-19 ac mae wedi bod yn anodd iawn i ysgolion flaenoriaethu unrhyw beth oni bai am redeg yr ysgolion a darparu addysg tra hefyd yn delio â phrinder staff a heriau eraill y maent wedi gorfod eu hwynebu, ac maent yn dal i'w hwynebu yn awr.

### Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, oherwydd pandemig Covid 19, nid yw ysgolion wedi bod mewn sefyllfa i allu datblygu'r rhaglen diogelu data cyn gynted ag y buasant yn arferol yn gallu ei wneud. Nodwyd llawer o

flaenoriaethau a chamau gweithredu yn yr adroddiad diwethaf, ond mae wedi bod yn anodd i'r ysgolion allu rhoi lefel fawr o flaenoriaeth i'r gwaith hwn oherwydd ymdrin â'r pandemig. Hefyd, oherwydd cyfnod o absenoldeb tymor hir i mi fel y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, mae rhai agweddau ar y cynllun wedi'u symud ymlaen. Mae cymorth allanol yn cael ei ddarparu gan Cwmni Celyn mewn perthynas â rhai o'r gweithredoedd a darnau gwaith o fewn y cynllun yma.

Mae targedau wedi'u hadolygu sawl gwaith, ond er gwaethaf y pandemig a salwch hirdymor fy hun, gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran mabwysiadu polisïau diogelu data allweddol. Gwnaed gwaith sylweddol hefyd i uwchraddio systemau a seilwaith TGCh yr ysgolion drwy drosglwyddo i wasanaethau cwmwl Hwb.

Mae'r **arferion** rheoli gwybodaeth o ddydd i ddydd yn yr ysgolion yn dal yn dderbyniol a bu camau cadarnhaol. Mae pob ysgol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac maent yn talu eu ffi diogelu data blynyddol. Mae pob ysgol hefyd wedi mabwysiadu'r Polisi Diogelu Data Ysgolion statudol. Mae pob ysgol wedi cofrestru ar gyfer Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ers mis Gorffennaf 2020. Mae cynnydd hefyd yn nifer y cysylltiadau yr wyf fi fel y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn eu derbyn gan ysgolion yn gofyn am gyngor ac arweiniad.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith o hyd i sicrhau bod yr holl bolisïau a dogfennau diogelu data allweddol wedi'u mabwysiadu a bod ysgolion yn monitro ac yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r polisïau hyn (mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol i sicrhau bod pob polisi perthnasol yn cael eu mabwysiadu, gan gynnwys polisïau statudol e.e. Polisi Diogelu Data). Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sicrhau bod gan bob ysgol brosesau cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gwrthrych y data.

Mae angen gwneud gwaith o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data. Mae mwy i'w wneud o hyd o ran nodi a darparu hyfforddiant penodol i staff ysgolion, gan gynnwys y corff llywodraethu, i sicrhau bod pawb o fewn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.

Mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel y rheolwyr data a'r disgwyliadau cyfreithiol sy'n deillio o hynny. Credaf fod ysgolion bellach yn deall eu rhwymedigaethau diogelu data yn well a phwysigrwydd diogelu data ac yn awr yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

<b>Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Tachwedd 2021)</b>	<b>Sicrwydd Rhesymol</b>
Mae'r broses o ddechrau cael polisïau, prosesau ac arferion ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi dechrau yn yr ysgolion, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd i gael pob ysgol ar yr un lefel a sicrhau bod gan ysgolion y gofynion sylfaenol ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.	

## **Argymhellion**

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor:

- i. i dderbyn adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, gan gynnwys y datganiad;
- ii. i'r Pwyllgor gymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion - y Cynllun Diogelu Data Ysgolion – er mwyn galluogi ysgolion i lawn weithredu yn unol â gofynion diogelu data.

# **ADRODDIAD SICRIFYDD LLYWODRAETHU GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN**

**ELIN WILLIAMS, SWYDDOG  
DIOGELU DATA YSGOLION**

**Tachwedd 2021**

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
1. Cyflwyniad	3
2. Casgliadau a Gweithredoedd o Adroddiad Gorffennaf 2020	4
2.1. Casgliadau o Adroddiad Gorffennaf 2020	4
2.2. Gweithredoedd o Adroddiad Gorffennaf 2020	5
2.2.1. Polisïau, Arweiniad, Dogfennau a Thempledi a Rennir ag Ysgolion	11
2.2.2. Hyfforddiant Diogelu Data	13
2.2.2.1 E-ddysgu	13
2.2.2.2 Hyfforddiant Diogelu Data a roddir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion	13
3. Cynllun Diogelu Data Ysgolion	14
3.1. Cynllun Cefnogaeth i Ysgolion – Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data Ysgolion	14
3.2. Cynllun Diogelu Data Ysgolion 2021-2022	15
3.2.1. Polisïau a Dogfennau Diogelu Data	15
3.2.2. Datblygu Proses Derbyn Polisïau	15
3.2.3. Defnyddio'r Teclyn Adolygiad Rheolaeth Ysgolion (ARhY) Fel Teclyn Monitro	16
3.2.4. Mapio Proseswyr Data	16
3.2.5. Mapio'r Llif Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor	16
3.2.6. Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion	16
3.2.7. Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol	17
3.2.8. Cymorth Allanol i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion	17
4. Digwyddiad Seibr Ysgolion Uwchradd	17
5. Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion - Tachwedd 2021	18
6. Casgliadau a Chamau Nesaf	19

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throswolwg o gydymffurfriad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth am ysgolion, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR); Deddf Diogelu Data 2018 a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion y camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf (Gorffennaf 2020) i ddarparu polisiâu a dogfennau i ysgolion i'w cefnogi i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae hefyd yn rhoi manylion am gynnwys *Cynllun Diogelu Data Ysgolion 2021-2022* a'r cynnydd hyd yma yn erbyn y cynllun a hefyd yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y *Cynllun Cefnogaeth i Ysgolion - Polisiâu a Gweithdrefnau Diogelu Data Ysgolion 2020-21*.

Rhaid nodi bod y cyfnod hwn wedi bod yn arbennig o heriol i ysgolion oherwydd pandemig byd-eang Covid-19 ac mae wedi bod yn anodd iawn i ysgolion flaenoriaethu unrhyw beth oni bai am redeg yr ysgolion a darparu addysg tra hefyd yn delio â phrinder staff a heriau eraill y maent wedi gorfod eu hwynebu, ac maent yn dal i'w hwynebu yn awr.

Dyma'r 45 o ysgolion yn Ynys Môn sydd wedi cofrestru i dderbyn cefnogaeth ac arweiniad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion:

### Ysgolion Cynradd

Ysgol Gynradd Amlwch	Ysgol Esceifiog	Ysgol Llanfairpwll	Ysgol Penysarn
Ysgol Beaumaris	Ysgol Gymuned y Fali	Ysgol Llanfawr	Ysgol Rhoscolyn
Ysgol Gynradd Bodedern	Ysgol y Ffridd	Ysgol Llanfechell	Ysgol Rhosneigr
Ysgol Bodffordd	Ysgol Garreglefn	Ysgol Llangoed	Ysgol Rhosybol
Ysgol y Borth	Ysgol Goronwy Owen	Ysgol Llannerch-y-medd	Ysgol Rhyd y Llan
Ysgol Bryngwran	Ysgol y Graig	Ysgol Moelfre	Ysgol Santes Dwynwen
Ysgol Brynsiencyn	Ysgol Henblas	Ysgol Gymraeg Morswyn	Ysgol Santes Fair
Ysgol Cemaes	Ysgol Kingsland	Ysgol Parc y Bont	Ysgol Talwrn
Ysgol Corn Hir	Ysgol Llanbedrgoch	Ysgol Pencarnisiog	Ysgol y Tywyn
Ysgol Cybi	Ysgol Llandegfan	Ysgol Pentraeth	

### Ysgolion Uwchradd

Ysgol Uwchradd Bodedern

Ysgol Uwchradd Caergybi  
Ysgol David Hughes  
Ysgol Gyfun Llangefni  
Ysgol Syr Thomas Jones

Ysgolion Arbennig  
Canolfan Addysg y Bont

## 2. Casgliadau a Gweithredoedd o Adroddiad Gorffennaf 2020

### 2.1. Casgliadau o Adroddiad Gorffennaf 2020

Y canlynol oedd y casgliadau yn adroddiad Gorffennaf 2020:

- Mae **arferion** rheoli gwybodaeth o ddydd-i-ddydd mewn ysgolion yn dderbyniol ar y cyfan ond nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu polisïau a dogfennau allweddol gan na chrëwyd nifer o'r polisïau a'r dogfennau hyn ar gyfer ysgolion cyn penodi'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Mae'n hanfodol bod polisïau a dogfennau craidd cyfredol yn cael eu mabwysiadu cyn gynted â phosibl. Mae Covid-19 wedi cael effaith ar yr amserlen ar gyfer cymeradwyo'r polisïau a'r dogfennau allweddol ond mae angen ceisio sicrhau bod y rhain ar waith, mewn partneriaeth â'r ysgolion, yn ystod tymor yr hydref.
- Mae angen sicrhau bod prosesau diogelu data penodol, effeithiol a chadarn ar waith. Mae hyn yn unol â'r polisïau a'r dogfennau allweddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw brosesau cadarn ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau diogelwch data; ymdrin â cheisiadau gan wrthrych y data; cyfyngu ar fynediad at wybodaeth bersonol; dileu data personol sydd wedi mynd heibio cyfnod cadw; rheoli risgiau diogelu data a chreu Aseidiadau Effaith Diogelu Data ar gyfer prosesau risg uchel.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Rhestr Asedau Gwybodaeth ar waith sy'n cael eu cadw yn gyfredol.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol a'u bod yn cael eu rhannu a'u bod ar gael i unigolion a bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.
- Mae angen cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data lefel uchel a hefyd gydag ysgolion unigol. Bydd angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio gyda'r ysgolion i sicrhau bod y rhain ar waith.
- Mae angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wneud mwy o waith gydag ysgolion ynghylch defnyddio caniatâd gan gynnwys adolygu'r ffurflenni presennol.
- Mae angen diweddarau'r cynllun hyfforddi ac ysgolion i sicrhau bod eu holl staff wedi cwblhau'r modiwl ar-lein.
- Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod holl gyrff llywodraethu ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data a sut i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio. Bydd angen i gyrff llywodraethu ysgolion fabwysiadu'r polisïau diogelu data ar ran yr ysgolion a gofyn i ysgolion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhain.





## 2.2 Gweithredoedd o Adroddiad Gorffennaf 2020

Adnabyddodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn 2020 pa ddarnau o waith yr oedd angen eu gwneud gyda'r ysgolion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data ac yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt fel y rheolydd data, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon.

Cynigiwyd y camau canlynol fel y camau nesaf yr oedd angen eu cymryd i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu yn unol â'r gofynion. Nodwyd y cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r camau i'w cymryd yn ogystal ag unrhyw waith pellach y mae angen ei wneud.

Mae'r *Cynllun Diogelu Data Ysgolion* eisioes wedi ei hadolygu ers y sesiwn adrodd diwethaf yng ngŵydd y digwyddiad data:

### **Allwedd Statws RAG**

	Ar y ffordd o fod wedi ei gwblhau yn llawn
	Ychydig tu ôl o ran cynnydd, ond mae'r rhan fwyaf o'r tasgau yn cael eu cwblhau
	Tu ôl o ran cynnydd, gyda rhai tasgau wedi eu cwblhau
	Dim cynnydd



Rhif	Gweithred o 2020 yn dilyn ymweliadau arfarnu cyntaf i'r ysgolion unigol gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion	Cynnydd hyd yma yn erbyn camau gweithredu a nodwyd yr oedd angen eu gweithredu	Gwaith pellach i'w wneud
1	<p>I'r polisïau, y canllawiau, y dogfennau allweddol a'r templedi terfynol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu, mewn partneriaeth ag ysgolion, fel y gall ysgolion eu mabwysiadu'n ffurfiol yn hydref 2020.</p> <p>Bydd yr holl bolisïau a dogfennau ar gael ar adran GDPR Addysg Môn fel bod popeth o ran dogfennau diogelu data cyfredol ar gael i ysgolion mewn un lle.</p> <p>Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu dogfen '<i>Fframwaith Adolygu Polisi, Canllawiau a Dogfennau Diogelu Data Allweddol Ysgolion Ynys Môn</i>' sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws y gwahanol ddogfennau y mae angen i ysgolion eu mabwysiadu (hyd at fis Gorffennaf 2020).</p> <p><b>I'r ysgolion sicrhau bod y polisïau yma wedi eu mabwysiadu yn ffurfiol gan y corff llywodraethu ac eu bod yn gallu dangos eu cydymffurfiaeth efo'r polisïau.</b></p>	<p>Mae pob polisi sydd wedi ei gyflwyno wedi cael ei gymeradwyo yn ffurfiol gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu ac wedi ei rannu gyda'r ysgolion.</p> <p>Mae'r amserlen ar gyfer dosbarthu dogfennau i ysgolion wedi ei hadolygu.</p> <p>Mae'r polisïau a dogfennau sydd wedi eu rhannu ar gael ar dudalen diogleu data bwrpasol newydd ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu, ble mae holl bolisïau, canllawiau a dogfennau ar gael i ysgolion.</p>	<p>I rannu gweddill y polisïau gyda'r Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu ac yr ysgolion.</p> <p>I gyrff llywodraethu fabwysiadu'r polisïau yn ffurfiol.</p>
2	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ymgymryd â gwaith gydag ysgolion i gael <i>ROPA</i> (gan gynnwys mapiau llif data) a Rhestr Asedau Gwybodaeth ar waith.</p>	<p>Mae cyfarfodydd mapio wedi'u cynnal ac yn dal i gael eu cynnal, gydag ysgolion i fapio pa systemau, rhaglenni ac apiau y mae ysgolion yn eu defnyddio mewn perthynas â sicrhau bod cytundebau diogelu data</p>	<p>Cwblhau'r ymarfer mapio a chreu templed terfynol ar gyfer y <i>ROPA</i> a'r Rhestr Asedau Gwybodaeth y gellir ei rannu ag ysgolion.</p>

	<p>Cwblhau Rhestr Asedau Gwybodaeth gydag ysgol uwchradd, ac yna rhannu templed cynradd ac uwchradd gyda'r ysgolion fel y gallant ei addasu ar gyfer eu hysgol unigol.</p>	<p>priodol ar waith gyda phroseswyr data.</p> <p>Mae templed gwag a canllaw wedi eu datblygu ar gyfer y <i>ROPA</i> ac y Rhestr Asedau Gwybodaeth.</p>	<p>Trefnu cyfarfodydd unigol gydag ysgolion i ddiwygio'r templedi er mwyn creu <i>ROPA</i> a Rhestr Asedau Gwybodaeth unigryw ar gyfer eu hysgol.</p>
3	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio gydag ysgolion ar fabwysiadu polisïau a chreu prosesau ar gyfer ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gan wrthrych y data.</p> <p>Darparu hyfforddiant gyda staff perthnasol fel y gall ysgolion ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau diogelwch data.</p>	<p>Mae ysgolion wedi derbyn pecyn o ddogfennau, gan gynnwys polisi ar ymdrin â digwyddiadau diogelwch data ac ymdrin â cheisiadau gan wrthrych y data.</p> <p>Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi cysylltiedig i esbonio cynnwys y dogfennau. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd wedi bod yn cefnogi ysgolion i ymateb i geisiadau gan wrthrych y data drwy gefnogi gydag addasu (<i>redacting</i>) gwybodaeth.</p>	<p>Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn parhau i gynnig mwy o sesiynau hyfforddi i'r ysgolion.</p>
4	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gwblhau'r gwaith o greu Hysbysiadau Preifatrwydd a'u rhannu gyda'r ysgolion i'w haddasu a'u mabwysiadu.</p> <p>Hefyd, sicrhau bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.</p>	<p>Templedi Hysbysiad Preifatrwydd wedi eu rhannu gydag ysgolion.</p>	<p>Ysgolion i sicrhau eu bod wedi mabwysiadu fersiynau diweddaraf o'r Hysbysiadau Preifatrwydd.</p> <p>Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i ddiweddarau'r ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd ac eu rhannu efo'r ysgolion.</p>
5	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio gydag ysgolion i sicrhau bod cytundebau priodol ar waith</p>	<p>Mae darn o waith wedi dechrau ar edrych ar ba systemau, rhaglenni ac</p>	<p>Parhau i gyfarfod ag ysgolion unigol i gadarnhau proseswyr</p>

	<p>gyda phroseswyr data lefel uchel a hefyd gydag ysgolion unigol. I ddechrau'r gwaith hwn yn ystod tymor yr hydref.</p>	<p>apiau y mae ysgolion unigol yn eu defnyddio er mwyn deall pa broseswyr data y mae ysgolion yn gweithio gyda nhw, ac i gadarnhau a oes gan ysgolion gytundebau diogelu data priodol ar waith.</p>	<p>data a sicrhau bod cytundebau diogelu data priodol ar waith gyda'r holl broseswyr data.</p> <p>Cwblhau'r gwaith o fapio cytundebau diogelu data.</p> <p>Trefnu i gael cytundebau lle does dim rhai mewn bodolaeth yn barod.</p>
6	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gynnal darn o waith a sesiynau hyfforddi gydag ysgolion ynghylch rheoli risg a sut i gwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data.</p> <p>Adolygu a oes Asesiadau Effaith Diogelu Data wedi'u cynnal yn hanesyddol ar gyfer prosesu data a all fod yn risg uchel ac i weithio gydag ysgolion i greu unrhyw Asesiadau Effaith Diogelu Data sydd eu hangen. I ddechrau'r gwaith hwn yn ystod tymor yr hydref.</p>	<p>Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto ond mae wedi'i gynnwys yn y <i>Cynllun Diogelu Data Ysgolion</i> sydd wedi ei hadolygu.</p> <p>Mae Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) a matrices risg diogelu data wedi'u datblygu.</p>	<p>I ddarparu hyfforddiant ar asesiadau risg.</p> <p>I rannu'r Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data gydag ysgolion.</p> <p>Dechrau cwblhau DPIAau gydag ysgolion lle mae angen rhai.</p>
7	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion adolygu'r ffurflenni caniatâd presennol a gwneud mwy o waith gydag ysgolion ynghylch cydsyniad a chreu polisi tynnu lluniau at ddibenion cyhoeddusrwydd ysgolion.</p>	<p>Mae adolygiad o'r ffurflenni caniatâd ar y gweill.</p> <p>Mae polisi tynnu lluniau at ddibenion cyhoeddusrwydd ysgolion wedi'i ddatblygu.</p>	<p>Cwblhau'r adolygiad o'r ffurflenni caniatâd presennol a rhannu ffurflenni newydd gydag ysgolion.</p> <p>Rhannu'r polisi tynnu lluniau at ddibenion cyhoeddusrwydd ysgol gydag ysgolion i'w fabwysiadu.</p>

8	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion weithio gydag ysgolion i sicrhau bod ganddynt brosesau ynghylch pwy sydd â mynediad at wybodaeth bersonol benodol a bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel o fewn yr ysgolion.</p> <p>Hefyd, gweithio gyda rhai ysgolion o ran gwaredu hen ddogfennau sydd wedi mynd heibio eu cyfnod cadw.</p>	<p>Mae gwaith wedi ei ddechrau. Mae mynediad at wybodaeth wedi bod yn rhan o symud gweinyddion ysgol ymlaen i Hwb, ond mae angen cwblhau mwy o waith o amgylch hyn.</p> <p>Mae'r ddogfen <i>Cyfnodau Cadw Ysgolion</i> wedi'i rhannu ag ysgolion eto.</p> <p>Mae ysgolion wedi derbyn y '<i>Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgolion i Archifdy Ynys Môn</i>' i'w fabwysiadu. Mae hyn yn rhoi arweiniad ynghylch pryd i drosglwyddo dogfennau i Archifdy Ynys Môn.</p>	<p>Cwblhau gwaith ar fynediad at wybodaeth a chael gwared o hen ddogfennau.</p>
9	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ad-drefnu sesiynau hyfforddi diogelu data llywodraethwyr a chwblhau'r broses o greu <i>Canllaw Diogelu Data Cyrff Llywodraethu Ysgolion</i>.</p> <p>I gyrff llywodraethu sicrhau bod aelodau'n cwblhau'r hyfforddiant ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.</p>	<p>Mae <i>Canllaw Diogelu Data Cyrff Llywodraethu Ysgolion</i> wedi ei greu ac ei rannu, ac mae sesiynau hyfforddi wedi parhau i'w cynnal.</p>	<p>I ysgolion i barhau i annog llywodraethwyr ysgol i ymgymryd â hyfforddiant diogelu data.</p>
10	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ddiweddarau'r rhaglen hyfforddiant diogelu data cyffredinol ar gyfer staff a llywodraethwyr ysgolion.</p> <p>Hefyd, cynnwys hyfforddiant diogelu data mwy penodol ar gyfer staff perthnasol am y 12 mis nesaf e.e. darparu hyfforddiant penodol ar themâu</p>	<p>Mae sesiynau hyfforddiant wedi eu diweddarau ac wedi eu cynnal, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein.</p>	<p>Parhau i gynnal hyfforddiant mwy penodol ar gyfer staff perthnasol yn yr ysgol (e.e. hyfforddiant delio gyda geisiadau gan wrthrych y data ar gyfer staff gweinyddol) ac ail-ddechrau darparu hyfforddiant diogelu</p>

	<p>megis rheoli risg gwybodaeth, rheoli cofnodion a rheoli risg.</p> <p>Edrych ar ddarparu hyfforddiant drwy dechnoleg fel Microsoft Teams neu Zoom yn ogystal â sesiynau o fewn yr ysgolion.</p> <p>Sicrhau bod staff perthnasol yn cwblhau'r hyfforddiant fel eu bod yn deall eu cyfrifoldebau diogelu data.</p>	<p>Mae sesiynau wedi ei cynnal ar Zoom, Teams ac drwy'r Learning Pool.</p>	<p>data cyffredinol ar gyfer staff ysgol.</p> <p>Cefnogi ysgolion i annog % uwch o'u staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein.</p>
11	<p>I'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion baratoi adroddiad diogelu data blynyddol o hyn ymlaen.</p> <p>Mae angen i Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu gadarnhau beth fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ond mae hyn yn debygol o fod yn seiliedig ar nifer y digwyddiadau diogelwch data, nifer y ceisiadau gan wrthrych y data, nifer y cwynion am ddiogelu data, gwybodaeth am bolisiau, cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, manylion hyfforddiant ac argymhellion.</p> <p>Bydd hefyd yn seiliedig ar ddarnau o waith y bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn eu gwneud o ran monitro cydymffurfiaeth ysgolion â deddfwriaeth, a fydd yn dibynnu ar chwilio am dystiolaeth o gydymffurfiaeth gan yr ysgolion.</p>	<p>Adroddiad diogelu data blynyddol wedi ei chreu.</p> <p>Mae'r Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu wedi cadarnhau dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nifer y digwyddiadau diogelwch data wedi eu hadrodd</li> <li>• nifer y ceisiadau gan wrthrych y data</li> <li>• nifer y cwynion diogelu data</li> <li>• pa bolisiau sydd wedi eu diweddarau/rhannu</li> <li>• hyfforddiant sydd wedi ei gynnig yn ystod y flwyddyn h.y. i bwy a pha bryd</li> <li>• argymhellion (wedi eu seilio ar wersi a ddysgwyd) i'w hystyried ar gyfer cynllun datblygu blwyddyn nesaf</li> </ul>	<p>Bydd gofyn i ysgolion adrodd ar y nifer o ddigwyddiadau diogelwch data; ceisiadau gan wrthrych y data a chwynion diogelu data yn symud ymlaen.</p> <p>Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cynnal archwiliad diogelu data o bob ysgol ac bydd yn monitro cydymffurfiaeth cyffredinol diogelu data.</p>

### 2.2.1. Polisiâu, Arweiniad, Dogfennau a Thempledi a Rennir ag Ysgolion

Un o'r prif faterion a nodwyd ym mis Gorffennaf 2020 oedd nad oedd gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisiâu a dogfennau allweddol cyfredol gan na chrëwyd nifer o'r polisiâu a'r dogfennau hyn ar gyfer ysgolion cyn penodi'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Gan ei bod yn hanfodol bod polisiâu a dogfennau craidd yn cael eu mabwysiadu gan yr ysgolion, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi creu ac wedi rhannu'r polisiâu, canllawiau, dogfennau a thempledi canlynol gyda'r ysgolion i'w mabwysiadu a'u defnyddio:

<b>Polisi, Canllaw a Dogfennau Allweddol</b>	<b>Wedi ei rannu ag ysgolion gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion</b>
Dogfen Cyfnodau Cadw Ysgolion	Wedi ei rhannu eto ym mis <b>Gorffennaf 2020</b> a <b>Gorffennaf 2021</b> (rhannwyd ag ysgolion yn y man cyntaf yn 2018)
Polisi Diogelu Data Ysgolion (polisi statudol)	<b>Rhagfyr 2020</b>
<b>Pecyn Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion</li> <li>• Canllaw Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion</li> <li>• Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad Diogelwch Data Ysgolion</li> <li>• Log Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion</li> <li>• Adroddiad Digwyddiad Diogelwch Data i Gorff Llywodraethu Ysgol</li> </ul>	<b>Ionawr 2021</b>  Rhannwyd fersiwn 2 ym mis Hydref 2021 (wedi'i ddiweddarau ers symud o GDPR i UK GDPR gyda baner polisi a dogfen newydd)- ac eithrio'r Log Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion
<b>Pecyn Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion</li> <li>• Ffurflen Archwilio Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion</li> </ul>	<b>Ionawr 2021</b>  Rhannwyd Fersiwn 2 ym mis <b>Hydref 2021</b> (wedi'i ddiweddarau ers symud o GDPR i UK GDPR gyda baner polisi a dogfennau newydd)
<b>Hysbysiad Preifatrwydd (gofyn statudol):</b>	<b>Ionawr 2021</b>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion - Cynradd / Uwchradd</li> <li>• Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion - Gweithlu'r Ysgol</li> <li>• Hysbysiad Preifatrwydd Ysgolion - Fersiwn Plant a Phobl Ifanc</li> </ul>	<p>Rhannwyd Fersiwn 2 ym mis <b>Hydref 2021</b> (wedi'i ddiweddarau ers symud o GDPR i UK GDPR gyda baner polisi a dogfennau newydd)</p>
<p>Canllaw Diogelu Data Cyrff Llywodraethu Ysgolion</p>	<p><b>Ionawr 2021</b></p> <p>Rhannwyd Fersiwn 2 ym mis <b>Hydref 2021</b> (wedi'i ddiweddarau ers symud o GDPR i UK GDPR gyda baner polisi a dogfennau newydd)</p>
<p>Gweithdrefn ar gyfer Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau'r Heddlu yn y Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn)</p>	<p><b>Gorffennaf 2021</b></p> <p>Rhannwyd Fersiwn 2 ym mis <b>Hydref 2021</b> (wedi'i ddiweddarau gyda baner polisi a dogfennau newydd)</p>
<p><b>Pecyn Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion</li> <li>• Log Ceisiadau gan Wrthrych y Data Ysgolion</li> <li>• Ffurflen Gais gan Wrthrych y Data Ysgolion</li> <li>• Templed Llythyr Cydnabod Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion</li> <li>• Templed Llythyr Estyniad Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion</li> <li>• Templed Llythyr Ymateb i Gais gan Wrthrych y Data</li> <li>• Dogfen ICO Cod Ymarfer Gwrthrych y Data</li> </ul>	<p><b>Gorffennaf 2021</b></p> <p>Rhannwyd Fersiwn 2 ym mis <b>Hydref 2021</b> (wedi'i ddiweddarau gyda baner polisi a dogfennau newydd) – dim ond y Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion a'r Ffurflen Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion.</p>
<p><b>Polisi Prosesu Data Ysgolion</b></p>	<p><b>Hydref 2021</b></p>
<p><b>Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn</b></p>	<p><b>Hydref 2021</b></p>

Mae llawer o'r polisiau a'r dogfennau sydd wedi'u rhannu wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r newid yn y ddeddfwriaeth o GDPR i UK GDPR. Mae UK GDPR wedi'i fabwysiadu ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ac mae polisiau a dogfennau wedi'u diwygio i gynnwys cyfeiriad at UK GDPR.

Mae dogfennau hefyd wedi'u diweddarau i gynnwys y faner polisi a dogfennau newydd sy'n nodi '*Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion Môn*' yn hytrach na

'Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn' i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y ddau wasanaeth. Mae gwahaniaeth cliriach bellach rhwng ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu gan fod gan y ddau broses diogelu data ar wahân (h.y. mae'r Gwasanaeth Dysgu yn dod o dan y broses diogelu data corfforaethol lle mae gan yr ysgolion broses diogelu data annibynnol).

Mae'r holl bolisiau, canllawiau, dogfennau a thempledi ar gael i'w lawrlwytho o Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu, lle mae adran benodol ar gyfer materion diogelu data.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gyda Phenaethiaid a staff perthnasol o'r ysgolion ar sail dalgylch gydag ysgolion cynradd ac fel grŵp ysgol uwchradd ar gyfer yr ysgolion uwchradd. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi ar y cyd â rhannu'r polisiau a'r dogfennau fel bod gan ysgolion ddealltwriaeth o gynnwys y polisiau a'r dogfennau. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ysgolion allu monitro a gallu dangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth â'r polisiau gan fod ganddynt well dealltwriaeth o'r cynnwys. Bydd y trefniant hwn yn parhau ar gyfer rhannu unrhyw bolisiau a dogfennau newydd.

## 2.2.2. Hyfforddiant Diogelu Data

### 2.2.2.1. E-Ddysgu

Ym mis Mai 2018, cyflwynwyd modiwl e-ddysgu gorfodol i holl staff y Cyngor ddarparu lefel sylfaenol o wybodaeth am ofynion y GDPR. Roedd hyn yn cynnwys staff yr ysgolion.

Er bod rhai o staff yr ysgolion wedi cwblhau'r modiwl yn ôl yn 2018, nid oedd pob aelod o staff wedi ei gwblhau. Mae ysgolion bellach yn y broses o sicrhau bod eu holl staff wedi cwblhau'r modiwl hwn. Hyd at 31 Hydref 2021, roedd 66% o staff yr ysgolion wedi cwblhau'r modiwl, ac mae ysgolion yn parhau i sicrhau bod staff yn cwblhau'r modiwl hwn cyn gynted â phosibl (llawer ohonynt drwy eu diwrnodau hyfforddi HMS).

Yn yr un modd, hyd at 31 Hydref 2021, roedd 51% o staff yr ysgolion wedi cwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth seiber gorfodol ar-lein, ond mae ysgolion yn parhau i sicrhau bod staff wedi cwblhau'r modiwl hwn cyn gynted â phosibl.

### 2.2.2.2. Hyfforddiant Diogelu Data a roddir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Darparwyd yr hyfforddiant canlynol i ysgolion gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion rhwng Gorffennaf 2020 a Thachwedd 2021:

Pwnc	Categori Staff	Dyddiad Darparu
Mynd drwy prif egwyddorion diogelu data yn y sesiwn anwytho/ail-gyfarwyddo penaeithiaid	Penaethiaid	06.11.20



Hyfforddiant diogelu data i lywodraethwyr ysgol	Llywodraethwyr Ysgol	26.11.20
Sesiwn hyfforddiant/ymwybyddiaeth polisïau a dogfennau i ddalgylchoedd (polisïau Cam 1)	Penaethiaid	04.01.21 & 08.01.21
Hyfforddiant diogelu data i lywodraethwyr ysgol	Llywodraethwyr Ysgol	28.01.21
Sesiwn hyfforddiant/ymwybyddiaeth polisïau a dogfennau i ddalgylchoedd (polisïau Cam 2)	Penaethiaid	23.02.21 & 26.02.21
Mynd drwy prif egwyddorion diogelu data yn y sesiwn anwytho/ail-gyfarwyddo penaethiaid	Penaethiaid	09.11.21
Hyfforddiant diogelu data i lywodraethwyr ysgol	Llywodraethwyr Ysgol	25.11.21
Sesiwn hyfforddiant/ymwybyddiaeth polisïau a dogfennau i ddalgylchoedd (polisïau Cam 3)	Penaethiaid	26.11.21 & 29.11.21 (mwy o sesiynau i'w cynnal)
Hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu data cyffredinol drwy dalgylchoedd	Holl staff ysgolion	26.11.21 (mwy o sesiynau i'w cynnal)

Nid yw hyfforddiant diogelu data i staff eraill yr ysgolion oni bai am Benaethiaid wedi'i ddarparu yn ystod y cyfnod hwn oherwydd pandemig Covid 19, ond mae sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu wrth symud ymlaen.

Cynhelir sesiynau hyfforddi gyda'r Penaethiaid gyda phob polisi a phhecyn dogfennau diogelu data sy'n cael eu rhannu.

### 3. Cynllun Diogelu Data Ysgolion

#### 3.1. Cynllun Cefnogaeth i Ysgolion – Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data Ysgolion

Ym mis Medi 2020, datblygwyd 'Cynllun Cefnogaeth i Ysgolion - Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data Ysgolion 2020-2021' ac fe'i cyflwynwyd i ysgolion ym mis Tachwedd 2020.

Rhannwyd nifer o bolisïau gydag ysgolion i'w mabwysiadu a darparwyd sesiynau hyfforddi fel rhan o'r cynllun hwn.

Mae nifer o gamau wedi'u symud i gynllun 2021-2022 oherwydd blaenoriaethau eraill oherwydd y pandemig ac oherwydd absenoldeb salwch hirdymor y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

### 3.2. Cynllun Diogelu Data Ysgolion 2021-2022

Ym mis Medi 2021, cyflwynwyd *Cynllun Diogelu Data Ysgolion 2021-2022* i ysgolion. Datblygwyd hwn yn seiliedig ar y cynllun blaenorol ar gyfer blwyddyn ysgol 2020-2021.

Comisiynodd y Cyngor *Strategic Risk Practice Zurich Risk Engineering UK* i gynnal adolygiad ac i baratoi adroddiad arolygu ar lywodraethu data/gwybodaeth a lefel gweithredu GDPR ar draws ysgolion Ynys Môn yn 2019.

O ganlyniad i'r adroddiad hwn, crëwyd Cynllun Gweithredu rhwng Gwasanaeth Archwilio a Risg y Cyngor a'r Gwasanaeth Dysgu er mwyn ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad *Zurich*. Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori unrhyw gamau sydd heb eu cymryd o fewn y Cynllun Gweithredu.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys y darnau canlynol o waith a chamau gweithredu. Mae rhai ohonynt eisoes wedi dechrau:

#### 3.2.1. **Polisiau a Dogfennau Diogelu Data**

Mi fydd nifer o bolisiau a dogfennau yn cael eu darparu i ysgolion eu defnyddio a'u mabwysiadu. Mae nifer o'r rhain yn fersiynau wedi'u diweddarau ar ôl gweithredu UK GDPR a mabwysiadu'r faner polisi a dogfennau newydd. Gweler adran 2.2.1 am fanylion polisiau a dogfennau sydd eisoes wedi'u rhannu ag ysgolion.

Bydd y dogfennau a'r polisiau canlynol yn cael eu rhannu ag ysgolion o dan y cynllun:

- **Pecyn Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion:**
  - Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion
  - Templed Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion
  - Templed Cofrestr Risg
  - Matrics Risg
  
- **Pecyn System CCTV Ysgolion**
  - Polisi CCTV Ysgolion
  - Log Systemau CCTV
  
- **Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion**
- **Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion**
- **Polisi E-bost Staff Ysgolion**
- **Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion**
- **Pecyn Ffurflenni Caniatâd**
- **Polisi Tynnu Lluniau at Ddiben Cyhoeddusrwydd Ysgolion**

#### 3.2.2. **Datblygu Proses Derbyn Polisiau**

Mae gwaith wedi dechrau ar geisio datblygu proses i ysgolion ei defnyddio i gadw cofnod o bolisiau y mae staff ysgolion wedi'u darllen a'u derbyn, yn debyg i'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio (system 4policy). Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i gadw cofnodion fel tystiolaeth bod staff wedi darllen a derbyn polisiau diogelu data allweddol.

### **3.2.3. Defnyddio'r Teclyn Adolygiad Rheolaeth Ysgolion (ARhY) fel Teclyn Monitro**

Mae ysgolion unigol wedi bod yn ateb y cwestiynau sy'n ymwneud â diogelu data ar y System Adolygiad Rheolaeth Ysgolion er mwyn sefydlu gwaelodlin o ran lle maent yn ystyried eu hunain yn erbyn y gwahanol elfennau o gydymffurfiaeth diogelu data.

Wrth i ysgolion symud ymlaen drwy'r *Cynllun Gweithredu Diogelu Data Ysgolion*, byddant yn gallu diwygio eu sgoriau i symud tuag at y statws 'rhagorol'.

Cynhaliwyd sesiynau gydag ysgolion sydd angen cymorth i gwblhau'r cwestiynau diogelu data.

Mae pob polisi diogelu data sy'n cael ei rannu ac y mae angen i gorff llywodraethu'r ysgolion ei fabwysiadu'n ffurfiol yn cael ei ychwanegu at yr ARhY. Bydd angen i bob ysgol gadarnhau ar y system pan fydd pob polisi unigol wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn defnyddio'r ARhY i fesur ac adolygu cynnydd mewn perthynas â mabwysiadu polisiau a chydymffurfio â diogelu data cyffredinol.

### **3.2.4. Mapio Proseswyr Data**

Mae darn o waith wedi dechrau yn mapio proseswyr data a sicrhau bod gan ysgolion gytundebau diogelu data priodol gyda'u holl broseswyr data.

Mae hyn yn cynnwys ysgolion unigol yn cadarnhau pa systemau, rhaglenni ac apiau y maent yn eu defnyddio ac yn gwirio bod ganddynt Gytundebau Prosesu Data neu gytundebau diogelu data priodol eraill ar waith gyda darparwyr (proseswyr data).

### **3.2.5. Mapio'r Llif Data rhwng yr Ysgolion a'r Cyngor**

Mae darn o waith wedi dechrau yn mapio'r llif data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor i nodi lle mae angen cytundeb. Bydd hyn yn gwahaniaethu rhwng y berthynas rhwng yr ysgolion, y Cyngor a'r darparwyr yn glir.

### **3.2.6. Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Ysgolion**

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y Cyngor a'r ysgolion ar gyfer rôl y Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi'i ddatblygu. Mae hwn wedi'i rannu ag ysgolion i wneud sylwadau arno ac mae fersiwn derfynol wedi'i rhannu ym mis Tachwedd 2021 i ysgolion ei llofnodi.

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ei gwneud yn glir beth yw rôl y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a pha gymorth a ddarperir i ysgolion o dan y cytundeb.

Mae diogelu data hefyd bellach wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu.

### **3.2.7. Diweddariad a Newyddlen Diogelu Data Ysgolion Tymhorol**

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys diweddariadau diogelu data tymhorol a gyflwynir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i'r Fforymau Cynradd ac Uwchradd i drafod materion diogelu data a chynnydd yn erbyn y *Cynllun Diogelu Data Ysgolion*.

Mae hyn hefyd yn cynnwys rhannu newyddlen. Mae'r newyddlen gyntaf wedi'i rhannu ag ysgolion ym mis Tachwedd 2021.

Mae adran diogelu data ysgolion hefyd yn y bwletin llywodraethwyr ysgol.

Gwahoddir y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rheolaidd hefyd i fynychu cyfarfodydd Fforymau Strategol Ysgolion Cynradd ac Uwchradd i drafod materion diogelu data sy'n peri pryder.

### **3.2.8. Cymorth Allanol i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion**

Darperir cymorth allanol gan Gwmni Celyn mewn perthynas â rhai o'r camau gweithredu a'r darnau o waith o fewn y cynllun hwn.

Hyd yma, mae Cwmni Celyn wedi bod yn darparu cymorth gyda mapio proseswyr data a mapio'r llif data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor.

Bydd cymorth hefyd yn cael ei ddarparu gyda chreu templed Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (*ROPA*) ar gyfer ysgolion.

## **4. Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd**

Darganfuwyd ar 23 Mehefin 2021 digwyddiad seiber posibl wedi digwydd a effeithiodd bob un o'r pum ysgol uwchradd ym Môn - Ysgol Syr Thomas Jones; Ysgol Uwchradd Bodedern; Ysgol Gyfun Llangefni; Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi.

Nid oedd yn hysbys ar y pryd a allai data personol a gedwir ar systemau'r ysgolion fod wedi'i beryglu yn ystod y digwyddiad. Codwyd y larwm ar ôl darganfod traffig amheus ar weinyddion e-bost ysgolion uwchradd.

Roedd systemau technoleg gwybodaeth - gan gynnwys cyfrifon e-bost - wedi cael eu hanalluogi dros dro i gyfyngu'r digwyddiad ar y pryd. Roedd tarfu ar yr ysgolion tra bod y digwyddiad yn cael ei gyfyngu.

Daeth y Cyngor â tîm o ymgynghorwyr seiber-dechnoleg arbenigol i mewn ar unwaith i ymchwilio i'r digwyddiad. Roedd y Ganolfan Seiber-ddiogelwch

Genedlaethol (NCSC) hefyd yn rhoi cymorth i ddatrys materion. Ni chanfu dadansoddiad ffrensig o'r digwyddiad seiber unrhyw dystiolaeth bod systemau TGCh wedi'u hymdreiddio neu eu peryglu.

Adroddwyd am y digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac mae ymchwiliad wedi dechrau.

Ysgogodd y digwyddiad y Cyngor i gyflwyno gwaith wedi'i gynllunio, fel rhan o raglen Hwb Llywodraeth Cymru, i uwchraddio systemau technoleg gwybodaeth yr ysgolion uwchradd, arbennig a chynradd, ymlaen. Dechreuodd y gwaith o uwchraddio'r systemau a'r seilwaith TGCh dros wyliau'r haf.

Mae systemau data yr oedd yr ysgolion yn eu defnyddio wedi'u trosglwyddo i wasanaethau cwmwl Hwb. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r trosglwyddiadau.

Bydd bod ar Hwb yn helpu i wneud y systemau yn yr ysgolion mor gadarn â phosibl ac yn lleihau'r risg o unrhyw ymosodiad neu ddigwyddiadau posibl yn y dyfodol.

Mae ymosodiadau seiber ar gynnydd ac maent yn dal i fod yn fygythiad gwirioneddol i ysgolion, ond mae'r gwaith o uwchraddio'r systemau a'r seilwaith yn rhoi ysgolion mewn sefyllfa fwy diogel.

Mae'r Cynllun Diogelu Data Ysgolion wedi cael ei hadolygu yng ngŵydd y digwyddiad, gan ei fod wedi cael effaith ar yr amserlen arfaethedig.

## 5. Datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – Tachwedd 2021

Ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, oherwydd pandemig Covid 19, nid yw ysgolion wedi bod mewn sefyllfa i allu datblygu'r rhaglen diogelu data cyn gynted ag y buasant yn arferol yn gallu ei wneud. Nodwyd llawer o flaenoriaethau a chamau gweithredu yn yr adroddiad diwethaf, ond mae wedi bod yn anodd i'r ysgolion allu rhoi lefel fawr o flaenoriaeth i'r gwaith hwn oherwydd ymdrin â'r pandemig. Hefyd, oherwydd cyfnod o absenoldeb tymor hir i mi fel y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, mae rhai agweddau ar y cynllun wedi'u symud ymlaen. Mae cymorth allanol yn cael ei ddarparu gan Cwmni Celyn mewn perthynas â rhai o'r gweithredoedd a darnau gwaith o fewn y cynllun yma.

Mae targedau wedi'u hadolygu sawl gwaith, ond er gwaethaf y pandemig a salwch hirdymor fy hun, gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran mabwysiadu polisiau diogelu data allweddol. Gwnaed gwaith sylweddol hefyd i uwchraddio systemau a seilwaith TGCh yr ysgolion drwy drosglwyddo i wasanaethau cwmwl Hwb.

Mae'r **arferion** rheoli gwybodaeth o ddydd i ddydd yn yr ysgolion yn dal yn dderbyniol a bu camau cadarnhaol. Mae pob ysgol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac maent yn talu eu ffi diogelu data blynyddol. Mae pob ysgol hefyd wedi mabwysiadu'r Polisi Diogelu Data Ysgolion statudol. Mae pob

ysgol wedi cofrestru ar gyfer Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ers mis Gorffennaf 2020. Mae cynnydd hefyd yn nifer y cysylltiadau yr wyf fi fel y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn eu derbyn gan ysgolion yn gofyn am gyngor ac arweiniad.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith o hyd i sicrhau bod yr holl bolisiau a dogfennau diogelu data allweddol wedi'u mabwysiadu a bod ysgolion yn monitro ac yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r polisiau hyn (mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol i sicrhau bod pob polisi perthnasol yn cael eu mabwysiadu, gan gynnwys polisiau statudol e.e. Polisi Diogelu Data). Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sicrhau bod gan bob ysgol brosesau cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gwrthrych y data.

Mae angen gwneud gwaith o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod cytundebau priodol ar waith gyda phroseswyr data. Mae mwy i'w wneud o hyd o ran nodi a darparu hyfforddiant penodol i staff ysgolion, gan gynnwys y corff llywodraethu, i sicrhau bod pawb o fewn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.

Mae'n hanfodol bod yr ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel y rheolwyr data a'r disgwyliaid cyfreithiol sy'n deillio o hynny. Credaf fod ysgolion bellach yn deall eu rhwymedigaethau diogelu data yn well a phwysigrwydd diogelu data ac yn awr yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Asesiad Sicrwydd Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Tachwedd 2021)	Sicrwydd Rhesymol
Mae'r broses o ddechrau cael polisiau, prosesau ac arferion ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi dechrau yn yr ysgolion, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd i gael pob ysgol ar yr un lefel a sicrhau bod gan ysgolion y gofynion sylfaenol ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.	

## 6. Casgliadau a Chamau Nesaf

- Oherwydd y pandemig Covid 19, nid yw ysgolion wedi bod mewn sefyllfa i allu datblygu'r rhaglen diogelu data cyn gynted ag buasant yn arferol yn gallu ei wneud. Nodwyd llawer o flaenoriaethau a chamau gweithredu yn yr adroddiad diwethaf, ond mae wedi bod yn anodd i'r ysgolion rhoi lefel fawr o flaenoriaeth i'r gwaith hwn oherwydd ymdrin â'r pandemig.
- Bydd amserlen y cynllun yn cael ei hadolygu, gan gymryd i ystyried barn Penaethiaid.
- Gwnaed cynnydd o ran mabwysiadu polisiau diogelu data allweddol a gwella systemau a seilwaith TGCh yr ysgolion drwy drosglwyddo i wasanaethau cwmwl Hwb.
- Mae'r **arferion** rheoli gwybodaeth o ddydd-i-ddydd yn yr ysgolion yn dal i fod yn dderbyniol h.y. talu ffi gofrestru'r ICO.

- Mae angen gwneud rhagor o waith o hyd i sicrhau bod yr holl bolisiau a dogfennau diogelu data allweddol wedi'u mabwysiadu a bod ysgolion yn monitro ac yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r polisiau hyn.
- Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sicrhau bod gan bob ysgol brosesau cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau diogelwch data a cheisiadau gan wrthrych y data.
- Mae angen gwneud gwaith o hyd i sicrhau bod risgiau diogelu data yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod Aseidiadau Effaith Diogelu Data yn cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau prosesu risg uchel.
- Mae angen cwblhau gwaith i sicrhau bod cytundebau diogelu data priodol ar waith gyda phroseswyr data.
- Mae mwy i'w wneud o hyd o ran nodi a darparu hyfforddiant penodol i staff ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethu, i sicrhau bod pawb o fewn strwythur yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion *ROPA* (gan gynnwys mapiau llif data) a Rhestr Asedau Gwybodaeth ar waith sy'n cael ei cadw yn gyfredol.
- Mae angen sicrhau bod gan bob ysgol Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol a'u bod yn cael eu rhannu a'u bod ar gael i unigolion a bod ffurflenni casglu data a ffurflenni caniatâd yn cynnwys crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd.
- Mae angen cwblhau'r gwaith o ddefnyddio caniatâd gan gynnwys adolygu'r ffurflenni cyfredol.
- Mae angen cwblhau gwaith o amgylch mynediad at wybodaeth a chael gwared ar hen ddogfennau mewn ysgolion.
- Mae angen i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gynnal ymweliad archwilio â phob ysgol i fonitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau diogelu data.

**Mae'r broses o ddechrau cael polisiau, prosesau ac arferion ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi dechrau yn yr ysgolion, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd i gael pob ysgol ar yr un lefel a sicrhau bod gan ysgolion yr holl ofynion sylfaenol ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.**

This page is intentionally left blank



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	09 Rhagfyr 2021
<b>Pwnc:</b>	Strategaeth atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb goruchwylio dros drefniadau'r Cyngor ar gyfer atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll a llygredd.	

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd y bydd Archwilio Mewnol yn ei gynnal yn ystod 2021-24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn nodi strategaeth yr Archwiliad Mewnol ar gyfer gwrthsefyll twyll, llwgrwobrwyo a llygredd ar gyfer 2021-24.



# STRATEGAETH ATAL TWYLL, LLWGRWOBRYO A LLYGREDD 2021-24

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Rhagfyr 2021

Pennaeth Archwilio a Risg

[MarionPryor@YnysMon.gov.uk](mailto:MarionPryor@YnysMon.gov.uk)



# CYNNWYS

RHAGARWEINIAD	3
BETH YW TWYLL?	4
PAM FOD ATAL TWYLL YN BWYSIG?	5
TREFNIADAU AC ADNODDAU ATAL TWYLL	6
Trefniadau'r DU ar gyfer atal twyll	6
Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll	6
Trefniadau Rhanbarthol	6
Trefniadau yn y Cyngor	7
RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N ESBLYGU AC AMCANION GWEITHREDOL	8
Twyll yn ymwneud â Thai	8
Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor	9
Consesiwn Parcio i'r Anabl	9
Twyll yn ymwneud â Grantiau	9
Caffael	10
Prynu i dalu	11
AMCANION STRATEGOL	12
Llywodraethu	12
Cydnabod	13
Atal	14
Canlyn	15
Amddiffyn ei hun a'i breswylwyr	16
Casgliad	17
ATODIAD 1 - DOGFENNAU A ADOLYGWYD	18

## RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgareddau y bydd Archwilio Mewnol yn eu cyflawni yn ystod 2021-24 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2018 (PSIAS), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd o dwyll a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).

Hefyd, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheoli cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.

Mae lleihau twyll ac anghysonderau yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau, y bwriadwyd iddynt ddarparu gwasanaethau hanfodol i breswylwyr a busnesau Ynys Môn, yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw. Mae twyll yn erbyn y Cyngor gyfystyr â dwyn arian trethdalwyr, gall niweidio enw da'r Cyngor, arwain at ddiffyg hyder ymysg y cyhoedd neu randdeiliaid, a chael effaith niweidiol ar forâl staff. Trwy fesurau atal twyll effeithiol, gall y Cyngor leihau'r risg o gamgymeriadau, colledion a thwyll.


Mae twyllwyr yn adolygu ac yn mireinio eu technegau yn gyson ac mae angen i awdurdodau lleol wneud hynny hefyd. Mae angen clir am safiad cadarn wedi'i gefnogi gan aelodau etholedig, prif weithredwyr â'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag ymgeisiau twyll a llygredd traws ffiniol a chyfundrefnol, yn ogystal â mynd i'r afael â risgiau newydd megis twyll ym maes gofal cymdeithasol a materion seibr.

Pwrpas y strategaeth hon yw sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud popeth yn ei allu i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn a lleihau'r risg o dwyll a llygredd.

## BETH YW TWYLL?

Yn nodweddiadol, mae'r term 'twyll' yn disgrifio gweithgareddau megis lladrata, llygredd, gwyngalchu arian, cynllwyn, llwgrwobrwyo ac ecstorsiwn. Cyn ei ddeddfu o fewn y gyfraith, derbyniwyd yn gyffredinol bod twyll yn gysyniad cyfreithiol eang a oedd yn cyfeirio'n gyffredinol at weithred ryngwladol a oedd yn cael ei chyflawni i sicrhau mantais annheg neu anghyfreithlon ac roedd yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth droseddol amrywiol arall megis Deddf Lladrata 1968.

Fodd bynnag, ers hynny, yn y DU, mae twyll wedi dod yn drosedd ynddo'i hun. Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:



Mae Canolfan Atal Twyll CIPFA yn argymhell y diffiniad a ganlyn:

**Mae twyll yn drosedd caffaelgar sy'n golygu dwyn (lladrata) trwy ryw fath o ddichell neu gamliwio**

## PAM FOD ATAL TWYLL YN BWYSIG?

Mae Twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau ac nid oes unrhyw arwydd ei fod yn arafu. Gall effeithio ar enw da ac arallgyfeirio cyllid oddi wrth wasanaethau cyhoeddus holl bwysig, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd sefydliadol. Hefyd, mae twyll, gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth, yn ogystal â llwgrwobrwyo a llygredd, wedi tyfu'n aruthrol i fod yn aflwydd rhyngwladol sy'n herio llywodraethau cenedlaethol a diwydiannau preifat fel ei gilydd.

Mae CIPFA, yn ei adroddiad tracio twyll a llygredd diweddaraf, sef *y National Fraud and Corruption Tracker* (2020), yn cydnabod bod pob punt a gollir oherwydd twyll yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen. Mae'n dyfynnu'r Dangosydd Twyll Blynyddol (*Annual Fraud Indicator*) 2017, sydd yn darparu'r set ddiwethaf o amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y llywodraeth, ac mae'n datgan bod cost twyll i'r sector cyhoeddus yn £40.3bn y flwyddyn, gyda £7.3bn o'r cyfanswm hwn yn cael ei golli o fewn llywodraeth leol.

Mae llawer mwy i weithgareddau atal twyll llwyddiannus nag arbed arian yn unig. Gall y gweithgareddau anghyfreithlon hyn danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd - a'r drwydded gymdeithasol sy'n hanfodol i sefydliadau weithredu'n effeithiol. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau effeithiol i atal twyll byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Yng Nghymru, roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (2019)<sup>1</sup> yn tynnu sylw at y ffaith y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn colli hyd at £1 biliwn y flwyddyn o ganlyniad i dwyll. Mewn cyfnod o gynni, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll. Mae CIPFA yn dadlau

**“mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol”.**

<sup>1</sup> 'Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru - Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus', Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mehefin 2019

# TREFNIADAU AC ADNODDAU ATAL TWYLL

## Trefniadau'r DU ar gyfer atal twyll

Mae nifer o gyrff yn cefnogi ac yn gyrru arferion atal twyll da ar draws y DU, gan gynnwys Canolfan Atal Twyll CIPFA, y Rhwydwaith Genedlaethol Atal Twyll (NAFN)<sup>2</sup> ac yn fwyaf nodedig, y Fenter Twyll Cenedlaethol (MTC).

Sefydlwyd rhaglen atal twyll y llywodraeth, sy'n cael ei rhedeg gan Swyddfa'r Cabinet, yn 1996 i warchod arian cyhoeddus a chosbi twyllwyr. Mae'n adrodd bod y rhaglen wedi canfod neu atal dros £2bn ers ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl. Mae'n adnabod ymgeisiau i dwyllo'r llywodraeth a honnir bod y rhaglen wedi cynorthwyo cyrff cyhoeddus i atal bron i £850m o daliadau pensiwn rhag cael eu gwneud mewn camgymeriad, £370m o dwyll budd-daliadau tai a dros £300m o dwyll treth gyngor, ac mae wedi arwain at ddileu 183,000 o drwyddedau parcio i'r anabl a oedd yn annilys.

## Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll

Canfu adolygiad diweddar o drefniadau atal twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol bod yr adnoddau a neilltuir i weithgareddau atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, mae trefniadau atal twyll yn amrywio'n fawr o gyngor i gyngor ac nid oes unrhyw dîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau atal twyll mewn llywodraeth leol, nac unrhyw strategaeth neu fframwaith polisi cyffredinol.

## Trefniadau Rhanbarthol

Nid oes grŵp neu rwydwaith proffesiynol cyffredinol sydd yn hyrwyddo atal twyll mewn llywodraeth leol yng Nghymru'n benodol, ac i lenwi'r bwlch hwn yng Ngogledd Cymru ffurfiwyd is-grŵp o'r Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru i rannu a gyrru arfer dda mewn perthynas ag atal twyll. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd wedi cyfarfod deirgwaith ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i feincnodi arfer da mewn perthynas â'r 15 argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020<sup>3</sup>.

<sup>2</sup> Mae NAFN yn sefydliad sector cyhoeddus sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Fetropolitanaid Tameside. Caiff unrhyw sefydliad sydd â chyfrifoldeb am reoli arian a/neu asedau cyhoeddus fod yn aelod. Ar hyn o bryd, mae bron i 90% o awdurdodau lleol yn aelodau.

<sup>3</sup> 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru' - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2020

## Trefniadau yn y Cyngor

Ar ôl trosglwyddo ymchwilwyr twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014, nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, adnodd atal twyll pwrpasol ar draws y cyngor mwyach, ac yn lle hynny dynodwyd y rôl atal twyll yn y Cyngor i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Mae'r Côt CIPFA yn cadarnhau y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll.

Rydym wedi penodi Uwch Archwilydd yn ddiweddar sydd yn Dechnegydd Atal Twyll Trwyddedig cymwys. Byddwn yn defnyddio eu sgiliau i yrru gweithgarwch atal twyll yn y Cyngor.



## RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY’N ESBLYGU AC AMCANION GWEITHREDOL

Roedd nifer yr achosion honedig o dwyll a glywyd yn Llysoedd y DU wedi dyblu bron yn 2021, gyda 151 o achosion o gymharu â 71 yn yr un cyfnod yn 2020, ac roedd gostyngiad yng nghyfanswm gwerth yr arian a gollwyd oherwydd twyll i ychydig o dan £140 miliwn yn 2021, o gymharu ag ychydig o dan £460 miliwn yn yr un cyfnod yn 2020.

Targedwyd y cyhoedd gan droseddwr proffesiynol yng nghanol yr aflonyddwch a achoswyd gan COVID-19, a chollwyd £37m, ac roedd hyn yn gynydd ar y swm o £20.5m ar gyfer yr un cyfnod yn 2020.

### Twyll yn ymwneud â Thai

Y maes twyll sy’n tyfu fwyaf yn y DU yw tenantiaethau tai, ac amcangyfrifir y collwyd £60.1m yn 2019-20, o gymharu â £47.7m yn 2018-19. Mae twyll tenantiaeth yn cynnwys is-osod yn anghyfreithlon, olyniaeth ar gam, dweud celwydd am gytundebau tenantiaeth neu geisiadau tai a methu â datgelu newid mewn amgylchiadau, ac mae’r gost i’r trethdalwr yn filoedd o bunnoedd y flwyddyn.

Gan fod galw enfawr yn barod am dai cymdeithasol, ni ddylid gadael eiddo yn wag am fod y tenant wedi symud i fyw â phartner, neu’n byw yn rhywle arall, neu’n gwneud arian yn anghyfreithlon trwy is-osod eu tŷ cyngor. Mae twyll tenantiaeth yn atal pobl ar restr aros y Cyngor rhag cael tŷ digonol.

Er bod y Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi asesu nad oes llawer o dwyll tenantiaeth ar Ynys Môn yn gyffredinol, byddwn yn gweithio gyda’r Fenter Twyll Cenedlaethol i nodi:

- ble y mae’n ymddangos bod unigolyn yn byw mewn dau gyfeiriad gwahanol gan awgrymu achosion posib o is-osod neu denantiaethau deuol
- achosion lle mae tenant tŷ wedi marw, ond efallai nad yw’r Cyngor wedi cael ei hysbysu felly nid yw’r tenant wedi cael ei dynnu oddi ar y denantiaeth
- ble y mae’n ymddangos bod unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros gan ddefnyddio cyfeiriad gwahanol i’r un ar y system rhenti tai, gan awgrymu o bosib nad yw newidiadau mewn amgylchiadau wedi cael eu datgelu neu fod gwybodaeth ffug wedi cael ei rhoi.

## Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor

Gostyngiad person sengl y dreth gyngor yw'r ail faes twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac mae'n gyfrifol am bron i ddwy ran o dair (65%) o'r achosion o dwyll a nodwyd, ac amcangyfrifir ei fod werth £35.9m yn 2019-20 (£29.0m yn 2018-19).

Mae'r Cyngor yn defnyddio cwmni allanol i adolygu a dilysu ei hawliadau Gostyngiad Person Sengl yn rheolaidd er mwyn nodi hawliadau lle mae risg o dwyll a chamgymeriadau. Roedd yr ymarfer diwethaf ym mis Awst 2021 wedi sgrinio 11,200 o gyfrifon, targedu 2,245 o gyfrifon a nodi 484 o gamgymeriadau, ac roedd y gyfradd camgymeriadau yn 4.3%. Amcangyfrifir bod yr adolygiad hwn wedi cynhyrchu £152,090 o refeniw.

## Consesiwn Parcio i'r Anabl

Mae consesiwn parcio i'r anabl (Cynllun Bathodyn Glas) yn cyfrif am 17% o'r holl achosion o dwyll sector cyhoeddus yn y DU. Byddwn yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Cenedlaethol i nodi achosion lle mae unigolyn sydd â bathodyn glas wedi marw ond efallai nad yw'r Cyngor wedi cael ei hysbysu. Yn yr achosion hyn, rydym wedi bod yn gweithio â Chyswllt Môn i ganslo'r drwydded a diweddarau'r system i sicrhau nad yw'r bathodyn yn cael ei adnewyddu.

Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn cymryd camau ychwanegol i atal camddefnydd twyllodrus, megis cymryd camau i adennill y drwydded, cyfeirio'r wybodaeth at swyddogion parcio er mwyn gwirio nad yw trwyddedau'n cael eu defnyddio i osgoi ffioedd parcio, ac mae rhai awdurdodau'n defnyddio gwybodaeth i adennill cyfarpar gwasanaethau cymdeithasol a fenthycwyd i'r ymadawedig.

**Byddwn yn gweithio gyda Chyswllt Môn i gryfhau ein gweithgareddau atal twyll yn y maes hwn.**

## Twyll yn ymwneud â Grantiau

Roedd effaith twyll yn ymwneud â grantiau (cyn talu grantiau Covid-19), yn cynrychioli 0.3% o'r holl achosion o dwyll a nodwyd yn y sector cyhoeddus yn y DU a 15% o gyfanswm y gwerth (£36.6m).

Yn sgil y pandemig COVID-19, rhoddwyd pecynnau ysgogi helaeth ar waith yn gyflym gan y llywodraeth i gynorthwyo unigolion a busnesau yn ystod y cyfnod hwn. Dangosodd profiad blaenorol o ddigwyddiadau naturiol a thrychinebau byd-eang y byddai troseddwy'r yn cymryd

mantais o'r fath sefyllfaoedd ac y gallai peth o'r cymorth fynd i'r llyfdd anghywir. Roedd grwpiau trosedd cyfundrefnol yn cyflawni twyll yn ymwneud â grantiau busnes ar lefel genedlaethol; ac roedd dynwarediad corfforaethol, hawliadau bachu cyfle a chofrestriadau ffug ar gyfer eiddo gwag yn gyffredin.

Felly, roedd y risg o daliadau afreolaidd yn uchel yn ystod yr argyfwng. Yn aml gall fod yn anodd sefydlu mesurau rheoli cadarn oherwydd cyflymder y gwaith. Fodd bynnag, cyflwynodd y Tîm Grantiau fesurau rheoli 'ffrithiant isel' ymlaen llaw (sef mesurau rheoli sylfaenol nad oeddent yn llesteirio nac yn arfarnu'r broses), ac fe wnaethom atgyfnerthu hynny trwy ddsbarthu gwybodaeth gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) a rhoi aelod o'r Tîm Archwilio Mewnol i gynorthwyo i gynnal gwiriadau cyn talu grantiau.

**Byddwn hefyd yn cynnal gweithgaredd sicrwydd cadarn ar ôl y digwyddiad. Byddwn yn gweithio â'r Fenter Twyll Cenedlaethol i adnabod y rhai hynny sy'n hawlio grantiau lluosog, y rhai hynny sy'n derbyn, trwy dwyll, Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach oddi mewn a rhwng awdurdodau, a'r rhai hynny sy'n hawlio arian o'r Gronfa Grantiau Busnesau Bach a Grantiau Busnesau Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden, sydd yn annibynnol ar ei gilydd, oddi mewn a rhwng awdurdodau.**

## **Caffael**

Caffael oedd un o'r meysydd oedd â'r risg canfyddedig uchaf o dwyll yn 2019-20, a dyna oedd y sefyllfa am ddwy flynedd yn olynol. Yn llysoedd y DU, roedd cynnydd o 400% yn nifer yr achosion o dwyll caffael (o dri achos yn 2020 i 15 yn 2021) ac roedd cynnydd mewn gwerth o £2.6m yn 2020 i £9.5m yn 2021.

Felly mae angen mesurau rheoli llym a chymorth yn y maes hwn. Mae 'Twyll trwy gamddefnyddio grym' yn un o'r tair ffordd o gyflawni twyll yn ôl Deddf Twyll 2006. Mae hyn yn berthnasol i swyddogion sydd yn awdurdodi, rheoli a monitro contractau gyda'r sector preifat. Mae'r Cyngor yn derbyn bod angen cryfhau'r maes hwn, ac nad oes gennym system neu ddull cyson ar hyn o bryd.

**Felly, ar hyd o bryd rydym yn cynnal adolygiad o ba mor agored yw'r Cyngor i dwyll caffael a byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn gynnar yn 2022.**

## Prynu i dalu

Dim ond y chweched math mwyaf cyffredinol o sgamiau 'Trosglwyddo Taliadau Awdurdodedig' oedd sgamiau anfoneb a gorchmynion yn 2020. Fodd bynnag, roeddent yn gyfrifol am 17% o'r holl golledion, ac roedd y cyfanswm yn £81.9m. Roedd y mwyafrif o golledion yn ôl gwerth, tua £52.5m, o gyfrifon busnes neu gyfrifon nad oeddent yn rhai personol, ac roedd y taliad twyllodrus cyfartalog yn £18,871<sup>4</sup>.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Credydwy'r i nodi ac atal camgymeriadau a thwyll, gan gynnwys trwy ddefnyddio dadansoddeg data.

---

<sup>4</sup> Ffynhonnell - *Fraud - The Facts 2021*, UK Finance

## AMCANION STRATEGOL

Wrth ysgrifennu ein Hadroddiad Blynyddol, fe wnaethom ystyried Côt Ymarfer CIPFA ar reoli'r risg o dwyll a llygredd (*Managing the Risk of Fraud and Corruption*) (2014)<sup>5</sup> (Côt CIPFA), sydd yn nodi'r arfer orau ar gyfer gwaith atal twyll mewn llywodraeth leol, yn seiliedig ar bum egwyddor. Fodd bynnag, mae *'Fighting Fraud and Corruption Locally Strategy for the 2020s'*<sup>6</sup> (FFCL) yn gyhoeddiad mwy diweddar sydd hefyd yn cael ei gymeradwyo gan CIPFA, a dyma'r strategaeth atal twyll a llygredd gyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr, ac mae'n darparu glasbrint ar gyfer ymateb yn fwy cadarn i dwyll a llygredd yn erbyn awdurdodau lleol. Yn absenoldeb strategaeth benodol ar gyfer Cymru, rydym wedi ei defnyddio fel sylfaen i'n ffocws strategol.

Yn yr un modd â Chôt CIPFA, mae'r strategaeth FFCL yn canolbwyntio ar bum piler o weithgaredd, neu amcanion strategol, ac yn ein cynorthwyo i nodi ym mhle mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion atal twyll. Y pileri yw:

### Llywodraethu

<p>Sylfaen y Strategaeth yw bod <i>'y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'</i> yn cefnogi'r gweithgarwch trwy sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith a chefnogaeth gan y pwyllgor gwaith i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r Cyngor.</p> <p>Mae trechu twyll yn fusnes i bawb, ac mae angen trefniadau mewnol cadarn ar y Cyngor, sydd yn cael eu cyfathrebu ledled y Cyngor i ddangos y diwylliant a'r ymrwymiad i atal twyll.</p>	<p><b>LLYWODRAETHU</b></p> <p>Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth gan y pwyllgor gwaith i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwybrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r Cyngor</p>
<p><b>Amcanion:</b></p> <p>Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn o weithdrefnau a pholisïau, sydd yn cyfuno i weithredu fel arf i atal gweithgarwch twyllodrus ac yn darparu'r modd ar gyfer rhoi gwybod am dwyll neu llygredd a'u hatal. Yn ogystal, bydd cael fframwaith atal twyll corfforaethol, sy'n darparu ystod gyflawn o rannau lefel uchel, yn cyfrannu at sicrhau bod gan y Cyngor strategaeth atal twyll effeithiol. Felly, byddwn yn rhoi rhaglen gynhwysfawr ar waith i ddiweddarau polisïau a chodi ymwybyddiaeth am atal twyll. Bydd pecyn e-ddysgu'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r strategaeth hon.</p>	

<sup>5</sup> <https://www.cipfa.org/services/networks/better-governance-forum/counter-fraud-documentation/code-of-practice-on-managing-the-risk-of-fraud-and-corruption>

<sup>6</sup> <https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fighting-fraud-and-corruption-locally>

## Cydnabod

I greu ymateb atal twyll, rhaid i'r Cyngor gydnabod a deall risgiau twyll ac yna arddangos hyn trwy ymrwymo'r gefnogaeth gywir ac adnodd priodol ar gyfer taclo twyll.

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi cydnabod y bygythiad o dwyll a llygredd a'r niwed y gallant eu gwneud i'r Cyngor, ei nodau a'i amcanion, ac i ddefnyddwyr gwasanaeth, trwy awdurdodi cynnwys twyll yng nghofrestr risg pob gwasanaeth.

Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn caniatáu iddo herio gweithgareddau a deall gweithgareddau atal twyll y Cyngor.

### CYDNABOD

Asesu a deall risgiau twyll.

Ymrwymo'r gefnogaeth gywir a thaclo twyll a llygredd.

Dangos bod ganddo ymateb atal twyll cadarn.

Cyfathrebu'r risgiau i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am Lywodraethiant.

### Amcanion:

Ar y cyd â gwasanaethau, byddwn yn datblygu tair ffrwd gwaith allweddol a fydd yn:

- ceisio nodi risgiau twyll ar draws y Cyngor
- asesu gweithgareddau rheoli twyll a'u heffeithiolrwydd, a
- neilltuo'r lefel gywir o adnoddau ar gyfer ymchwilio a chanfod twyll os rhoddir gwybod amdano

Bydd gweithgor atal twyll yn cael ei ddatblygu yn ystod 2021-22 er mwyn cynorthwyo i nodi'r risg o dwyll ar draws y Cyngor. Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu asesiad risg twyll i nodi'r achosion posib o dwyll y gallai gwasanaethau fod yn agored iddynt. Bydd yr asesiad yn amcangyfrif effaith bosib twyll neilltuoel a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd.

Bydd canlyniadau'r asesiad yn caniatáu i'r Cyngor gael gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd bygythiad o dwyll y mae'n gweithredu ynddo. Defnyddir yr asesiadau hefyd fel dull i gynorthwyo'r gwaith o ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau twyll mwyaf perthnasol.

Yn aml, atgyfeiriadau adweithiol yw prif ffynhonnell gwaith y Tîm Archwilio Mewnol.

Effrogarwch y cyhoedd neu weithwyr yn aml sy'n creu'r atgyfeiriadau hyn ac yn golygu bod modd darganfod twyll. Byddwn yn edrych ar ddarparu dull o adrodd am dwyll i staff a'r cyhoedd ei ddefnyddio i roi gwybod am bryderon.

## Atal

<p>Gall y Cyngor atal a chanfod trwy wella mesurau rheoli a phrosesau yn ymwneud â thwyll, a defnyddio gwybodaeth a thechnoleg yn well, ynghyd â datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol.</p> <p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer materion ariannol y Cyngor a'i fod yn anelu i gael systemau a gweithdrefnau ariannol cadarn ar waith sydd yn ymgorffori rheolaethau mewnol effeithlon ac effeithiol.</p>	<p style="text-align: center;"><b>ATAL</b></p> <p style="text-align: center;"><b>Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg.</b></p> <p style="text-align: center;"><b>Gwella mesurau rheoli a phrosesau yn ymwneud â thwyll.</b></p> <p style="text-align: center;"><b>Datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol.</b></p> <p style="text-align: center;"><b>Cyfathrebu ei weithgareddau a'i lwyddiannau.</b></p>
<p><b>Amcanion:</b></p> <p>Byddwn yn cymryd rhan yn ymarferion blynyddol a bob dwy flynedd y Fenter Twyll Cenedlaethol (MTC), sy'n defnyddio data a ddarperir gan tua 1,200 o sefydliadau sy'n cymryd rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i atal a chanfod twyll. Mae'r MTC ynparu data electroneg oddi mewn a rhwng cyrff sector cyhoeddus a phreifat, sy'n cynnwys awdurdodau heddlu, byrddau prawf lleol, awdurdodau tân ac achub yn ogystal â chynghorau lleol a nifer o gyrff sector preifat. Mae ymarfer paru data'r MTC yn chwarae rôl bwysig o ran gwarchod y pwrs cyhoeddus rhag risgiau twyll.</p> <p>Byddwn yn hyrwyddo diwylliant atal twyll ar draws y Cyngor trwy roi cyhoeddusrwydd i effaith twyll ar y Cyngor a'r gymuned gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Byddwn yn parhau i rannu rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) i rannau perthnasol o'r sefydliad trwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Y ffordd orau i atal twyll yw trwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Felly, ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, byddwn yn cynnal sesiynau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth am dwyll, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyron, cynnal sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio.</p> <p>Mae'n rhaid hysbysu Archwilio Mewnol am bob achos o dwyll. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau ymchwiliadau a gwersi a ddysgwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Rheoli.</p>	

## Canlyn

Er mai atal twyll a llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf yw prif nod y Cyngor, mae'n hanfodol bod ymateb gorfodaeth cadarn ar gael i fynd ar ôl twyllwyr a rhwystro eraill.

Bydd y Cyngor bob amser yn ceisio'r sancsiwn cryfaf posib yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo'r Cyngor.

Elfen ychwanegol o ymateb y Cyngor i daclo twyll yw ceisio iawndal ariannol. Mae adennill arian a gafwyd trwy dwyll yn rhan annatod o'r Strategaeth, a chymerir camau i adennill unrhyw golledion. Lle profir gweithred droseddol yna defnyddir Deddf Enillion Troseddau 2002, lle bo'n briodol, i adennill arian.

Gallai dulliau adennill eraill gynnwys achosion sifil; gorchmynion elw anghyfreithlon a gorchmynion iawndal, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i'r dulliau hynny yn unig.

### CANLYN

Blaenoriaethu adennill colledion oherwydd twyll a defnyddio sancsiynau sifil.

Datblygu'r gallu a'r capasiti i gosbi troseddwy.

Cydweithio ar draws ffiniau daearyddol a ffiniau sectorau.

Dysgu gwersi a chau'r bylchau.

### Amcanion:

Byddwn yn parhau i gydweithio ar draws rhanbarth gogledd Cymru i yrru gwelliannau mewn perthynas â gweithgareddau atal twyll, gan gynnwys mynd i'r afael â'r 15 argymhelliad a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020.

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio ar draws ffiniau cenedlaethol er mwyn cydweithio ag Is-grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio'r Gogledd Orllewin, i ddysgu gwersi, rhannu arfer da a chau'r bwlch.



## Amddiffyn ei hun a'i breswylwyr

Mae'r thema hwn yn ymestyn ar draws pileri'r strategaeth hon ac mae'n ymwneud ag amddiffyn y Cyngor rhag trosedd ddifrifol a chyfundrefnol, diogelu unigolion rhag dioddef troseddau a diogelu rhag y niwed y gall twyll ei wneud i'r gymuned ehangach. Mae'n ymwneud hefyd â diogelu cyllid cyhoeddus, diogelu'r Cyngor rhag troseddau seibr a diogelu ei hun rhag twyll yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw twyll yn drosedd lle nad oes dioddefwyr ac mae'n ceisio gwarchod pobl fregus rhag y niwed y gall twyll ei wneud yn y gymuned.

Mae dyletswydd arnom i amddiffyn preswylwyr yn ein cymunedau rhag twyll a dylem weithio ar y cyd â swyddogion ar draws y Cyngor ac asiantaethau partner i atal twyll a diogelu pobl fregus.

### AMDDIFFYN EI HUN A'I BRESWYLWYR

Bod â threfniadau cadarn a chefnogaeth y pwyllgor gwaith i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.

Cydnabod y niwed y gall twyll ei achosi i'r gymuned.

#### Amcanion:

I sicrhau bod ein strategaeth atal twyll yn alinio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor i gymryd camau pendant i warchod aelodau mwyaf bregus ein cymunedau, byddwn yn gweithio'n agos â thimau gofal cymdeithasol i ddatblygu dulliau ar y cyd i nodi arfer orau o ran rhwystro risgiau'n ymwneud â thwyll gofal cymdeithasol.

## CASGLIAD

Fel gwarcheidwaid adnoddau cyhoeddus, mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad sector cyhoeddus i ymladd twyll a llygredd. Nid yn unig y mae ymdrechion sefydliadol llwyddiannus i atal, nodi a rheoli gwahanol fathau o dwyll yn cryfhau cyflwr cyllid cyhoeddus, mae hefyd yn lliniaru risgiau moesol a risgiau i enw da ar draws y sector cyhoeddus.

Mae rhyw lefel o dwyll sector cyhoeddus yn debygol, hyd yn oed mewn cyfnodau arferol, ond mae'r un mis ar hugain diwethaf wedi esgor ar heriau heb eu tebyg, wrth i'r pandemig Covid-19 drawsnewid gwaith y Cyngor a bywydau ei staff mewn ffordd ddramatig iawn, ac wrth i gyfyngiadau'r cyfnodau clo gael effaith sylweddol ar yr economi.

Gohiriwyd y gwaith a gynlluniwyd i wella trefniadau atal twyll y Cyngor tra bod y tîm yn cynorthwyo gydag ymateb y Cyngor i'r pandemig. Mae'r strategaeth hon yn sefydlu llwybr cadarn i sicrhau bod y Tîm Archwilio mewnol yn gallu:

- addasu i'r bygythiadau a'r materion sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â risgiau twyll ar draws y Cyngor yn awr ac yn y dyfodol;
- asesu, dadansoddi ac adrodd ar risgiau twyll sy'n effeithio ar y Cyngor ar hyn o bryd ac sy'n debygol o effeithio arno yn y dyfodol;
- nodi gofynion ar gyfer gwaith atal twyll yn y dyfodol.

Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd yn erbyn y strategaeth a gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni ei hamcanion, a bydd y gwaith yn destun adolygiad parhaus.

Mae angen amlwg am safiad cadarn sy'n cael ei gefnogi gan aelodau etholedig, prif weithredwyr a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant. Bydd yn hanfodol cael trefniadau cadarn a chefnogaeth y pwyllgor gwaith i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.

Yn olaf, mae ymddygiadau a gweithredoedd unigolion yn chwarae rôl holl bwysig wrth daclo risgiau twyll. Mae'n rhaid i ni gyd, yn staff ac aelodau fel ein gilydd, gyfrannu i greu diwylliant sy'n elyniaethus i'r risg o dwyll a llygredd, a thynnu llinell glir rhwng ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y Cyngor.

# ATODIAD 1 – DOGFENNAU A ADOLYGWYD

- Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), Mawrth 2017
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Fraud - The Facts 2021, UK Finance <https://www.ukfinance.org.uk/policy-and-guidance/reports-publications/fraud-facts-2021>
- CIPFA Fraud and corruption tracker, National Report 2020 (Chwefror 2021) <https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fraud-and-corruption-tracker>
- Fighting Fraud and Corruption Locally, A Strategy for the 2020s, <https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fighting-fraud-and-corruption-locally>
- Review into the risks of fraud and corruption in local government procurement, Ministry of Housing, Communities and Local Government, Mehefin 2020 <https://www.local.gov.uk/review-risks-fraud-and-corruption-local-government-procurement>
- ‘Gwella Ein Perfformiad’ Mynd i’r afael â Thwyll yng Nghymru, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2020 <https://www.audit.wales/cy/publication/gwella-ein-perfformiad-mynd-ir-afael-thwyll-yng-nghymru>
- Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mehefin 2019 <https://www.audit.wales/cy/publication/trefniadau-atal-twyll-yn-sector-cyhoeddus-cymru>
- CIPFA Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption, 2014 <https://www.cipfa.org/services/networks/better-governance-forum/counter-fraud-documentation/code-of-practice-on-managing-the-risk-of-fraud-and-corruption>

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>9 RHAGFYR 2021</b>
<b>PWNC:</b>	<b>ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2021/22</b>
<b>AELODAU(AU) PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	<b>MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD:</b>	<b>JEMMA ROBINSON</b>
<b>E-BOST:</b>	<b>JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk</b>
<b>AELODAU LLEOL:</b>	<b>Amherthnasol</b>

## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Cyfalaf

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) godau diwygiedig ar gyfer Darbodusrwydd a Rheoli Trysorlys. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf y bwriedir iddi ddarparu'r canlynol:-

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut y rheolir y risg gysylltiedig; a
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Aethpwyd ag adroddiad a oedd yn amlinellu ein Strategaeth Gyfalaf i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2022.

### 1.2 Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras y bydd arian a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'i wariant arian parod. Mae rhan o'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif arian hwn wedi'i gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartion risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn ystyried sicrhau'r elw uchaf posib o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg, yn y bôn y cynllunio llif arian parod tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall y gwaith hwn o reoli arian parod tymor hwy gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy ac, ar brydiau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyled i fodloni amcanion cost neu risg y Cyngor.

Yn unol â hynny, diffinnir rheoli trysorlys fel:-

*“Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.”*

## 2. Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (diwygiwyd 2017). Mae prif ofynion y Côt fel a ganlyn:-

- (i) Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys, sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.
- (ii) Creu a chynnal Arferion Rheoli Trysorlys, sy'n nodi'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.
- (iii) Bod y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, yn ymdrin â gweithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- (iv) Y Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldebau dros weithredu a monitro polisïau ac arferion rheoli trysorlys ac ar gyfer gweithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys.
- (v) Y Cyngor yn dirprwyo rôl craffu ar y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys i gorff penodol a enwir. Ar gyfer y Cyngor hwn, y corff dirprwyedig hwnnw yw'r Pwyllgor Archwilio.

Paratowyd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22;
- Adolygiad o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y'i nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2021/22;
- Adolygiad o strategaeth fenthycy'r Cyngor ar gyfer 2021/22;
- Adolygiad o unrhyw aildrefnu dyledion a wnaed yn ystod 2021/22;
- Adolygiad o gydymffurfiaeth â'r Terfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2021/22.

### 3. Diweddariad Economaidd

3.1 Cafwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Yn ddiweddar maent hefyd wedi darparu'r rhagolwg isod ar gyfer cyfraddau llog:-

	Rhag 2021	Maw 2022	Meh 2022	Medi 2022	Rhag 2022	Maw 2023	Meh 2023	Medi 2023	Rhag 2023	Maw 2024
Cyfradd Banc (%)	0.10%	0.10%	0.25%	0.25%	0.25%	0.25%	0.50%	0.50%	0.50%	0.75%
Cyfradd 5 mlynedd BBGC (%)	1.40%	1.40%	1.50%	1.50%	1.60%	1.60%	1.60%	1.70%	1.70%	1.70%
Cyfradd 10 mlynedd BBGC (%)	1.80%	1.80%	1.90%	1.90%	2.00%	2.00%	2.00%	2.10%	2.10%	2.10%
Cyfradd 25 mlynedd BBGC (%)	2.20%	2.20%	2.30%	2.30%	2.40%	2.40%	2.40%	2.50%	2.50%	2.60%
Cyfradd 50 mlynedd BBGC (%)	2.00%	2.00%	2.10%	2.20%	2.20%	2.20%	2.20%	2.30%	2.30%	2.40%

3.2 Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwebaeth i gyd-fynd â'r rhagolygon cyfraddau llog uchod. Gellir gweld y sylwebaeth hon yn Atodiad 2.

### 4. Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

4.1 Cymeradwywyd y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRHT) ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021. Nid oes unrhyw newidiadau polisi iddo; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddarar'r sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd sydd ohoni a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 5.1** Yn unol â'r Côt, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a sicrhau lefel briodol o enillion sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian, ond hefyd i chwilio am y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol â statws credyd uchel. Fel y dangosir gan y rhagolygon ynghylch cyfraddau llog yn adran 3, mae bellach yn amhosib cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin mewn degawdau blaenorol oherwydd prin y mae'r holl gyfraddau buddsoddi wedi codi ers torri'r Gyfradd Banc i 0.10% ym mis Mawrth 2020, hyd at gyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol ar 24 Medi 2021, pan gododd cyfraddau 6 a 12 mis oherwydd y disgwyliad y bydd y Cyfradd Banc yn codi yn 2022. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r posibilrwydd mai codiad bychan iawn yn unig fydd yn y Cyfradd Banc cyn canol 2023, neu ddim codiad o gwbl, disgwylir i enillion o fuddsoddiadau barhau i fod yn isel.
- 5.2** Roedd gan y Cyngor £38.070m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2021 (£25.066m ar 31 Mawrth 2021) a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.01%. Mae rhestr lawn o'r buddsoddiadau ar 30 Medi 2021 i'w gweld yn Atodiad 3. Gellir gweld crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau yn Atodiad 4.
- 5.3** Nid aethpwyd yn uwch na'r terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2021/22.
- 5.4** Yr enillion o fuddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi cynllunio ar eu cyfer am 2021/22 yw £0.036m ac nid yw'r perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn unol â'r gyllideb, gyda dim ond £0.005m wedi'i dderbyn hyd ddiwedd Chwarter 2. Rydym yn rhagweld y bydd yr enillion ar ddiwedd y flwyddyn yn is na'r gyllideb oherwydd er bod ein balansau arian parod wedi bod yn uwch na'r arfer, mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan gyfraddau llog is nag a ragwelwyd.
- 5.5** Mae'r meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofyniad y swyddogaeth rheoli trysorlys.
- 5.6** Gellir gweld y gwledydd a gymeradwyir ar gyfer buddsoddiadau yn Atodiad 5.
- 5.7** Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o fuddsoddiadau a wnaed i Awdurdodau Lleol eraill yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon. O ystyried mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor hwn, ystyrir mai buddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol eraill yw'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian ac mae hyn yn rhoi enillion uwch na'r mwyafrif o gyfrifon galw gyda banciau.


Awdurdod Lleol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Swm £
Cyngor Sir Fflint	23/06/2021	23/09/2021	0.03	5,000.000

## 6. Benthycia

- 6.1** Y gofyniad cyllid cyfalaf a ragwelir (GCC) ar gyfer 2021/22 yw £140.9m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn bositif, gall y Cyngor fenthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) neu'r farchnad (benthycia allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthycia mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthycia allanol a mewnol yn cael ei yrru gan amodau'r farchnad. Mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd wedi cael benthyc £124.9m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £16.0m o gronfeydd llif arian yn lle benthycia. Mae hwn yn ddull darbodus a chost-effeithiol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ond bydd angen ei fonitro'n barhaus os bydd yr elw o giltiau yn well na'r disgwyl.

**6.2** Derbyniwyd swm o £509k (benthyciad Salix di-log) yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, sef rhandal olaf y benthyciad hwn. Ni chymerwyd benthyciad unrhyw arian ychwanegol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon, a ni ragwelir y bydd angen cymryd unrhyw fenthyciadau allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthycia i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2021/22, ond gwneir hynny trwy fenthycia mewnol (drwy ddefnyddio balansau arian parod). Bydd hyn yn gohirio costau cyllido cyfalaf tra bod balansau arian parod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer y benthycia mewnol hwn. Yn y tymor mwy canolig, efallai y bydd angen allanoli'r benthycia os bydd balansau arian parod y Cyngor yn isel. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hadolygu'n rheolaidd oherwydd effeithiau coronafeirws a phrinder deunyddiau a gweithwyr. Felly, bydd ein strategaeth fenthycia yn cael ei hadolygu'n rheolaidd hefyd a'i diwygio, os bydd angen, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau a'r amlygiad gorau i risg yn y tymor hir.

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y newid yng nghyfraddau sicrwydd y BBGC ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yn hyn. Roedd enillion o giltiau a chyfraddau BBGC yn gostwng rhwng mis Mai a mis Awst. Fodd bynnag, bu iddynt godi'n sydyn tuag at ddiwedd mis Medi. Ar ddechrau 2021/22, roedd cyfradd darged 50 mlynedd BBGC ar gyfer benthycia newydd tymor hir yn 1.90%, cododd i 2.00% ym mis Mai, disgynnodd i 1.70% ym mis Awst ac yna dychwelyd i 2.00% ddiwedd mis Medi, ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol ar 23 Medi.



	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
<b>Low</b>	0.78%	1.05%	1.39%	1.75%	1.49%
<b>Date</b>	08/04/2021	08/07/2021	05/08/2021	17/08/2021	10/08/2021
<b>High</b>	0.98%	1.42%	1.81%	2.27%	2.06%
<b>Date</b>	24/09/2021	28/09/2021	28/09/2021	13/05/2021	13/05/2021
<b>Average</b>	0.84%	1.16%	1.60%	2.02%	1.81%
<b>Spread</b>	0.20%	0.37%	0.42%	0.52%	0.57%

**6.3** Prin iawn fu'r cyfleoedd a gafwyd i aildrefnu dyledion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn dilyn y codiadau amrywiol yn yr elw a ychwanegwyd at enillion giltiau sydd wedi effeithio ar gyfraddau benthycia newydd BBGC ers mis Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi cael eu haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol.



## 7. Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

7.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro er mwyn rhoi diweddariad ar:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer gweithgaredd benthyca.

### 7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf:-

Gwariant Cyfalaf	Amcangyfrif Gwreiddiol 2021/22 £'000	Sefyllfa ar 30 Medi 2021 £'000	Amcangyfrif Cyfredol 2021/22 £'000
Cronfa'r Cyngor	34,386	8,666	25,427
CRT	22,561	4,583	13,641
<b>Cyfanswm</b>	<b>56,947</b>	<b>13,249</b>	<b>39,068</b>

7.2.1 Mae'r gwariant a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb, ond y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ynghyd â gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont. Rhagwelir tanwariant sylweddol yn y CRT hefyd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod. Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22 i'w weld yn Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf Ch2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2021.

### 7.3 Newidiadau i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf

7.3.1 Mae rhai newidiadau i sut y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn y tabl isod. Mae'r prif reswm dros y newid fel y nodwyd ym mharagraff 7.2.1, gan y bydd tanwariant sylweddol yn 2021/22 mewn cynlluniau cyfalaf. Fodd bynnag, bydd y cynlluniau hyn, a'r cyllid ar eu cyfer, yn llithro i 2022/23 ac ni ragwelir, ar hyn o bryd, y bydd unrhyw gyllid yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

7.3.2 Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwylidig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei leihau'n rhannol gan daliadau referniw am ad-dalu dyled (y Ddarpariaeth Referniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd.

Cyllido Cyfalaf	Amcangyfrif Gwreiddiol 2021/22 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2021/22 £'000
Grantiau Cyfalaf	22,217	18,416
Derbyniadau Cyfalaf	463	521
Cronfeydd Wrth Gefn	2,710	1,239
Cyfraniad Referniw	17,887	10,967
Benthyca â Chefnogaeth	8,765	5,590
Benthyca Digefnogaeth	4,697	2,127
Benthyciad	208	208
<b>Cyfanswm</b>	<b>56,947</b>	<b>39,068</b>

## 7.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

7.4.1 Mae tablau 7.4.2 a 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthycu at bwrpas cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Gelwir hyn yn Derfyn Gweithredol, ac fe'i gosodir yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT).

### 7.4.2 Dangosydd Darbodus – y Terfyn Gweithredol ar gyfer dyled allanol

	Terfyn Gweithredol 2021/22 yn unol â'r DSRhT 2020/21 £'000	Sefyllfa Fenthycu Agoriadol 2021/22 £'000	Swm o fewn y Terfyn £'000	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthycu 2021/22 £'000	Swm o fewn y Terfyn £'000
<b>Dangosydd Darbodus – Dyled Allanol/ Y Terfyn Gweithredol</b>					
Benthycu	188,000	124,524	63,476	124,949	63,051
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	0	5,000	0	5,000
<b>Cyfanswm ar 31 Mawrth</b>	<b>193,000</b>	<b>124,524</b>	<b>68,476</b>	<b>124,949</b>	<b>68,051</b>

### 7.4.3 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

7.4.3.1 Ar hyn o bryd rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd y tanwariant a ragwelir mewn benthycu, yn bennaf oherwydd y tanwariant a ragwelir yn y CRT ac oherwydd y derbyniwyd cyllid grant ychwanegol fel cyllid amnewid.

	Amcangyfrif Gwreiddiol 2021/22 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2021/22 £'000
<b>Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf</b>		
GCC – Cronfa'r Cyngor	105,669	102,531
GCC – CRT	40,415	38,415
Cyfanswm GCC	146,084	140,946
<b>Symudiad Net yn y GCC</b>	<b>3,397<sup>1</sup></b>	<b>4,386<sup>2</sup></b>

<b>Rhagolwg GCC Gwreiddiol</b>	<b>146,084</b>
Gostyngiad yn y Ddarpariaeth Refeniw Isaf rhwng rhagolygon DSRhT 2021/22 a'r rhagolygon diwygiedig ar gyfer Cyfalaf yn Ch 2 2021/22	620
Tanwariant mewn Benthycu Digefnogaeth ar gyfer y CRT yn 2021/22	-2,000
Gwahaniaeth mewn benthyciad (gwahaniaeth rhwng rhagolygon DSRhT 2021/22 a'r rhagolygon diwygiedig ar gyfer Cyfalaf yn Ch2) – derbyniwyd benthyciad Salix ychwanegol nad oedd yn hysbys pan gynhyrchwyd DSRhT 2021/22	208
Tanwariant mewn Benthycu Digefnogaeth yn 2020/21 a gorwariant yn 2021/22 oherwydd oedi yn y contract gwastraff gan na chafodd ei gwblhau yn ystod blwyddyn 2020/21 a bu iddo lithro i 2021/22, a thanwariant net cyffredinol oherwydd y dyfarnwyd grant ar ddiwedd blwyddyn 2020/21 i gyllido'r rhan fwyaf o'r gwariant ar y fflyd gwastraff yn 2020/21.	-1,089
Tanwariant mewn Benthycu â Chefnogaeth yn 2020/21 oherwydd y derbyniwyd grant ychwanegol yn 2020/21 fel cyllid amnewid a oedd yn golygu bod angen llai o Fenthycu â Chefnogaeth.	-2,877
<b>Rhagolwg GCC Diwygiedig</b>	<b>140,946</b>

<sup>1</sup> Symudiad rhwng amcangyfrif 2020/21 ac amcangyfrif 2021/22 yn y DSRhT 2021/22

<sup>2</sup> Symudiad rhwng ffigwr gwirioneddol 2020/21 (yn unol â'r Datganiad Cyfrifon 2020/21) ac amcangyfrif diwygiedig 2021/22

## 7.5 Cyfyngiadau ar Weithgareddau Benthyca

**7.5.1** Y rheolaeth allweddol gyntaf dros weithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau). Ni ddylai benthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2021/22 a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn caniatáu peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar cyfyngedig ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi ar gyfer benthyca cyn yr angen, a glynir wrtho os gwelir bod hynny'n ddarbodus. Y sefyllfa fenthyca gyfredol yw £125.032m, sy'n is na'r rhagolwg GCC ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd ariannol nesaf (gweler y tabl isod), felly, ni thorwyd y dangosydd hwn.

	2021/22 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000
<b>GCC (rhagolwg diwedd blwyddyn)</b>	<b>140,946</b>	<b>157,552</b>	<b>171,960</b>

	Amcangyfrif Gwreiddiol 2021/22 £'000	Sefyllfa Gyfredol ar 30 Medi 2021 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2021/22 £'000
Benthyca Allanol	140,991	125,032	124,949
Benthyca Mewnol	5,093	15,914	15,997
Ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill	0	0	0
<b>GCC (sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn)</b>	<b>146,084</b>	<b>140,946</b>	<b>140,946</b>

**7.5.2** Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol o ran cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn.

**7.5.3** Mae dangosydd darbodus arall yn rheoli lefel gyffredinol y benthyca. Dyma'r Terfyn Awdurdodedig, sef y terfyn y gwaharddir benthyca y tu hwnt iddo, ac mae angen i'r Aelodau ei osod a'i ddiwygio, sef £183m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu lefel y benthyca y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er na ddymunir, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r angen benthyca uchaf a ddisgwylir gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Dyma'r terfyn statudol a bennir o dan Adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Terfynau Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol	Dangosydd Gwreiddiol 2021/22 £'000	Sefyllfa Fenthyca Gyfredol ar 30 Medi 2021 £'000	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca ar 31 Mawrth 2022 £'000
Benthyca	178,000	125,032	124,949
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>183,000</b>	<b>125,032</b>	<b>124,949</b>

## **8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus**

**8.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodwyd yn Natganiad y Cyngor ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22. Ni ragwelir unrhyw anawsterau eleni nac yn y blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

Mae'r holl weithrediadau rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## **9. Argymhelliad**

**9.1** Ystyried cynnwys yr adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen at y Pwyllgor Gwaith.

<b>Cydnherthedd Cymunedol</b>	Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi'i gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau

## Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Gweithiodd Estyn yn agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllawiau diwygiedig (a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu ar adeg yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen rhagor o fireinio..	Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol i ailddechrau o ddiwedd tymor yr Hydref	Amherthnasol
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Cymorth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm.	Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref - cyhoeddi ddechrau mis Chwefror	Amherthnasol

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Sicrwydd</b>	Bydd AGC yn cwblhau ei waith ar Wiriadau Sicrwydd gan gynnwys cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol.	Gorffennaf – Medi 2021	Ar y gweill
<b>Adolygiad cenedlaethol</b>	Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.	I'w gadarnhau	Ar y gweill – Drafftio adroddiad
<b>Gwaith dilynol</b>	Bydd AGC yn gwneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen.	I'w gadarnhau	Heb ddechrau eto
<b>Arolygiad</b>	Bydd gweithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen.	I'w gadarnhau	Nid oes unrhyw arolygiadau wedi'u trefnu ar hyn o bryd

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers 1 Ebrill 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri i'r adroddiad
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	<a href="#">Medi 2021</a>
Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG	<a href="#">Medi 2021</a>
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus <sup>1</sup>	<a href="#">Medi 2021</a>
Adfywio Canol Trefi	<a href="#">Medi 2021</a>
Cyllid myfyrwyr	<a href="#">Awst 2021</a>
Offeryn data cyllid y GIG 2020-21	<a href="#">Mehafin 2021</a>
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	<a href="#">Mehafin 2021</a>
Trefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – gwaith dilynol	<a href="#">Mai 2021</a>
Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	<a href="#">Mai 2021</a>
Yn Ôl Eich Doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	<a href="#">Ebrill 2021</a>

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. I'w ddilyn dros y pedair i chwe wythnos ganlynol gan sylwadau byr y sector: Darlun o lywodraeth leol, Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad
Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19	<a href="#">Ebrill 2021</a>

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru sydd i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo / a gynlluniwyd)<sup>2</sup>

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwylidig
Cefnogi lles staff y GIG	Hydref 2021
Rhaglen Cartrefi Cynnes	Tachwedd 2021
Comisiynu cartrefi gofal	Tachwedd 2021
Sylwadau ar gyfrifon Llywodraeth Cymru	Tachwedd 2021
Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwadau	Erbyn diwedd 2021
Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Erbyn diwedd 2021
Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwadau ar ofal wedi'i gynllunio	Erbyn diwedd 2021

<sup>2</sup> Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym meysydd polisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.



Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwylidig
<b>Amcanion llesiant a bennir gan Lywodraeth Cymru</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Gweithlu Llywodraeth Cymru</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Gwasanaethau orthopedig</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Diwygio'r cwricwlwm</b>	Gwanwyn 2022
<b>Asesiad effaith ar gydraddoldeb</b>	Gwanwyn 2022
<b>Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol</b>	Gwanwyn/haf 2022
<b>Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru</b>	I'w gadarnhau
<b>Sylwadau cryno ar asesiad strwythuredig y GIG 2021</b>	I'w gadarnhau
<b>Tai fforddiadwy</b>	I'w gadarnhau
<b>Seilwaith band eang</b>	I'w gadarnhau
<b>Rheoli perygl llifogydd</b>	I'w gadarnhau


## Digwyddiadau a chyhoeddiadau Cyfnewid Arfer Da sydd ar ddod

Teitl	Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwylidig
<b>Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau sesiwn ar gyfer digwyddiad adfywio canol tref Rhan 2 Eich Tref Eich Dyfodol a sesiwn cinio a dysgu Gweithle'r Dyfodol gyda Dr Luci Attala a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</b>	Dechrau Hydref 2021
<b>Sgyrsiau Trawsatlantig, Cymru a Nova Scotia – trafod Tai</b>	28 Hydref 2021 (3pm)
<b>Cydnherthedd Sefydliadol</b>	Rhagfyr 2021 (dyddiad i'w gadarnhau)

# Cyllid Myfyrwyr

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Awst 2021



## Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

---

Negeseuon allweddol	4
Ffeithiau allweddol	7
Argymhellion	8
<b>Prif adroddiad</b>	
1 Trosolwg o'r system cyllid myfyrwyr	9
2 Gwariant Llywodraeth Cymru ar fenthyciadau a grantiau i fyfyrwyr	22
3 Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar weinyddu cyllid myfyrwyr	29
<b>Atodiadau</b>	
1 Ymagwedd a dulliau archwilio	39
2 Dangosyddion perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, 2019-20 a 2020-21	40
3 Perfformiad Cyllid Myfyrwyr Cymru	45

# Negeseuon allweddol

- 1 Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg uwch trwy fenthyciadau a grantiau. Mae myfyrwyr cymwys yn cael cymorth i dalu costau byw a ffioedd dysgu. Ar ôl eu hastudiaethau, mae cyn-fyfyrwyr yn dechrau ad-dalu benthyciadau unwaith y mae eu henillion yn cyrraedd trothwy penodol.
- 2 Mae Llywodraeth Cymru yn talu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am weinyddu cyllid myfyrwyr ar ei rhan. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn rheoli'r broses o 'ymgeisio, asesu, talu ac ad-dalu' o'i dechrau i'w diwedd ac mae Cyllid Myfyrwyr Cymru'n frand y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'i wasanaethau ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Mae prifysgolion a Cyllid a Thollau EM yn chwarae rhan yn y system ehangach hefyd.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut y mae'r system cyllid myfyrwyr yn gweithio i fyfyrwyr o Gymru ac yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru'n goruchwyllo'r system. Mae **Atodiad 1** yn egluro ein hymagwedd a'n dulliau archwilio.

## **Mae'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli cyllid myfyrwyr o ddydd i ddydd yn effeithiol ond, o ystyried y costau cysylltiedig, mae angen mwy o graffu ar lefel strategol**

- 4 Mae cost cyllid myfyrwyr yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Talodd Llywodraeth Cymru bron i £1.1 biliwn mewn benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr yn 2019-20, 35% yn fwy nag yn 2015-16. Dros yr un cyfnod, mae cyfanswm gwerth y benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru wedi cynyddu o £3.2 biliwn i £5.3 biliwn.
- 5 Ni fydd Llywodraeth Cymru'n cael popeth sy'n ddyledus iddi mewn ad-daliadau ar fenthyciadau yn ôl. Yn 2019-20, roedd Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y byddai'n adennill 65c am bob £1 sy'n ddyledus iddi trwy fenthyciadau i fyfyrwyr. Mae hyn yn llai na'r 81c yr oedd yn amcangyfrif y byddai'n ei adennill yn 2015-16, yn bennaf am bod newidiadau i'r pecyn cymorth ariannol wedi golygu bod mwy o fyfyrwyr yn cymryd benthyciadau mwy sy'n llai tebygol o gael eu had-dalu'n llawn.

- 6 Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n rheoli ei gwariant ar gyllid myfyrwyr, yn enwedig o ystyried y symiau mawr sy'n gysylltiedig. Mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru'n goruchwyllo'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru mewn modd effeithiol. Ers dechrau 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn talu ychydig dros £20 miliwn y flwyddyn i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr am weinyddu cyllid myfyrwyr.
- 7 Mae Llywodraeth Cymru'n gyfranddaliwr lleiafrifol yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, gyda chyfran o 5%. Mae Gogledd Iwerddon a'r Alban ill dwy'n dal 5% yr un tra bo'r gyfran reolaethol o 85% yn cael ei dal gan Adran Addysg Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn cael peth sicrwydd o gyfranogi yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, craffu ar berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, risgiau a'i sefyllfa ariannol.
- 8 Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi bod ganddi lais cyfartal yn y broses o bennu amcanion polisi ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, er nad felly y bu hi bob amser. Mae graddfa'r gwasanaeth ar gyfer Cymru, fel cyfran o weithgarwch y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ar y cyfan, wedi cyfyngu o bryd i'w gilydd ar allu Llywodraeth Cymru i roi newid ar waith yn gyflym. Fodd bynnag, nid oes sancsiynau gwirioneddol am beidio â chyflawni. Pe bai Llywodraeth Cymru'n cosbi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn ariannol, mae'n debygol y byddai hynny'n cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau a ddarperir ar gyfer myfyrwyr o Gymru.
- 9 Mae'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli'r broses o weinyddu cyllid myfyrwyr o ddydd i ddydd yn gweithio'n dda ond yn dibynnu'n fawr ar nifer fach o unigolion. Ceir risgiau sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer olyniaeth a swyddi gwag yn y tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n cynnal cyswllt â Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- 10 Ceir rhai cyfyngiadau i'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n craffu'n gyffredinol ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwella'i defnydd o ddata sy'n ymwneud yn benodol â Chymru i adnabod materion o ran perfformiad sy'n berthnasol i Gymru'n benodol, gallai wneud gwelliannau pellach trwy adrodd ar ddata tuag i fyny trwy ei strwythurau llywodraethu i ystyried a yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn sicrhau gwerth am arian. Hefyd, mae cyfle i gynnwys myfyrwyr mewn modd mwy ystyrllon wrth gynllunio a monitro'r drefn ar gyfer gweinyddu cyllid myfyrwyr.
- 11 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi peth ystyriaeth i fodolau amgen ar gyfer gweinyddu cyllid myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae'n fodlon gan mwyaf ar y gwasanaeth y mae'n ei gael gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ac nid oes unrhyw gynlluniau i symud i ffwrdd oddi wrth y model sy'n golygu bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn gweinyddu cymorth i fyfirwyr ar ei rhan.



Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn pan fydd llawer o'n pobl ifanc yn paratoi i fynd i mewn i addysg uwch am y tro cyntaf. Mae sicrhau bod myfyrwyr yn deall y cymorth ariannol a gynigir a'u bod yn gallu cael gafael arno'n rhwydd yn hollbwysig. Mae'r symiau sy'n gysylltiedig ar y cyfan a'r angen i ragweld ad-daliadau ar fenthyciadau'n golygu bod cyllid myfyrwyr yn nodwedd bwysig yng nghyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru.

Felly mae ein canfyddiadau ni am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli cyllid myfyrwyr yn dda i'w gweld. Ond o ystyried y symiau cysylltiedig, dylai gryfhau'r modd y mae'n craffu ar berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, sicrhau bod anghenion a phrofiadau myfyrwyr o Gymru'n ganolog i'w phrosesau penderfynu, ac ystyried gwerth am arian y gwasanaethau y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn eu darparu ar ei rhan.

---

**Adrian Crompton**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru





# Ffeithiau allweddol

**£5.3 biliwn**

Yn ddyledus i Lywodraeth Cymru gan gyn-fyfyrwyr ar 31 Mawrth 2020



**259,600**

Nifer y cyn-fyfyrwyr o Gymru â balans benthyciad i fyfyrwr ar 31 Mawrth 2020

**65c yn y £1**

Yn 2019-20, roedd Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y byddai'n adennill 65c am bob £1 a roddwyd ganddi mewn benthyciadau



**£699 miliwn**

Wedi'i dalu gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr mewn benthyciadau yn 2019-20

**£386 miliwn**

Wedi'i dalu gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr mewn grantiau yn 2019-20

**£27,600**

Dyled gyfartalog cyn-fyfyrwyr â balans benthyciad ar ddiwedd 2020-21



**£27,295**

Y swm y mae angen i gyn-fyfyrwr fod yn ei ennill cyn ei fod yn dechrau ad-dalu ei fenthyciad yn 2021-22


**30 mlynedd**

Y cyfnod a gymerir nes bod y ddyled sydd heb ei chlirio gan y rhan fwyaf o gyn-fyfyrwyr yn cael ei dileu



**£23.4 miliwn**

Wedi'i dalu gan Lywodraeth Cymru i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn 2020-21 i weinyddu cyllid myfyrwr



# Argymhellion

## Argymhellion

### Monitro perfformiad

A1 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwella'r modd y mae'n monitro perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr trwy fynd ati'n rheolaidd i adolygu data ar lefel Cymru sy'n ymwneud â'r holl fesurau blynyddol, a thrwy adrodd yn rheolaidd ar ddarlun cynhwysfawr o berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr tuag i fyny trwy strwythur llywodraethu Llywodraeth Cymru. Dylai hyn oleuo ystyriaethau ehangach sy'n gofyn a yw'r pecyn o gymorth ariannol yn cyrraedd ei nodau hirdymor ar gyfer myfyrwyr ac addysg uwch.

### Datblygu cynaliadwy

A2 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a all wneud mwy i gymhwyso'r pum ffordd o weithio a ddisgwyllir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i wella'r modd y gweinyddir cyllid myfyrwyr a'i goruchwyliaeth ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Er enghraifft, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gynnwys myfyrwyr yn gynharach yn y broses benderfynu, a sut y bydd yn adolygu ei pherthynas â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn gyson i sicrhau bod y model gweinyddu'n dal i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

### Cynllunio ar gyfer olyniaeth a chydnerthedd

A3 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu arferion gweithio, trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth a swyddi gwag yn ei Thîm Noddi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ddibyniaeth ar nifer fach o staff.



# Trosolwg o'r system cyllid myfyrwyr

---

# 01

## Mae nifer o sefydliadau'n gysylltiedig â chyllid myfyrwyr

- 12 Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg uwch trwy fenthyciadau a grantiau. Nod y cymorth hwn yw dileu rhwystrau a galluogi myfyrwyr i fynd i'r brifysgol ni waeth beth fo incwm eu haelwyd.
- 13 Mae cyllid myfyrwyr yn gweithio ychydig yn wahanol ledled y DU. Mae pob llywodraeth yn penderfynu ar swm y cymorth ariannol a'r math o gymorth ariannol sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru'n honni mai ei chymorth ariannol hi yw'r un mwyaf hael yn y DU.
- 14 Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi rolau nifer o sefydliadau yn y system cyllid myfyrwyr. Mae'n bwysig bod y sefydliadau hyn yn cydweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol amserol a chywir yn ôl eu hamgylchiadau, a bod y cymorth hwn yn cael ei ad-dalu fel y bo'n briodol. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r arian ar gyfer cyllid myfyrwyr, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n rheoli'r broses ymgeisio, asesu a thalu.

### Arddangosyn 1: sefydliadau sy'n rhan o'r system cyllid myfyrwyr

<b>Llywodraeth Cymru</b>	<p>Llywodraeth Cymru sy'n pennu polisi addysg i Gymru ac yn penderfynu ar y pecyn cymorth ariannol a ddarperir ar gyfer myfyrwyr o Gymru yn y brifysgol. Mae'n rhoi cymorth tuag at gostau byw a ffioedd dysgu trwy fenthyciadau a grantiau.</p>
<b>Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru</b>	<p>Corff cyhoeddus anadrannol, dielw a noddir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU (cyfranddaliwr 85%) a llywodraethau Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon (5% yr un) yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.</p> <p>Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn noddi'r broses o 'ymgeisio, asesu, talu ac ad-dalu' o'i dechrau i'w diwedd ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer. Brand y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'i wasanaethau i fyfyrwyr sy'n hano o Gymru yw Cyllid Myfyrwyr Cymru. Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Cyllid Myfyrwyr Cymru'n darparu benthyciadau a grantiau cynhaliaeth yn uniongyrchol ar gyfer y myfyrwyr ac yn talu ffioedd dysgu'n uniongyrchol i brifysgolion.</p>

<p><b>Prifysgolion</b></p>	<p>Caiff cymorth ariannol ar gyfer ffioedd dysgu a ariennir trwy fenthyciadau i fyfyrwyr ei dalu'n uniongyrchol i'r brifysgol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae myfyrwyr ôl-raddedig yn cael y cymorth yn uniongyrchol.</p> <p>Pan fo myfyrwyr yn cwblhau eu cofrestriad yn y brifysgol, mae'r brifysgol yn anfon cadarnhad electronig at Cyllid Myfyrwyr Cymru, sy'n sbardun i ryddhau'r cyllid.</p>
<p><b>Cyllid a Thollau EM (CaThEM)</b></p>	<p>Mae CaThEM yn hwyluso ad-daliadau gan gyn-fyfyrwyr sydd wedi canfod cyflogaeth. Mae'r rhai yn system dreth y DU yn ad-dalu benthyciadau trwy'r system Talu Wrth Ennill neu drwy ffurflenni treth hunanasesiad. Mae'n ofynnol i gyn-fyfyrwyr a gyflogir y tu allan i'r DU wneud ad-daliadau hefyd, er bod y taliadau hyn yn cael eu gwneud i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac nid CaThEM.</p> <p>Mae CaThEM yn anfon gwybodaeth am ad-dalu at y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Caiff ad-daliadau a gesglir gan CaThEM gan fyfyrwyr o Gymru eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.</p>

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Dim ond myfyrwyr cymwys sy'n cael cymorth ariannol

- 15 Dim ond os ydynt yn bodloni meini prawf penodol y mae myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth ariannol. Mae'r meini prawf hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y lefel (israddedig neu ôl-raddedig) a'r patrwm astudio (llawn-amser neu ran-amser). Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r prif feini prawf ar gyfer israddedigion llawn-amser, newydd.

## Arddangosyn 2: prif feini prawf cymhwystra cyllid myfyrwyr ar gyfer israddedigion llawn-amser, newydd yn 2021/22

<p><b>Cenedigrwydd a man preswyllo</b></p>	<p>Gall myfyriwr ymgeisio os yw'n bodloni'r amodau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae'n wladolyn y DU, yn ddinesydd Gwyddelig neu'n meddu ar statws preswyllydd sefydlog;</li> <li>• mae'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf ei gwrs; ac</li> <li>• mae wedi bod yn byw yn y DU a'r Ynysoedd am 3 blynedd cyn dechrau ei gwrs.</li> </ul> <p>Os bodlonir yr amodau uchod, caiff myfyrwyr eu hystyried yn fyfyrwyr o Gymru. Mae cyllid ar gael i fyfyrwyr yr UE sy'n astudio yng Nghymru hefyd (mae manylion llawn ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru).</p>
<p><b>Cwrs</b></p>	<p>Rhaid i gwrs myfyriwr fod yn y DU ac arwain at gymhwyster mewn un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd gyntaf, e.e. Baglor yn y Celfyddydau, y Gwyddorau neu mewn Addysg;</li> <li>• Gradd sylfaen;</li> <li>• Tystysgrif Addysg Uwch;</li> <li>• Diploma Addysg Uwch;</li> <li>• Tystysgrif Genedlaethol Uwch;</li> <li>• Diploma Cenedlaethol Uwch;</li> <li>• Tystysgrif Addysg i Raddedigion; neu</li> <li>• Addysg Gychwynnol i Athrawon.</li> </ul>
<p><b>Prifysgol neu goleg</b></p>	<p>Rhaid i brifysgol neu goleg myfyriwr fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cael ei (h)ariannu'n gyhoeddus (y llywodraeth yn talu amdano/ amdani); neu</li> <li>• yn cael ei (h)ariannu'n breifat ond yn rhedeg cwrs a gymeradwywyd ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru.</li> </ul>
<p><b>Oedran</b></p>	<p>I fod yn gymwys ar gyfer benthyciad cynhaliaeth, mae angen i fyfyriwr fod dan 60 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs. Nid oes terfyn oedran uchaf ar gyfer grantiau neu benthyciad ffioedd dysgu.</p>

Sylwer: Mae pecynnau cymorth ariannol eraill ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig rhan-amser. Mae gan Cyllid Myfyrwyr Cymru fanylion llawn y cymorth sydd ar gael a'r meini prawf cymhwystra ar gyfer myfyrwyr o Gymru a myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru ar ei wefan.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, gan ddefnyddio gwybodaeth o wefan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#)

## Gall pob myfyriwr gael gafael ar gymysgedd o gymorth trwy fenthyciad a grant

- 16 I wneud cais am gymorth, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn defnyddio gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru er y gallant gyflwyno ffurflenni cais papur. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru'n asesu'r cais yn seiliedig ar dystiolaeth o gymhwystra ac, os derbynnir y cais, mae'n darparu hysbysiad o hawlogaeth gan nodi'r math o gymorth a lefel y cymorth a ddyfarnwyd i'r myfyriwr.
- 17 Mae'r cymorth sydd ar gael i fyfyriwr yn dibynnu ar incwm ei aelwyd yn ogystal â'i fan astudio a'r math o astudio. Mae **Arddangosyn 3** yn egluro'r cymorth gyda ffioedd dysgu a chostau byw sydd ar gael i israddedigion llawn-amser, newydd.

### Arddangosyn 3: prif ffynonellau cymorth ariannol sydd ar gael i israddedigion llawn-amser, newydd yn 2021/22

#### Cymorth gyda ffioedd dysgu

- pennir ffioedd dysgu gan brifysgolion. Yng Nghymru caiff y rhain eu capio ar £9,000 y flwyddyn ar gyfer israddedigion llawn-amser ond mewn rhannau eraill o'r DU gallant fod hyd at £9,250.
- rhoddir cymorth ar ffurf benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu i dalu ffioedd y cwrs, a hwnnw'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r brifysgol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- nid yw'r cymorth hwn yn amrywio yn ôl incwm yr aelwyd.
- rhaid ad-dalu'r benthyciad ac mae llog yn cronni o'r diwrnod cyntaf.

#### Cymorth gyda chostau byw

- telir hwn i mewn i gyfrif banc y myfyriwr ar ddechrau pob tymor, ar ôl i'r cofrestriad gael ei gadarnhau gan y brifysgol.
- dwy elfen: Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Benthyciad Cynhaliath.

#### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

- i helpu gyda chostau fel bwyd, llyfrau a rhent.
- mae'r swm yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a'r man astudio.
- bydd myfyrwyr yn cael grant o £1,000 o leiaf.
- uchafswm y grant yw £10,124.
- nid oes angen ad-dalu'r grant yma.

#### Benthyciad Cynhaliath

- wedi'i fwriadu i dalu costau byw tra bo'r myfyriwr yn y brifysgol.
- mae'r swm yn dibynnu ar incwm yr aelwyd.
- uchafswm y benthyciad yw £11,930.
- rhaid ad-dalu'r benthyciad ac mae llog yn cronni o'r diwrnod cyntaf.

Sylwer: Mae'r ffigyrau'n ymwneud â myfyrwyr israddedig llawn-amser, newydd, ar gyfer 2021/22. Mae pecynnau cymorth ariannol eraill ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig rhan-amser. Ceir cymorth ychwanegol hefyd os oes gan fyfyrwr anabledd, cyflwr iechyd hirdymor neu ddibynyddion. Mae gan Cyllid Myfyrwyr Cymru restr llawn o'r holl becynnau cymorth ar ei wefan.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, gan ddefnyddio gwybodaeth o [wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru](#)



- 18 Mae swm y cymorth gyda chostau byw sydd ar gael yn amrywio rhwng £8,790 a £12,930 gan ddibynnu a yw myfyriwr yn byw gyda rhieni ynteu oddi cartref, ac mae gan y rhai sy'n astudio yn Llundain hawl i fwy o gymorth. Nid yw incwm yr aelwyd yn effeithio ar gyfanswm y cymorth gyda chostau byw sydd ar gael, ond mae'n effeithio ar y cydbwysedd rhwng y cymorth ar ffurf benthyciad a'r cymorth grant. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos y cymorth sydd ar gael ac yn dangos sut y mae aelwydydd ar incwm is yn cael mwy ar ffurf grant a llai ar ffurf benthyciad.


#### Arddangosyn 4: cymorth gyda chostau byw – grant dysgu neu fenthyciad cynhaliaeth – i israddedigion llawn-amser yn 2021/22

Incwm yr aelwyd (£)	Yn byw gyda rhieni (£)			Oddi cartref, yn astudio'r tu allan i Lundain (£)			Oddi cartref, yn astudio yn Llundain (£)		
	Grant	Benth -yciad	Cyfan -swm	Grant	Benth -yciad	Cyfan -swm	Grant	Benth -yciad	Cyfan -swm
18,370 neu lai	6,885	1,905	<b>8,790</b>	8,100	2,250	<b>10,350</b>	10,124	2,806	<b>12,930</b>
25,000	5,930	2,860	<b>8,790</b>	6,947	3,403	<b>10,350</b>	8,643	4,287	<b>12,930</b>
35,000	4,488	4,302	<b>8,790</b>	5,208	5,142	<b>10,350</b>	6,408	6,522	<b>12,930</b>
45,000	3,047	5,743	<b>8,790</b>	3,469	6,881	<b>10,350</b>	4,174	8,756	<b>12,930</b>
59,200 neu fwy	1,000	7,790	<b>8,790</b>	1,000	9,350	<b>10,350</b>	1,000	11,930	<b>12,930</b>

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru, [Myfyrwyr newydd – Pa gymorth ariannol sydd ar gael?](#)

- 19 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithredu Cynllun Canslo'n Rhannol, sy'n golygu bod hyd at £1,500 o falans benthyciad cynhaliaeth cyn-fyfyriwr yn cael ei glirio ar ôl ei ad-daliad cyntaf<sup>1</sup>. Mae'r holl gyn-fyfyriwr sydd wedi cymryd benthyciadau cynhaliaeth ers 2010/11 yn gymwys, ar yr amod nad ydynt wedi torri eu cytundeb ar gyfer y benthyciad. Nid yw'r trefniant hwn ar gael mewn rhannau eraill o'r DU.
- 20 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos sut y mae cost flynyddol y Cynllun Canslo'n Rhannol wedi cynyddu ers ei gyflwyno yn 2011-12, gan godi i £27 miliwn yn 2019-20. Cyfanswm cost y cynllun hyd at 2019-20 yw £156 miliwn.

1 Mae Llywodraeth Cymru'n talu £1,500 o ddyled cyn-fyfyriwr, neu lai na £1,500 dan rai amgylchiadau, gan gynnwys pan nad yw'r myfyriwr wedi cymryd y benthyciad llawn a oedd ar gael iddo/iddi.

**Arddangosyn 5: costau'r Cyllid myfyrwyr: y cynllun dileu rhannol, rhwng 2011-12 a 2019-20**

Sylwer: mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu'r symiau a ddilëwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yng nghyfrifon myfyrwyr.

Ffynhonnell: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr, [cyfres Benthyciadau i Fyfrwyr yng Nghymru](#) (Saesneg yn unig) a phapurau gwaith Llywodraeth Cymru sy'n ategu Cyfrifon Cyfunol blynyddoedd amrywiol

## Mae ad-daliadau'n dechrau unwaith y mae enillion cyn-fyfywrwyr uwchlaw trothwy penodol

- 21 Ar ddiwedd 2019-20, roedd 259,600 o gyn-fyfywrwyr o Gymru â balans benthyciad i fyfyrwr<sup>2</sup>. Bydd myfyrwyr llawn-amser yn dechrau ad-dalu yn y mis Ebrill wedi iddynt adael eu cwrs os yw eu henillion uwchlaw'r trothwy ad-dalu perthnasol.
- 22 Caiff ad-daliadau eu casglu trwy system dreth y DU, trwy Talu Wrth Ennill os yw cyn-fyfywrwyr yn gyflogedig, neu drwy'r broses hunanasesiad os ydynt yn hunangyflogedig. Os yw eu cyflog uwchlaw'r trothwy ad-dalu ar gyfer y benthyciad, bydd y cyflogwr yn cymryd ad-daliadau ac yn eu trosglwyddo i CaThEM. Mae CaThEM yn anfon gwybodaeth at y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwyr i ddiweddarau cofnod y cyn-fyfyriwr a'r ddyled sy'n dal heb ei chlirio.
- 23 Caiff llog ei ychwanegu at y benthyciad o'r dyddiad y gwneir taliad cyntaf y benthyciad i'r myfyriwr tan yr ad-daliad terfynol. Mae'r gyfradd llog yn gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Rhaid gwneud ad-daliadau naill ai nes bod y ddyled (a'r llog sydd wedi cronni) wedi cael ei had-dalu'n llawn, neu nes bod y ddyled wedi'i dileu sef, yn ôl y rheolau cyfredol, 30 mlynedd ar ôl y dyddiad y mae'r myfyriwr i fod i ddechrau gwneud ad-daliadau. Os nad yw cyn-fyfyriwr byth yn cael swydd â chyflog uwchlaw'r trothwy ad-dalu, ni fydd unrhyw ran o'r benthyciad yn cael ei had-dalu.
- 24 Mae newidiadau i'r pecyn cyllid myfyrwyr wedi arwain at gynlluniau ad-dalu gwahanol gan ddibynnu pryd y cymerodd y cyn-fyfyriwr ei fenthyciad a'r math o astudio (israddedig neu ôl-raddedig). Mae **Arddangosyn 6** yn crynhoi'r tri phrif gynllun. Mae pob un yn amrywio o ran y gyfradd llog, y trothwy ad-dalu a dileu'r ddyled

---

2 Y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwyr, Tablau blwyddyn ariannol 2020-21 ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Tabl 5A (i) (Saesneg yn unig)

## Arddangosyn 6: crynodeb o gynlluniau ad-dalu a throthwyon ad-dalu cyllid myfyrwyr ar gyfer 2021/22


Cynllun ad-dalu	Trothwy ad-dalu ar gyfer 2021/22	Cyfradd ad-dalu uwchlaw'r trothwy	Llog a godir	Pryd gaiff y ddyled ei dileu?
<p><b>Cynllun 1</b></p> <p>Myfyrwyr a ddechreuodd gwrs cyn 1 Medi 2012</p>	£19,895	9%	<p>Yr isaf o'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Y Mynegai Prisiau Manwerthu yn y mis Mawrth blaenorol</li> <li>1% uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr</li> </ul>	<p>Ar gyfer benthyciadau a gymerwyd cyn 1 Medi 2006, bydd balans y benthyciad sy'n dal heb ei glirio ac unrhyw log yn cael eu canslo pan fydd y cyn-fyfyriwr yn troi'n 65.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau a gymerwyd ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ond cyn 1 Medi 2012, bydd balans y benthyciad sy'n dal heb ei glirio ac unrhyw log yn cael eu canslo ar ôl 25 mlynedd.</p>
<p><b>Cynllun 2</b></p> <p>Myfyrwyr a ddechreuodd gwrs israddedig ar neu ar ôl 1 Medi 2012</p>	£27,295	9%	<p>Tra ydynt yn astudio: Y Mynegai Prisiau Manwerthu +3%</p> <p>Ar ôl astudio: Mae'r llog yn seiliedig ar incwm:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>£27,295 neu lai = Y Mynegai Prisiau Manwerthu</li> <li>rhwng £27,295 a £49,130 = Y Mynegai Prisiau Manwerthu a hyd at 3%, gan ddibynnu ar incwm</li> <li>dros £49,130 = Y Mynegai Prisiau Manwerthu a 3%</li> </ul>	<p>Bydd unrhyw fenthyciad a llog sy'n weddill 30 mlynedd ar ôl y dyddiad pan oedd y cyn-fyfyriwr i fod i ddechrau gwneud ad-daliadau'n cael eu canslo.</p>

Cynllun ad-dalu	Trothwy ad-dalu ar gyfer 2021/22	Cyfradd ad-dalu uwchlaw'r trothwy	Llog a godir	Pryd gaiff y ddyled ei dileu?
<b>Cynllun 3</b> Myfyrwyr a ddechreuodd gwrs Meistr neu Ddoethur ôl-raddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2018	£21,000	6%	Y Mynegai Prisiau Manwerthu + hyd at 3%	Bydd unrhyw fenthyciad a llog sy'n weddill 30 mlynedd ar ôl y dyddiad pan oedd y cyn-fyfyriwr i fod i ddechrau gwneud ad-daliadau'n cael eu canslo.

Ffynhonnell: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr, [Benthyciadau i Fyfrwyr – canllaw i'r telerau ac amodau 2021 i 2022](#)

- 25 Ar ddiwedd 2020-21, y ddyled gyfartalog mewn perthynas â benthyciad ar gyfer cyn-fyfrwyr â balans benthyciad oedd £27,600. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr rhan-amser a'r rhai sydd wedi ymadael cyn cwblhau eu hastudiaethau, sy'n gostwng y cyfartaledd. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos sut y mae'r ddyled gyfartalog wedi tyfu 45% ers 2016-17 pan oedd yn £19,070.

## Arddangosyn 7: dyled gyfartalog fesul cyn-fyfyriwr â balans benthyciad, rhwng 2016-17 a 2020-21



Sylwer: ar gyfer cyn-fyfywrwy sydd wedi cyrraedd y trothwy ad-dalu, mae'r didyniad dan y Cynllun Canslo'n Rhannol (**paragraff 19**) wedi cael ei wneud o'u dyled lle y bo'n briodol. Lle nad yw cyn-fyfywrwy wedi cyrraedd y trothwy, nid yw'r didyniad wedi cael ei wneud.

Ffynhonnell: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwy [Tablau blwyddyn ariannol 2020-21 ar gyfer benthyciadau i fyfywrwy addysg uwch yng Nghymru, Tabl 5A \(iii\)](#) (Saesneg yn unig)

26 Mae newidiadau i'r pecyn cymorth i fyfywrwy dros amser, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ym mis Medi 2018 yn dilyn 'Adolygiad Diamond'<sup>3</sup>, wedi cyfrannu at y ddyled gyfartalog uwch. Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Diamond am nifer o resymau, gan gynnwys bwriad i ehangu mynediad at addysg uwch. Cafodd y Grant Ffioedd Dysgu<sup>4</sup> blaenorol ei dynnu'n ôl a chafodd y cymorth gyda ffioedd ei symud tuag at system a oedd yn fwy seiliedig ar fenthyciadau. Mae'r pecyn newydd wedi'i fwriadu i roi mwy o gymorth gyda chostau byw a chymorth sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar ei lefel uchaf. Gan bod y pecyn newydd yn fwy hael o ran cyfanswm y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfywrwy mae hynny hefyd wedi cyfrannu at y ddyled gyfartalog uwch.

3 Llywodraeth Cymru, [Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016](#) (Saesneg yn unig)

4 Dyfarniad heb brawf modd a oedd yn rhan o'r pecyn cyllid myfyrwyr blaenorol yng Nghymru ac yn werth £4,954 ar gyfer myfyrwyr llawn-amser a oedd yn dechrau yn 2017/18 oedd y Grant Ffioedd Dysgu.

- 27 Mae'r cyfanswm y mae'n rhaid i gyn-fyfyriwr ei ad-dalu, a'r amser y bydd yn ei gymryd i ad-dalu ei ddyled yn llawn, yn dibynnu ar faint ei gyflog. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos pedair enghraifft ddamcaniaethol o gyn-fyfyriwr, gyda'r un lefel o ddyled ond cyflogau dechreuol gwahanol. Mae'n rhoi bras amcan o'r symiau gwahanol y gallai pob person eu had-dalu, a'r amser y byddai'n ei gymryd i ad-dalu eu benthyciadau'n llawn.

**Arddangosyn 8: enghreifftiau o faint y gallai pobl â swm cyfartalog o ddyled ei ad-dalu, yn seiliedig ar wahanol gyflogau dechreuol**

	Person 1	Person 2	Person 3	Person 4
Cyflog dechreuol	£25,000	£30,000	£40,000	£50,000
Dyled dybiedig	£27,600	£27,600	£27,600	£27,600
Cyfanswm a gaiff ei ad-dalu gan gynnwys llog (bras amcan o'r gwerth enwol)	£0	£15,000	£50,000	£41,000
Dyled yn cael ei had-dalu'n llawn?	Na fydd	Na fydd	Bydd – 27 mlynedd	Bydd – 16 mlynedd

Sylwer: amcangyfrifon dangosol yn seiliedig ar dybiaethau penodol yw'r rhain. Rydym wedi tybio: bod cyflogau a throthwyon ad-dalu'n cynyddu yn unol â thwf enillion cyfartalog yn y DU, fel a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2020; bod llog yn cael ei gymhwyso'n flynyddol a bod y Mynegai Prisiau Manwerthu fel a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; nad oes egwylion ad-dalu; na wneir unrhyw ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol mewn perthynas â'r benthyciad; a bod Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu'r uchafswm o £1,500 ar bob benthyciad trwy'r Cynllun Canslo'n Rhannol.

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Archwilio Cymru

- 28 Mae **Arddangosyn 8** yn dangos, er mai Person 4 sy'n ennill y cyflog uchaf, ei fod yn talu llai ar y cyfan na Pherson 3 yn y diwedd. Mae Person 4 yn gwneud ad-daliadau misol uwch ac yn ad-dalu'r ddyled yn gyflymach. Gyda llai o amser i gronni llog, yn y diwedd mae Person 4 yn talu llai na Pherson 3 dros oes y benthyciad.
- 29 Mae'r arddangosyn hefyd yn dynodi sut y mae eu cyflog dechreuol yn effeithio ar y cyfnod ad-dalu – sef yr amser y mae cyn-fyfyriwr yn ei dreulio'n gwneud ad-daliadau. Ar gyflogau dechreuol is (personau 1 a 2), mae'r cyfnod ad-dalu'n cyrraedd y terfyn o 30 mlynedd ac mae'r ddyled sy'n weddill yn cael ei dileu. Mae cyflogau uwch personau 3 a 4 yn golygu eu bod yn ad-dalu mwy o'u benthyciad bob mis, ac felly'n ad-dalu eu dyled i gyd cyn y terfyn o 30 mlynedd.



# Gwariant Llywodraeth Cymru ar fenthyciadau a grantiau i fyfyrwyr

---


02



## Mae cost cyllid myfyrwyr yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf

- 30 Mae cyfanswm y cymorth ariannol blynyddol a roddir gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr mewn addysg uwch wedi cynyddu 35% ers 2015-16, gan gyrraedd bron i £1.1 biliwn yn 2019-20 (**Arddangosyn 9**). Pan ystyrir chwyddiant, mae hyn yn gynydd o 24%.

### Arddangosyn 9: cymorth ar ffurf grantiau a benthyciadau a roddwyd i fyfyrwyr o Gymru, rhwng 2015-16 a 2019-20



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (nid yw'n cynnwys grantiau addysg bellach)

- 31 Ym mis Medi 2017, fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'gynyddu'n sylweddol y grantiau cynhaliath sydd ar gael i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, gan chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd i'r brifysgol a sicrhau bod grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr yn cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol'<sup>5</sup>. I gyflawni'r ymrwymiad hwn, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (**Arddangosyn 3**), er ei fod hefyd wedi tynnu'r Grant Ffioedd Dysgu yn ôl.
- 32 Dros y cyfnod o bum mlynedd a ddangosir yn **Arddangosyn 9**, bu gostyngiad yn y swm y mae myfyrwyr yn ei gael mewn grantiau, fel cyfran o gyfanswm y cymorth ariannol. Yn 2015-16, roedd cymorth ar ffurf grantiau'n rhoi cyfrif am 51% o gyfanswm y cymorth ariannol ac erbyn 2019-20 roedd hyn wedi gostwng i 36%. Mae'r gostyngiad hwn yn deillio o newidiadau yn dilyn Adolygiad Diamond (**paragraff 26**). Mae **Arddangosyn 9** hefyd yn dangos gostyngiad yn y cyfanswm a gaiff ei wario ar grantiau. Pan ystyrir chwyddiant, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 13%<sup>6</sup>.
- 33 Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n rheoli ei gwariant, yn enwedig o ystyried y symiau mawr sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, mae cynllunio'r gwariant hwn yn gymhleth gan ei fod yn seiliedig ar y galw i raddau helaeth. Yn y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2016/17 a 2019/20, mae nifer yr israddedigion o Gymru wedi bod rhwng 81,760 ac 83,800. Yn ystod yr un cyfnod, fe gynyddodd nifer y myfyrwyr ôl-raddedig o 15,355 i 18,865<sup>7</sup>.
- 34 Ym mis Mehefin 2020, bu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn trafod pryderon ynghylch y risg o ostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr oherwydd pandemig COVID-19<sup>8</sup>. Fodd bynnag, mae data a gyhoeddwyd yn dynodi nad yw'r pandemig wedi cael yr effaith ar niferoedd y myfyrwyr yr oedd y Pwyllgor yn ei hofni, ddim eto o leiaf.

---

5 Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, Medi 2017

6 I gyfrifo'r newidiadau hyn mewn termau real rydym wedi defnyddio datchwyddwyr Trysorlys EM (Saesneg yn unig) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

7 Stats Cymru, Cofrestrïadau myfyrwyr o Gymru yn ôl blwyddyn, lefel a dull astudio, Ionawr 2021

8 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, COVID-19: Sesiwn Dystiolaeth ar Effaith COVID-19 ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach gyda Chynrychiolwyr Addysg Uwch, Mehefin 2020

- 35 Roedd gwybodaeth gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)<sup>9</sup> yn dangos, ar ddiwedd mis Mehefin 2020, bod mwy o ymgeiswyr i brifysgolion ledled y DU â chynnig pendant i ddechrau cwrs yn hydref 2020 nag ar yr un adeg y flwyddyn cynt. Ar gyfer Cymru yn unig, roedd nifer yr ymgeiswyr yn ddigynffwrdd i raddau helaeth (21,470 ym mis Mehefin 2019 a 21,330 ym mis Mehefin 2020) ac ym mis Ionawr 2021 roedd nifer y ceisiadau wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (18,430 ym mis Ionawr 2020 a 21,120 ym mis Ionawr 2021). Wrth gynllunio cyllid myfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio ystod o senarios ar gyfer tueddiadau yn niferoedd y myfyrwyr ac ar hyn o bryd nid yw'n rhagfynegi nac yn cynllunio ar gyfer unrhyw ostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr ar y cyfan mewn blynyddoedd yn y dyfodol<sup>10</sup>.


### Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cael popeth yn ôl sy'n ddyledus iddi mewn ad-daliadau ar fenthyciadau

- 36 Mae **Arddangosyn 10** yn dangos bod cyfanswm gwerth y benthyciadau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru wedi cynyddu'n gyson o £3.2 biliwn yn 2015-16 i £5.3 biliwn yn 2019-20. Y rheswm dros hyn yw bod benthyciadau newydd a llog wedi gwrthbwysu ad-daliadau dyledion a ddilëwyd.
- 37 Fodd bynnag, mae'r adenilladwyedd – y gyfran y mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y bydd yn ei hadennill – wedi bod yn lleihau dros yr un cyfnod. Y prif reswm dros y lleihad hwn yw bod newidiadau o ganlyniad i Adolygiad Diamond wedi golygu bod mwy o fyfyrwyr yn cymryd benthyciadau mwy sy'n llai tebygol o gael eu had-dalu'n llawn. Ar ddiwedd 2015-16, roedd Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y byddai'n adennill oddeutu 81% o'r benthyciadau a oedd yn dal yn ddyledus. Erbyn diwedd 2019-20, roedd hyn wedi gostwng i 65%, gan olygu, am bod £1 a oedd yn dal yn ddyledus i Lywodraeth Cymru, ei bod yn amcangyfrif y byddai'n adennill 65c.

9 UCAS, [Ffigyrau ymgeiswyr cylch 2020 – terfyn amser 30 Mehefin](#) (Saesneg yn unig)

10 Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld nifer y myfyrwyr a fydd yn ymgeisio am le mewn prifysgol, gan ddefnyddio data gan UCAS, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae'n defnyddio dull darbodus i sicrhau bod rhagolygon yn cynnwys digon o hyblygrwydd i allu ariannu codiadau annisgwyl yn y galw am gyllid myfyrwyr.

### Arddangosyn 10: symiau sy'n ddyledus gan gyn-fyfyrwyr a'r lefel ad-dalu a amcangyfrifir, rhwng 2015-16 a 2019-20



Ffynhonnell: Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, Nodyn 6 a phapurau gwaith ategols


- 38 Mae'r balans benthyciadau i fyfyrwyr y mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y bydd yn ei adennill - £3.5 biliwn yn 2019-20 – yn un o'r asedau mwyaf sydd wedi'u cofnodi yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae'n cynrychioli oddeutu 15% o gyfanswm balans asedau Llywodraeth Cymru o £24 biliwn. O ystyried maint yr ased hwn, mae'n bwysig bod amcangyfrifon Llywodraeth Cymru mor gadarn â phosibl.

- 39 Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu'n flaenorol at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd i ddarparu rhagor o fanylion am ei dull amcangyfrif a modelu<sup>11</sup>. I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru'n cyfrifo amcangyfrif ystadegol o'r arian y mae'n disgwyl iddo gael ei dalu'n ôl, yn seiliedig ar set gymhleth o dybiaethau ynghylch demograffeg benthycwyr, eu henillion yn y dyfodol, a thwf economaidd am ddegawdau yn y dyfodol. Mae'r cyfrifiadau'n deillio o fodel ariannol a ddarperir ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Adran Addysg Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n addasu'r model i sicrhau ei addasrwydd i Gymru.
- 40 Mae Archwilio Cymru'n cynnal asesiad lefel uchel o'r model fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o gyfrifon Llywodraeth Cymru. Daeth ein harchwiliad diwethaf yn 2019-20 i'r casgliad bod yr amcangyfrif a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru'n rhesymol ym mhob agwedd berthnasol.
- 41 Mae **Arddangosyn 11** yn dangos y strwythur llywodraethu ar gyfer cyllid myfyrwyr yn Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys dau grŵp sydd â gorchwyl i ragweld a modelu costau yn y dyfodol. Mae'r Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth i Fyfyrwyr yn trafod materion sy'n effeithio ar y rhagolygon ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys niferoedd y myfyrwyr a newidiadau i bolisi addysg uwch. Mae'r Grŵp Cyllidebu, Cyngori a Thechnegol ar gyfer Cyllid Myfyrwyr yn gwneud gwaith manwl mewn perthynas â newidiadau mewn polisi, modelu a chyfrifyddu. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Cyllid Myfyrwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo argymhellion o'r Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth i Fyfyrwyr a'r Grŵp Cyllidebu, Cyngori a Thechnegol ar gyfer Cyllid Myfyrwyr yn ogystal â thrafod materion sy'n effeithio ar gyllidebau, gwariant ac adroddiadau ariannol ym maes cyllid myfyrwyr. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Cyfarwyddwyr Cyllid Myfyrwyr yn datgan y dylai gwrdd bob chwarter, neu'n amlach yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, er mai dim ond dwywaith y mae wedi cwrdd yn y flwyddyn ddiwethaf.

---

11 Llywodraeth Cymru, Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 7 Ionawr 2021

### Arddangosyn 11: y strwythur llywodraethu ar gyfer cyllid myfyrwyr yn Llywodraeth Cymru



Ffynhonnell: Archwilio Cymru, seiliedig ar wybodaeth gan Lywodraeth Cymru



**Goruchwyliaeth  
Llywodraeth  
Cymru ar weinyddu  
cyllid myfyrwyr**

---

**03**

## Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn talu ychydig dros £20 miliwn y flwyddyn i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr i weinyddu cyllid myfyrwyr

- 42 Er nad yw Llywodraeth Cymru'n gwneud taliadau'n uniongyrchol i fyfirwyr, rhaid iddi oruchwylio gwaith y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru i sicrhau bod y system yn cael ei gweinyddu'n effeithiol a'i bod yn sicrhau gwerth am arian. Rhwng 2018-19 a 2020-21, talodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £20 miliwn y flwyddyn – a chyfanswm o £68.8 miliwn – i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr i weinyddu cyllid myfyrwyr ar ei rhan (**Arddangosyn 12**).

### Arddangosyn 12: cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr i weinyddu cyllid myfyrwyr, rhwng 2018-19 a 2020-21

2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm
£23.6 miliwn	£21.8 miliwn	£23.4 miliwn	<b>£68.8 miliwn</b>

Sylwer: nid yw'r swm y mae Llywodraeth Cymru'n ei dalu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr i weinyddu cyllid myfyrwyr yn swm sefydlog ac mae'n newid bob blwyddyn yn unol â'r hyn y gofynnir i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ei gyflawni. Mae'r arian a restrir yn cwmpasu cost gweinyddu o ddydd i ddydd a chost prosiectau newid y gofynnir amdanynt gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r arian a restrir yn cynnwys unrhyw daliadau a wneir trwy fenthyciadau neu grantiau i fyfirwyr.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Mae Llywodraeth Cymru'n cael peth sicrwydd o gyfranogi yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr

- 43 Fel un o gyfranddalwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, mae Llywodraeth Cymru'n cyfranogi yn nhrefniadau llywodraethu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr gyda'r llywodraethau eraill sy'n gyfranddalwyr. Yn gyffredin â llywodraethau eraill y DU, mae Llywodraeth Cymru'n penodi 'aseswr' i fynychu cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Nid yw'r aseswr yn aelod llawn o'r bwrdd, ond mae fwy neu lai'n sylwedydd ac yn gweithredu fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Mae gan yr aseswr fynediad at yr holl wybodaeth a, lywodraethu mewnol y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn ei defnyddio i oruchwylio'r broses gyflawni a goleuo prosesau penderfynu, er enghraifft mewn perthynas â chyllid, perfformiad y gwasanaeth a rheoli risg.



- 44 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw archwilydd allanol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Cynhaliwyd asesiad sylweddol o'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn 2019 hefyd trwy 'Adolygiad wedi'i Deilwra' gan Lywodraeth y DU<sup>12</sup>. Fe wnaeth yr Adolygiad wedi'i Deilwra fwrw golwg ar 'iechyd gweithredol' y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, pa un a oedd yn addas ar gyfer y diben, yn cael ei lywodraethu'n dda ac yn cael ei redeg yn effeithiol ac yn effeithlon. Canfu'r adolygiad fod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn cyrraedd y mwyafrif o'i dargedau ond amlygodd fwch o ran effeithlonrwydd a bod systemau TG yn hen ac yn cynyddu cymhlethdod a chostau. Amlygodd yr adolygiad amryw faterion staffio hefyd. Tynnodd sylw at gyfleoedd i wella gwasanaeth cwsmeriaid a'r gwerth am arian y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn ei ddarparu ac amlygodd gynlluniau ar gyfer rhaglen drawsnewid, sydd bellach yn y camau olaf o ran ei rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi bod y rhaglen drawsnewid eisoes wedi dwyn rhai gwelliannau i'r system.
- 45 Mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn darparu ffynhonnell sicrwydd arall. Yn 2020-21, darparodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth farn 'gymedrol' ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth o fewn y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Ac ym mis Gorffennaf 2021, adroddodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ar ganlyniadau ei hadolygiad blynyddol o gywirdeb taliadau cymorth a wnaed i fyfyrrwyr yn 2020-21. Mae'r ymarfer yn bwrw golwg ar sampl o daliadau cymorth myfyrrwyr a wnaed gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol ac yn darparu amcangyfrif o gyfradd gwallau ar gyfer rheoleidd-dra taliadau a gymeradwywyd gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru. Roedd y gyfradd gwallau net a amcangyfrifwyd yn seiliedig ar brofi sampl yn 2020-21 yn 2.23%, yr oedd 2.02% ohonynt yn cael eu hystyried yn dwyll a 0.21% yn wallau gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr<sup>13</sup>.

---

12 Adran Addysg Llywodraeth y DU, [Adolygiad wedi'i Deilwra: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr](#), Gorffennaf 2019

13 Cyfrifwyd y gyfradd gwallau net yn 2020-21 o sampl o 200 o drafodion â gwerth samplu ar y cyfan o oddeutu £400,000. Cafodd y ffigwr hwn ei allosod yn erbyn yr £1.2 biliwn mewn taliadau a wnaed gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru am gymorth i fyfyrrwyr addysg uwch ar ran Llywodraeth Cymru, gan arwain at ordaliad trwy wall o £25.9 miliwn ar y cyfan yn ôl yr amcangyfrif.

## **Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi bod ganddi lais cyfartal yn y broses o bennu amcanion polisi ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ond nid oes sancsiynau gwirioneddol am beidio â chyflawni**

- 46 Fel cyfranddaliwr, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i ddatblygu amcanion polisi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, gan ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi perthnasol ledled y gwahanol rannau o'r DU. Gyda'i gilydd, mae'r llywodraethau hefyd yn pennu'r adnoddau blynyddol y mae ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr eu hangen ac yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer monitro effeithiolrwydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Mae'r llywodraethau'n cydweithio i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn trwy Gydbwyllgor Pedrochrog.
- 47 Mae'r Cydbwyllgor Pedrochrog yn cwrdd yn fisol i gyflawni ei swyddogaethau sy'n cynnwys, lle bynnag y bo'n bosibl, sicrhau bod datblygiad polisi'n gyson ar draws pob un o'r pedair llywodraeth ac na roddir gormod o ffafriaeth i'r un cyfranddaliwr. Caiff y Cydbwyllgor Pedrochrog ei gadeirio gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Adran Addysg Llywodraeth y DU, sy'n gweithredu fel 'brocer gonest', rôl a gyflwynwyd i sicrhau tegwch a niwtraliaeth o ran gwneud penderfyniadau. Nid yw'r brocer gonest yn mynychu fel un o gynrychiolwyr Llywodraeth y DU; caiff y swyddogaeth hon ei chyflawni gan gynrychiolydd arall.
- 48 Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n effeithiol gyda llywodraethau eraill y DU, ac yn teimlo'i bod yn cael ei thrin fel aelod cyfartal er ei bod yn gyfranddaliwr cymharol fach. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y bu achosion yn y gorffennol pan fo Llywodraeth Cymru wedi teimlo nad oedd yn cael ei thrin fel aelod cyfartal, ond bod y sefyllfa wedi gwella dros amser gan bod trefniadau wedi aeddfedu a thrwy feithrin perthnasoedd cadarnhaol â llywodraethau eraill y DU a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr.
- 49 Ar ran pob un o'r pedair llywodraeth yn y DU, mae'r Adran Addysg yn anfon Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol at y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Mae'r cytundeb yn nodi'r hyn y disgwylir i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ei gyflawni. Mae'n nodi blaenoriaethau'r cyfranddalwyr am y flwyddyn, yr adnoddau y cadarnhawyd y byddant yn cael eu dirprwyo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a'r mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt ac unrhyw dargedau cysylltiedig.

- 50 Mae'r Cydbwyllgor Pedrochrog yn cael dangosfwrdd sy'n ystyried y modd y cyflawnwyd blaenoriaethau a newidiadau polisi y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol. Mae'r dangosfwrdd yn darparu dealltwriaeth pa un a yw blaenoriaethau ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni'n amserol ac unrhyw danwariant a allai ddigwydd o ganlyniad i oedi wrth gyflawni prosiectau. Mae gan y Cydbwyllgor Pedrochrog broses ar gyfer penderfynu sut i ddefnyddio unrhyw danwariant yn ystod y flwyddyn ar flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.
- 51 Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw sancsiynau gwirioneddol y gall eu cymryd pe bai'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn tanberfformio neu'n peidio â chyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Y rheswm dros hyn yw mai un o gyfranddalwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yw Llywodraeth Cymru ac felly y byddai cadw taliadau yn ôl neu sancsiynau ariannol eraill yn debygol o gael effeithiau uniongyrchol ar allu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr i ddarparu gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr o Gymru.

### **Mae trefn Llywodraeth Cymru ar gyfer goruchwyllo'r modd y gweinyddir cyllid myfyrwyr yn gweithio'n dda ond yn dibynnu'n helaeth ar nifer fach o swyddogion**

- 52 Tîm Noddi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn Llywodraeth Cymru sy'n goruchwyllo'r broses o reoli cyllid myfyrwyr o ddydd i ddydd. Mae'r tîm yn gweithio gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru i fonitro trefniadau cyflawni a pherfformiad mewn amser real ac ymdrin â materion o ran ansawdd a chwynion gan fyfyrwyr.
- 53 Mae gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Myfyrwyr Cymru gyfarfodydd 'cadw mewn cysylltiad' pythefnosol lle maent yn adolygu nifer y galwadau a gafwyd, canran y galwadau a atebwyd, nifer y ceisiadau a gafwyd, a gymeradwywyd ac a dalwyd, cyflymder prosesu ceisiadau a chymau gweithredu i liniaru ôl-groniadau sy'n ymffurfio, cwynion gan fyfyrwyr ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth. Arferai'r cyfarfodydd hyn fod yn rhai wythnosol. Fe benderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020 y byddai'n cynnal cyfarfodydd llai mynych am ei bod yn fodlon gan mwyaf ar berfformiad Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu'n rheolaidd gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru y tu allan i'r cyfarfodydd pythefnosol ac mae'r ddau barti'n dweud bod ganddynt berthnasoedd da a threfniadau cyfathrebu effeithiol i ymdrin â materion wrth iddynt godi.

- 54 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ei Hisadran Addysg Uwch wedi hen ennill ei phlwyf gydag aelodau hirsefydlog o'r tîm sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad sylweddol. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfrifoldeb am gynnal y berthynas â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru'n cael ei ysgwyddo gan nifer fach o staff. Mae hyn yn achosi risg y gallai absenoldeb neu ymadawiad staff amharu ar waith y tîm ac y gallai olygu na fyddai materion cyllidebol ac o ran perfformiad yn cael eu hystyried mewn modd amserol. Mae trefniadau cyflenwi wedi gweithio'n dda yn flaenorol ond mae swyddi gwag hirdymor yn y tîm oherwydd secondiadau wedi ychwanegu pwysau ar aelodau eraill o'r tîm.
- 55 Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r berthynas o ddydd i ddydd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr, mae gan Lywodraeth Cymru hefyd Dîm Polisi ac Is-ddeddfwriaeth Cymorth Myfyrwyr sy'n goruchwyllo newidiadau polisi a gweithredu rheoleiddiol, ynghyd â Thîm Ystadegau a Chyllid Addysg Uwch sy'n ystyried rhagolygon a thueddiadau. Rhoddir cymorth anuniongyrchol hefyd trwy dimau llywodraethu adrannol ehangach sy'n goruchwyllo'r broses o reoli cyllidebau mewnol a gofynion adrodd.

## Ceir rhai cyfyngiadau i'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n craffu'n gyffredinol ar berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr

### Mae gweithgarwch i graffu'n ffurfiol ar berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn canolbwyntio ar ddata ar gyfer y DU gyfan ond mae Llywodraeth Cymru wedi gwella'i defnydd o ddata sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ar lefel weithredol

- 56 Mae **Atodiad 2** yn nodi'r rhestr lawn o ddangosyddion perfformiad allweddol a mesurau cysylltiedig y mae'n ofynnol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr adrodd yn eu herbyn. Y prif ddisgwyliadau ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr a nodir yn y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol ar gyfer 2020-21 yw:
- darparu gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn seiliedig ar arlwy ddigidol gynyddol, gan leihau cyswllt y gellir ei osgoi, a sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau diogelu data ac arfer gorau o ran seiberddiogelwch.
  - trwy bob cylch academaidd, darparu cynhyrchion presennol yn ddiogel, yn effeithiol, yn gynaliadwy, ac yn effeithlon.
  - cynyddu cydymffurfiaeth o ran ad-daliadau, gweinyddu'r llyfr benthyciadau'n effeithiol ac yn effeithlon; yn ogystal â chyflawni rhwymedigaethau ar ôl gwerthu benthyciadau a chefnogi gwerthiannau yn y dyfodol.
  - rheoli prosiectau newid mewn modd amserol, gan daro cydbwysedd rhwng y gost ymarferol isaf a'r angen i gyflawni deilliannau ansawdd a manteision y cytunwyd arnynt.

- gwella rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth â rheolaethau'r llywodraeth a rheolaethau eraill, trwy weithlu a reolir yn dda, sy'n fedrus, yn ymgysylltiol ac yn cael ei wobrwyo'n briodol.
- 57 Mae bwrdd y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn ystyried perfformiad yn erbyn y mesurau yn y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol ar sail chwarterol. Mae'r wybodaeth a gaiff ei hystyried yn wybodaeth ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn ei gyfanrwydd ac nid yw'r bwrdd yn cael data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru i ystyried a yw perfformiad ar gyfer Cymru'n dda ac yn cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o'r DU. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr wedi cydnabod, gan bod y mwyafrif o'r gweithgarwch cyllid myfyrwyr yn ymwneud â myfyrwyr yn Lloegr, bod risg y gallai effaith data ar gyfer Lloegr ar y darlun cyffredinol gelu materion yn y trefniadau cyflawni mewn gwledydd eraill. Mae gwelliannau yn yr arfaeth, gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn datblygu dangosfwrdd newydd i ddarparu rhagor o fanylion ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU.
- 58 Fe barhaodd y broses ar gyfer monitro perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn 2020-21. Fodd bynnag, fe benderfynodd y Cydbwyllgor Pedrochrog atal y trefniadau perfformiad ffurfiol a nodir yn y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol oherwydd pwysau ychwanegol COVID-19 a'r effeithiau posibl ar ddarparu. Gan hynny, ni osodwyd unrhyw dargedau ffurfiol ar gyfer mesurau 2020-21 (**Atodiad 2**), er bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr wedi parhau i fonitro'i berfformiad yn erbyn set o dargedau mewnol. Mae **Atodiad 3** yn darparu crynodeb o berfformiad Cyllid Myfyrwyr Cymru yn seiliedig ar y data a ddarparwyd ar ein cyfer.
- 59 Yn ogystal ag adrodd a chraffu'n ffurfiol ar berfformiad sy'n digwydd trwy drefniadau llywodraethu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal cyfarfodydd gweithredol eraill gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru a rhanddeiliaid eraill, sy'n rheolaidd yn defnyddio data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Y ddau brif gyfarfod yw:
- a) cyfarfodydd cadw mewn cysylltiad pythefnosol – mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael diweddariad ar lafar ar faterion perfformiad ac i ystyried unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt. Tan fis Rhagfyr 2020, roedd y data hwn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd heb i Lywodraeth Cymru gael adroddiad ffurfiol ar ddata. Bellach darperir adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru cyn y cyfarfod.

- b) cyfarfodydd misol y Grŵp Gweithredol Rhanddeiliaid – mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr, Adran Addysg Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid allweddol eraill i drafod pethau megis nifer y ceisiadau, amseroedd prosesu a nifer y cwynion ar gyfer Cymru. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn darparu data a graffiau i ddangos perfformiad dros amser. Trwy ddadansoddi data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ar gwynion, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu amlygu materion sy'n ymwneud yn benodol â Chymru a rhoi gwelliannau ar waith, gan gynnwys cyflwyno swyddogaeth trin cwynion newydd sy'n benodol i Gymru.

**Gallai Llywodraeth Cymru wneud defnydd gwell o'r wybodaeth y mae'n ei chael trwy adrodd ar ddata tuag i fyny trwy ei strwythur llywodraethu i ystyried a yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn sicrhau gwerth am arian**

- 60 Er bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad i adnabod materion a mynd i'r afael â meysydd sy'n achosi pryder, nid yw'n adrodd ar berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr na Cyllid Myfyrwyr Cymru trwy'r trefniadau llywodraethu a ddisgrifir ym **mharagraff 41** ac yn **Arddangosyn 11** ar hyn o bryd. Nid yw ychwaith yn cynnwys gwybodaeth o'r fath am berfformiad trwy adroddiadau chwarterol Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru.
- 61 Mae hyn yn golygu nad oes rhyw lawer o graffu ehangach o fewn strwythurau llywodraethu Llywodraeth Cymru i ganfod a yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn cyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol ac a yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn sicrhau gwerth am arian. Ni roddir rhyw lawer o ystyriaeth ychwaith i'r cwestiwn a yw'r modd y gweinyddir y system cyllid myfyrwyr yng Nghymru'n cyfrannu'n effeithiol tuag at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch.

**Mae cyfle i gynnwys myfyrwyr mewn modd mwy ystyrlon wrth gynllunio a monitro'r modd y gweinyddir cyllid myfyrwyr**

- 62 Mae ystyried anghenion a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau'n hollbwysig i gynllunio a monitro unrhyw wasanaeth cyhoeddus. Gan hynny, dylai cynnwys myfyrwyr ac ymgysylltu â hwy fod yn hanfodol i weithrediad Cyllid Myfyrwyr Cymru.

- 63 Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn cynnal arolwg chwarterol o fodlonrwydd myfyrwyr ledled y DU ac yn adrodd ar brofiad myfyrwyr o ymgeisio am gymorth ariannol, o ryngweithio â staff y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a'u bodlonrwydd ar y broses taliadau ac addaliadau. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod sut orau i ailddylunio'r arolwg hwn i gofnodi profiadau myfyrwyr yn y ffordd orau. Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr yn cwblhau arolwg ar ddiwedd galwad ffôn neu ymholiad trwy'r e-bost, sy'n creu risg mai dim ond gwybodaeth am brofiadau myfyrwyr sydd wedi dioddef problem neu sydd â chwyn i'w chyfleu fydd yn cael ei chasglu. Byddai dull ehangach, i gasglu nifer fwy o ymatebion, yn darparu darlun gwell o brofiadau myfyrwyr o'r broses o ymgeisio am gymorth ariannol a'i gael o'i dechrau i'w diwedd. Rydym yn nodi bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr wedi cymryd y cam cadarnhaol yn ddiweddar i sefydlu Panel Cwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr gyda thri chynrychiolydd o Gymru.
- 64 Yn fwy eang, mae gan Lywodraeth Cymru drefniadau i ymgysylltu â grwpiau myfyrwyr buddiant arbennig ac ymgynghori â hwy ynghylch newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth ariannol. Fodd bynnag, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ailfeddwl sut y caiff pobl eu cynnwys yn y broses o lunio gwasanaethau cyhoeddus. Mae cyfle i gynnwys myfyrwyr yn gynharach yn y broses benderfynu i roi mewnwelediad gwell i Lywodraeth Cymru ynglŷn â barn a phrofiadau myfyrwyr, yn hytrach nag ymgynghori'n hwyrach yn y broses pan fo cynigion i newid y pecyn cymorth eisoes wedi cael eu drafftio.

### **Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i symud i fwrdd oddi wrth y model sy'n golygu bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn gweinyddu cymorth i fyfirwyr ar ei rhan**

- 65 Fe gododd yr Adolygiad wedi'i Deilwra gan Lywodraeth y DU (**paragraff 44**) nifer o argymhellion ar gyfer gwella yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru'n ystyried dewisiadau eraill yn lle'r model cyflawni cyfredol sy'n golygu bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn gweinyddu cymorth i fyfirwyr ar ei rhan.
- 66 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru waith cwmpasu fel rhan o 'Adolygiad Darganfod' i fapio'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ar ei rhan ac i nodi camau nesaf posibl ar gyfer archwilio modelau amgen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, gyda Llywodraeth Cymru'n fodlon gan mwyaf ar y gwasanaeth y mae'n ei gael gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, nid oes cynlluniau i roi ystyriaeth bellach i fodolau amgen.



# Atodiadau

---

- 1 Ymagwedd a dulliau archwilio
- 2 Dangosyddion perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, 2019-20 a 2020-21
- 3 Perfformiad Cyllid Myfyrrwyr Cymru



# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

Nod ein hadolygiad oedd darparu trosolwg lefel uchel o gyllid myfyrwyr yng Nghymru, ac ystyried a yw Llywodraeth Cymru'n mynd ati'n effeithiol i oruchwylio'r modd y gweinyddir cyllid myfyrwyr. Rydym wedi adeiladu ar beth o'r dadansoddiad ariannol yn ein sylwebaeth ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru<sup>14</sup>. Mae **Arddangosyn 13** yn nodi ein dulliau archwilio.

Fe ganolbwyntiom ni ar rôl Llywodraeth Cymru. Nid ydym wedi ceisio dod i'n casgliadau ein hunain ynghylch effeithiolrwydd gwaith y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru, er bod ein hadroddiad yn adlewyrchu gwybodaeth am berfformiad a ddarparwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a'n bod wedi cyfeirio at yr Adolygiad wedi'i Deilwra a ddarparodd asesiad ar y cyfan o berfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn 2019. Caiff y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yr ydym wedi cadw mewn cysylltiad â hi yn ystod ein gwaith.

Nid ydym wedi gwerthuso a yw'r cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fyfirwyr yn sicrhau gwerth am arian yng nghyd-destun amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfranogi mewn addysg uwch.

## Arddangosyn 13: dulliau archwilio

<p>Adolygu dogfennau a data</p>	<p>Fe wnaethom adolygu dogfennau sy'n ymwneud â'r cefndir polisi addysg uwch yng Nghymru, cofnodion fforymau perthnasol, cofrestrau risg, y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol, adroddiadau monitro, adroddiadau archwilio mewnol a.y.b.</p> <p>Fe wnaethom hefyd adolygu data mewn perthynas â'r galw am gyllid myfyrwyr, gwariant Llywodraeth Cymru, a pherfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Cyfweliadau ac arsylwadau</p>	<p>Fe gynhaliom ni nifer fach o gyfweliadau â staff sy'n rhan o weinyddu a goruchwylio'r system cyllid myfyrwyr, gan gynnwys staff o Lywodraeth Cymru, y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru.</p> <p>I gael dealltwriaeth well am brofiadau myfyrwyr a phrifysgolion, fe siaradom ni gyda chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (Cymru) a Prifysgolion Cymru. Fe wnaethom hefyd drafod themâu'r cwynion yn y gorffennol mewn perthynas â chyllid myfyrwyr gyda swyddogion o swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Yn olaf, fe arsylwom ni ar nifer fach o gyfarfodydd a oedd yn gysylltiedig â goruchwylio, llywodraethu a rheoli cyllid myfyrwyr yng Nghymru.</p>

## **2 Dangosyddion perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, 2019-20 a 2020-21**

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol a mesurau cysylltiedig y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn 2019-20 a 2020-21. Ar ran pob un o'r pedair llywodraeth yn y DU, mae'r Adran Addysg yn rhoi Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr.

Yn 2019-20, roedd y Cytundeb Perfformiad ac Adnoddau Blynyddol yn nodi casgliad o fesurau a thargedau cysylltiedig i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr eu cyflawni wrth ddarparu cyllid myfyrwyr, y cafodd rhai ohonynt eu hadnabod fel dangosyddion perfformiad allweddol penodol. Roedd Cytundeb 2020-21 hefyd yn nodi casgliad o fesurau, ond ni chafodd yr un ohonynt ei nodi ar wahân fel dangosydd perfformiad allweddol ac ni phennwyd unrhyw dargedau oherwydd pwysau ychwanegol COVID-19 a'r effaith bosibl ar ddarparu.

Nid yw rhai o'r mesurau'n berthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon am nad yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn darparu gwasanaeth llawn, o ddechrau'r broses i'w diwedd, ar gyfer cyllid myfyrwyr yn y gwledydd hyn.

**Darparu gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn seiliedig ar arlwy ddigidol gynyddol, gan leihau cyswllt y gellir ei osgoi, a sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau diogelu data ac arfer gorau o ran seiberddiogelwch.**

2019-20		2020-21	
Mesur	Targed	Mesur	Targed
Nifer cyfartalog y galwadau sy'n dod i mewn am bob cais (Dangosydd Perfformiad Allweddol)	Targed: 2.42	Canran y cwsmeriaid ymgeisio i dalu sy'n fodlon	Dim targed
Canran y cwsmeriaid ymgeisio i dalu sy'n fodlon	Targed: $\geq 85\%$	Canran y cwsmeriaid ad-dalu sy'n fodlon	Dim targed
Canran y cwsmeriaid ad-dalu sy'n fodlon	Targed: $\geq 73.54\%$		
Nifer y cwynion a dderbyniwyd am bob 10,000 o gwsmeriaid ymgeisio i dalu	Targed: $\leq 1$		
Nifer y cwynion a dderbyniwyd am bob 10,000 o gwsmeriaid ad-daliadau	Targed: $\leq 0.2$		
Canran y ceisiadau gan israddedigion a gwblhawyd heb alwad ffôn i mewn	Targed: $\geq 66\%$		

**Trwy bob cylch academiaidd, darparu cynhyrchion presennol yn ddiogel, yn effeithiol, yn gynaliadwy, ac yn effeithlon.**

2019-20		2020-21	
Mesur	Targed	Mesur	Targed
Canran y ceisiadau gan israddedigion a broseswyd o fewn 70 diwrnod calendr rhwng cyflwyno'r cais a derbyn cynnig cyntaf o hawlogaeth i fenthyciad/ grant gan y cwsmer (Dangosydd Perfformiad Allweddol)	Targed 91%	Canran y ceisiadau gan israddedigion a broseswyd o fewn 70 diwrnod calendr rhwng cyflwyno'r cais a derbyn cynnig cyntaf o hawlogaeth i fenthyciad/ grant gan y cwsmer	Dim targed
Canran y galwadau a atebwyd	Targed: 90%	Amseroldeb Galwadau: Canran y galwadau a atebwyd o fewn 180 eiliad	Dim targed
Canran y ceisiadau a broseswyd yn gywir y tro cyntaf heb yr angen am weithio drwyddynt eto	Targed: monitro yn ystod 2019-20 i hwn fod yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol yn 2020-21	Ansawdd Prosesu / Cywir y tro cyntaf:	Dim targed
		Ansawdd Prosesu / Cywir y tro cyntaf: Canran y ceisiadau a broseswyd yn gywir y tro cyntaf heb yr angen am weithio drwyddynt eto	Dim targed

**Cynyddu cydymffurfiaeth o ran ad-daliadau, gweinyddu'r llyfr benthyciadau'n effeithiol ac yn effeithlon; yn ogystal â chyflawni rhwymedigaethau ar ôl.**

2019-20		2020-21	
Mesur	Targed	Mesur	Targed
Canran y benthycwyr yn y sianel ad-dalu gywir (Dangosydd Perfformiad Allweddol)	Targed: $\geq 89.5\%$	Canran y benthycwyr yn y sianel ad-dalu gywir	Dim targed
Canran y garfan sy'n dod i mewn o gwsmeriaid ad-dalu a gafodd eu paru'n llwyddiannus â chofnodion CaThEM	Targed: $\geq 97\%$ erbyn diwedd y flwyddyn	Canran y garfan sy'n dod i mewn o gwsmeriaid ad-dalu a gafodd eu paru'n llwyddiannus â chofnodion CaThEM.	Dim targed

**Rheoli prosiectau newid mewn modd amserol, gan daro cydbwysedd rhwng y gost ymarferol isaf a'r angen i gyflawni deilliannau ansawdd a manteision y cytunwyd arnynt.**

2019-20		2020-21	
Mesur	Targed	Mesur	Targed
Canran y prosiectau newid sydd ar amser (Dangosydd Perfformiad Allweddol)	Targed: 80%	Canran y prosiectau newid Evolve sydd ar amser	Dim targed
Canran y prosiectau newid sydd o fewn y gyllideb (unwaith y mae'r cynllun busnes wedi'i gymeradwyo)	Targed: $\geq 80\%$	Canran y prosiectau newid Polisi sydd ar amser	Dim targed
Adrodd wrth gyfranddalwyr yn fisol am y ganran o gyfanswm y manteision a wireddwyd	Dim targed		

**Gwella rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth â rheolaethau'r llywodraeth a rheolaethau eraill, trwy weithlu a reolir yn dda, sy'n fedrus, yn ymgysylltiol ac yn cael ei wobrwyo'n briodol.**

2019-20		2020-21	
Mesur	Targed	Mesur	Targed
Alldro diwedd blwyddyn i fod o fewn y cyllidebau cymeradwy, yn amodol ar y goddefiannau canlynol (Dangosydd Perfformiad Allweddol)	Targed: +0% / -10% ar gyfer y Terfyn Gwariant Adrannol Gweinyddu a +/- 5% ar gyfer y Terfyn Gwariant Adrannol Rhaglen a Chyfalaf	Alldro diwedd blwyddyn i fod o fewn y cyllidebau cymeradwy, yn amodol ar y goddefiannau canlynol.	Targed: +0% / -10% ar gyfer y Terfyn Gwariant Adrannol Gweinyddu a +/- 5% ar gyfer y Terfyn Gwariant Adrannol Rhaglen a Chyfalaf
Nifer yr ymadawyr fel canran o'r gweithlu ar y cyfan (cyfradd trosiant) (Dangosydd Perfformiad Allweddol)	Targed: $\geq 18\%$	Canran y gweithlu sy'n ymateb yn gadarnhaol i ymgysylltu a/neu arolygon pwls	Dim targed

### 3 Perfformiad Cyllid Myfyrwyr Cymru

Mae ein dadansoddiad lefel uchel o ddata ar berfformiad Cyllid Myfyrwyr Cymru'n awgrymu bod myfyrwyr o Gymru'n gwneud mwy o alwadau ffôn y gellid eu hosgoi i ategu eu cais na myfyrwyr o Loegr. Yn 2019-20 a 2020-21, roedd Cyllid Myfyrwyr Cymru'n gyson yn cael nifer uwch o alwadau ffôn gan fyfyrwyr am bob cais nag yr oedd Student Finance England (SFE) a Cyllid Myfyrwyr Cymru ar y cyd yn eu cael. Bob mis yn ystod 2020-21, ni chyrrhaeddodd Cyllid Myfyrwyr Cymru ei darged mewnol ar gyfer y dangosydd hwn. Gostyngodd perfformiad yn ystod 2020-21 mewn perthynas â chanran y galwadau a atebwyd gan Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd, gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru'n cyrraedd ei darged mewnol mewn dim ond 6 o'r 12 mis yn 2020-21.

Fodd bynnag, dengys y data fod ceisiadau israddedig yn cael eu prosesu'n gyflymach yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Yn 2019-20 a 2020-21, mae canran y ceisiadau a gaiff eu prosesu mewn 70 diwrnod calendr<sup>15</sup> wedi bod yn gyson yn uwch yn Cyllid Myfyrwyr Cymru nag yn SFE a Cyllid Myfyrwyr Cymru ar y cyd. Cyrhaeddodd Cyllid Myfyrwyr Cymru ei darged mewnol ar gyfer y dangosydd hwn mewn 8 o'r 12 mis yn 2020-21.

Dengys **Arddangosyn 14** fod bodlonrwydd cwsmeriaid ar y gwasanaeth ad-dalu yn 2018-19 a 2019-20 yn weddol uchel, gan gyrraedd anterth o 86% ym mis Medi 2018. Fodd bynnag, roedd dirywiad amlwg o fis Ebrill 2020 tan fis Rhagfyr 2020 pan ostyngodd bodlonrwydd i isafbwynt o 32%, cyn i'r sefyllfa wella'n gynnar yn 2021. Dengys **Arddangosyn 15** fod dirywiad bach ar y cyfan wedi bod mewn bodlonrwydd ar y gwasanaeth Ymgeisio i Dalu yng Nghymru rhwng 2018-19 a 2020-21, a oedd yn amrywio rhwng 71% a 90%.

---

<sup>15</sup> O'r dyddiad y cyflwynir y cais i'r dyddiad y caiff y cwsmer y cynnig cyntaf o hawlogaeth i fenthyciad/grant.

### Arddangosyn 14: bodlonrwydd cwsmeriaid ar y gwasanaeth ad-dalu




Sylwer: mae gwasanaeth ad-dalu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn ymwneud â chyn-fyfrwyr sydd wedi dechrau ad-dalu eu benthyciadau i fyfrwyr.

Ffynhonnell: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr



### Arddangosyn 15: bodlonrwydd ar y gwasanaeth Ymgeisio i Dalu



Sylwer: mae gwasanaeth Ymgeisio i Dalu (A2P) y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn ymwneud â'r holl ymgeiswyr am gyllid myfyrwyr, yn llwyddiannus ac aflwyddiannus.

Ffynhonnell: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	9 Rhagfyr 2021
<b>Pwnc / Testun:</b>	Cod Llywodraethu Lleol Drafft
<b>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</b>	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid 01248 752502 <a href="mailto:CarysEdwards@ynysmon.gov.uk">CarysEdwards@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Gethin Morgan Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad 01248 752511 <a href="mailto:GethinMorgan@ynysmon.gov.uk">GethinMorgan@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn nodi dull y Cyngor o gyflawni llywodraethu da.  Cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Lleol i'r Cyngor.	

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.
2. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
3. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

## Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Lleol Drafft.
5. Bod Aelodau'r Pwyllgor, os ydynt yn dymuno, yn cynnig mân newidiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol Drafft cyn iddo gael ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Mawrth 2022.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Tudalen 160

# Cod Llywodraethu Lleol

Drafft Rhagfyr 2021

## Cynnwys

Beth yw Llywodraethu Corfforaethol? .....	3
Beth yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol? .....	3
Sut ydyn ni'n dangos cydymffuriad? .....	5
Ymrwymadau i'r Egwyddorion Llywodraethu .....	7
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol .....	7
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid .....	9
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.....	12
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu .....	14
Egwyddor F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref .....	20
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio.....	23
Y Chwe Thema Allweddol.....	25

## Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system lle mae awdurdodau lleol yn cyfarwyddo ac yn rheoli eu swyddogaethau a chysylltu â'u cymunedau. Mae'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol didwylledd a chynwysoldeb, uniondeb ac atebolrwydd ynghyd â'r cysyniad troswaol o arweinyddiaeth. Mae'n system ryng-gysylltiedig sy'n dwyn ynghyd y set sylfaenol o ofnyion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli.

Mae Fframwaith Rhyngwladol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol yn nodi:

*“Er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, rhaid i gyrrff llywodraethu ac unigolion sy'n gweithio i endidau'r sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu endid wrth weithredu er budd y cyhoedd bob amser.”*

Mae'r Cyngor yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn dull amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor a thrwyddynt, rydym yn atebol i'n cymunedau ac yn ymwneud â hwy. Y cynsail sylfaenol yw:



## Beth yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol?

Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Yr egwyddorion sefydledig yw:

### Egwyddor A

- Ymddwyn yn ddiwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol

### Egwyddor B

- Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

### Egwyddor C

- Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

### Egwyddor D

- Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu

### Egwyddor E

- Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo

### Egwyddor F


- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

### Egwyddor G

- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu. Mae [Cynllun y Cyngor](#) wedi bod yn ei le ers 2017 ac mae'n rhoddi pwyslais ar ein trefniadau llywodraethu fel modd o gyflawni allbynnau'r cynllun. Gellir alinio'r rhain â'r saith egwyddor graidd yn fframwaith CIPFA/SOLACE.

Mae'r Cyngor yn anelu at gyflawni safonau llywodraethu da drwy lynu wrth y saith egwyddor graidd uchod a hefyd wrth yr egwyddorion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Sylfaen Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.



*Ffynhonnell: Delivering Good Governance in Local Government Guidance Notes for Welsh Authorities (2016 Edition)*

## Sut ydyn ni'n dangos cydymffurfiad?

Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn adrodd yn erbyn ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd. Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiad â'r polisïau, y gweithdrefnau, y deddfau a'r rheoliadau tra bod y swyddog Adran 151 yn cynghori ar bob mater ariannol, yn sicrhau bod cofnodion ariannol cywir yn cael eu cadw a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau sy'n cynnwys:
  - gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
  - archwilio mewnol, lle mae'i gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys rheoli risg, yn unol â'r strategaeth archwilio fewnol flynyddol, ac sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod uwch swyddogion yn mynd i'r afael â Materion / Risgiau y cytunwyd arnynt;
  - yr archwiliad blynyddol o Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
  - gwaith Pwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor a Phwyllgorau eraill, gan gynnwys ei bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau;
  - barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor, ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygwyr;

- Monitro gwelliant a pherfformiad yn rheolaidd yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'i strategaethau ategol gan aelodau ac uwch reolwyr;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGC a'r panelau sgrwtini cysylltiedig;
- cyfres o gyfweiliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Cymeradwyr y polisïau allweddol, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Bydd yr asesiad cyffredinol ar gyfer yr adroddiad hwn yn dilyn y raddfa hunanasesu ganlynol —


<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol yn y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Cryfderau yn gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Mae canlyniadau'r asesiad a'r adolygiad hwn, a wneir yn unol ag egwyddorion craidd y Cod, yn llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, a gyflwynir fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.



Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r Model 'Tair Llinell' fel y dangosir yn y raffeg isod, lle gellir defnyddio pob llinell i roi sicrwydd. Yna defnyddir ystod o weithgareddau sicrwydd o bob llinell amddiffyn i ddarparu darlun sicrwydd cadarn.

Tudalen 165



## Ymrwymïadau i'r Egwyddorion Llywodraethu

**Egwyddor A:** Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymïad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol

**Rhesymeg:** Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am faint y maent yn ei wario, ond hefyd am y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau sydd yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau y maent wedi'u cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol, yn gyffredinol, y gallent ddangos priodoldeb eu holl weithredoedd a bod ganddynt fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol ac i barchu rheolaeth y gyfraith.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Proffesiynol a Threfnus

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd

### Ymddwyn yn ddidwyll

A1. Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle bod gweithredu er budd y cyhoedd yn cael ei arddangos yn weladwy ac yn gyson sydd o ganlyniad yn diogelu enw da'r Cyngor

A2. Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu egwyddorion neu weithredu neu weithredoedd safonol ar gyfer y Cyngor a'i staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar y Saith Egwyddor ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan')

A3. Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion gweithredol neu werthoedd safonol hyn fel fframwaith ar gyfer penderfynu a chymau gweithredu eraill

A4. Arddangos, cyfathrebu a gwreiddio'r egwyddorion gweithredu neu werthoedd safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol

- Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau ar waith fel rhan o'r [Cyfansoddiad](#) i sicrhau safonau uchel o ymddygiad – maent yn cynnwys
  - Cod ymddygiad i Aelodau
  - Cod ymddygiad i swyddogion
  - Protocolau ar gyfer cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion
  - Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu
  - Protocolau ynghylch rhoddion a lletygarwch
  - Protocolau rheolaeth wleidyddol
- Mae Aelodau'n derbyn hyfforddiant ar y codau ymddygiad cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gael eu hethol
- Mae'r Swyddog Monitro'n gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Safonau lle mae saith o'r naw aelod yn

<p><b>Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol</b></p> <p>A5. Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y Cyngor</p> <p>A6. Ategu ymddygiad personol gyda gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau'r Cyngor o ran diwylliant a dulliau gweithredu</p> <p>A7. Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol cytunedig</p> <p>A8. Sicrhau bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth allanol ar ran y Cyngor weithredu gydag uniondeb ac mewn cydymffurfiaeth â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y Cyngor</p> <p><b>Parchu rheolaeth y gyfraith</b></p> <p>A9. Sicrhau bod aelodau a staff yn arddangos ymrwymiad cryf i reol y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol</p> <p>A10. Creu'r amodau i sicrhau bod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol</p> <p>A11. Ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r pwerau llawn sydd ar gael er bydd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill</p> <p>A12. Mynd ati i ddelio ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoliadol mewn modd effeithio</p> <p>A13. Sicrhau bod achosion o lygreddigaeth a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol</p>	<p>benodiadau allanol, a'r gweddill yn aelodau etholedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerthoedd y Cyngor – 6 Thema Allweddol (nodir uchod yn y cyflwyniad)</li> <li>• <a href="#">Cod Ymddygiad Aelodau a Swyddogion</a></li> <li>• <a href="#">Pwyllgor Safonau</a></li> <li>• Rheolau Gweithdrefn Ariannol</li> <li>• Rheolau Gweithdrefn Contract</li> <li>• Polisi Atal Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad gyda chynlluniau ategol ar waith</li> <li>• Protocol ar <a href="#">roddion a lletygarwch a rhestr o fuddiannau</a></li> <li>• Datgan diddordebau cyn bob cyfarfod</li> <li>• Cynefino Staff</li> <li>• Polisi Chwythu'r Chwiban</li> <li>• Swyddog Monitro Dynodedig</li> <li>• Polisi Diogelwch TGCh</li> <li>• Seiber-ddiogelwch</li> <li>• Canllawiau GDPR</li> </ul>
--	--

## Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

**Rhesymeg:** Mae llywodraeth leol yn cael ei redeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir y gellir ymddiried ynddynt i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 3) Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned, 5) Wedi ymrwymo i bartneriaeth

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

Ffynonellau Sicrwydd

### Bod yn agored

B1. Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ein hymrwymiad i fod yn agored

B2. Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynghylch camau gweithredu, cynlluniau, y defnydd o adnoddau, rhagamcanion, allbynnau a chanlyniadau. Ein rhagdybiaeth o blaid bod yn agored. Os nad felly y mae, dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer yr ymresymiad dros gadw penderfyniad yn gyfrinachol

B3. Darparu ymresymiad a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac o fewn eglurhad i randdeiliaid a bod yn bendant ynghylch y meini prawf, y sail resymegol a'r ystyriaethau a ddefnyddir. Yn y man, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir

B4. Defnyddio ymgynghori ac ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i bennu'r myriadau/camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol

### Ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid sefydliadol

B5. Mynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol i sicrhau bod y pwrpas, yr amcanion a'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer bob

- Cynhelir cyfarfodydd y [Pwyllgor Gwaith](#) a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor.
- Darperir [cofnod o benderfyniadau](#) a dogfennau ategol.
- Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy'n darparu crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a'r dystiolaeth.
- Mae [Blaen Raglen Waith](#) gyfunol ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini ar gael i'r cyhoedd ac mae'n cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Mae amserlenni clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.
- Mae cyfarfodydd y [Pwyllgor Gwaith](#), y [Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion](#) a'r [Cyngor](#) yn cael eu gweddarddedu.
- Cyhoeddir adroddiadau blynyddol gan y Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cyhoeddir y [Ddogfen Gyflawni Flynyddol](#) sy'n amlinellu pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw drwy gydol y flwyddyn yn erbyn Cynllun y Cyngor

cysylltiad â rhanddeiliaid yn glir fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy

B6. Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol i ganiatáu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni canlyniadau'n fwy effeithiol

B7. Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir i newid ynghyd â diwylliant sy'n hybu ac yn derbyn her ymhlith partneriaid a bod gwerth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth yn elfen bendant

### **Ymgysylltu rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth unigol**

B8. Polisi clir o ran y math o faterion y bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ystyrlon yn eu cylch neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau bwriadedig

B9. Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod aelodau a swyddogion yn glir o ran eu rolau mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol

B10. Annog, casglu a gwerthuso barnau a phrofiadau cymunedau, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys cyfeiriad at anghenion i'r dyfodol

B11. Gweithredu mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhoi adborth er mwyn arddangos sut y cafodd eu barnau eu hystyried

B12. Cydbwysu adborth gan grwpiau rhanddeiliaid mwy gweithgar gyda grwpiau eraill o rhanddeiliaid i sicrhau eu cynwysoldeb

B13. Ystyried buddiannau cenedlaethau o drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i'r dyfodol

- Cyhoeddir yr [Adroddiad Perfformiad Blynyddol](https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-y-Cyngor-a-pherfformiad.aspx) <<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-y-Cyngor-a-pherfformiad.aspx>> i ddangos cynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor (Dogfen Gyflawni Flynyddol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Cyhoeddir [adroddiad monitro cerdyn sgorio](#) chwarterol i ddangos cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor ac amcanion y Gwasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn defnyddio'r [Wefan](#) a'r [Cyfryngau Cymdeithasol](#) i gyrraedd nifer cynyddol o drigolion a rhanddeiliaid.
- Mae arferion [Rhyddid Gwybodaeth](#) ar waith er mwyn cyhoeddi ymatebion i geisiadau.
- Daeth y [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd ac Ynys Môn](#) yn gorff statudol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhelir Arolwg Staff bob 3 blynedd a defnyddir y canlyniadau i lywio gwahanol agendâu ar draws y cyngor.
- Aelodau o [Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru](#)
- Aelodau o [fwrdd GwE](#)
- Partneriaid gydag Awdurdodau Lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd ar [Gydweithredfa Ranbarthol Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru](#)
- [Cynghorau Gogledd Cymru – Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng](#)
- Defnyddir y [Model Ymgysylltu Cymunedol](#) i wella'r ymagwedd gorfforaethol ar gyfer ymgysylltu cymunedol. Mae'r model hwn yn hanfodol er mwyn nodi'r cymunedau a'r grwpiau hynny fydd â diddordeb mewn derbyn cyfrifoldebau am ddarparu ar gyfer anghenion lleol yn eu cymunedau.

- Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn darparu dull ar draws y Cyngor ar gyfer ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid sydd yn lleihau dyblygu, yn sicrhau dull ar y cyd ar gyfer ymgysylltu ac yn gwella ein gwybodaeth seiliedig ar ardaloedd fel Cyngor.
- Mae'r bwrdd [Trawsnewid Prosesau Busnes](#) yn cynorthwyo'r Cyngor i gyfrannu at ei thema o '*ragori wrth ganolbwyntio ar gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau*' (6 Thema Allweddol) ac mae'n gyfrifol am bob agwedd o Wasanaeth Cwsmer ac mae'n cael ei ddefnyddio i fonitro a gwella'r profiad cwsmer i'n preswylwyr.
- Cynhelir ymarferion siopwr cudd i archwilio cydymffurfiaeth y Cyngor â'r [Safonau Iaith Gymraeg](#) a'r Siarter Gofal Cwsmer.
- Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu [gweddarlledu](#) a gellir edrych arnynt ar-lein am hyd at 6 mis yn dilyn y cyfarfodydd.
- Mae croeso i ddinasyddion fynychu cyfarfodydd cyhoeddus a threfnu i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
- Mae [gweithdrefn Gwynion Gorfforaethol](#) ar waith a chyhoeddir [ystadegau](#) ar y wefan yn chwarterol.
- Mae gweithdrefn gwynion ar wahân ar waith ar gyfer y [Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
- Gall rhanddeiliaid ymateb i [ymgynghoriadau](#) ar y wefan.

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

**Rhesymeg:** Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hyrwyddo diben yr awdurdod, cyfrannu at y manteision a'r canlyniadau a fwriedir, ac aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwysu gofynion sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 3) Yn canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r Gymuned, 5) Wedi ymrwymo i bartneriaeth, 6) Cyflawni

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

### Diffinio Canlyniadau

C1. Cael gweledigaeth glir sy'n ddatganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriadedig y Cyngor sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y Cyngor, ynghyd â chynllunio a phenderfyniadau eraill

C2. Pennu'r effaith fwriadedig ar, neu newidiadau ar gyfer rhanddeiliaid gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu gyfnod hwy

C3. Cyflawni canlyniadau diffiniedig ar sail gynaliadwy o fewn yr adnoddau a fydd ar gael

C4. Canfod a rheoli risgiau o ran cyflawni canlyniadau

C5. Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

- Mae [Cynllun y Cyngor](#) yn adlewyrchu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ac mae'n cwmpasu cyfnod yr etholiadau lleol o 5 mlynedd. Mae'n gynllun sy'n disgrifio blaenoriaethau yn eglur ac yn esbonio sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu safbwyntiau'r dinasyddion ac mae wedi ei alinio â'r strategaeth ariannol tymor canolig sy'n datblygu'n barhaus.
- Adolygir y [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) yn flynyddol, yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol.
- Mae pob gwasanaeth yn cynhyrchu [Cynllun Cyflawni Gwasanaeth](#) blynyddol sy'n dangos yn glir sut maent yn cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae pob cynllun gwasanaeth yn cynnwys mesurau a meini prawf llwyddiant i dystiolaethu sut y bydd gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth.
- Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro yn chwarterol drwy'r [Cerdyn Sgorio Corfforaethol](#). Cyflwynir adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith lle cytunir ar gamau lliniaru i'r Gwasanaethau eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw DPA sy'n tanberfformio.

<p><b>Buddiannau economaidd, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy</b></p> <p>C6. Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaeth</p> <p>C7. Cymryd golwg mwy hirdymor o ran penderfynu, gan ystyried risg a gweithredu mewn modd tryloyw lle bo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau bwriadedig y Cyngor a ffactorau tymor byr fel y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol</p> <p>C8. Pennu budd ehangach y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chydbwyso buddion sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r amryw fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy ymgynghori lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau cyfaddawdau priodol</p> <p>C9. Sicrhau mynediad teg i wasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.</li> <li>• Mae perfformiad a chynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol yn yr <a href="#">Adroddiad Perfformiad Blynyddol</a> a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad ariannol yn y Datganiad o Gyfrifon.</li> <li>• Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu Adroddiad Blynyddol ac adroddiadau Cynnydd drwy gydol y flwyddyn.</li> <li>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol</li> <li>• Adroddiadau Refeniw a Chyfalaf Chwarterol</li> <li>• Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu <a href="#">Adroddiad Blynyddol</a></li> <li>• Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg</li> </ul>
--	--



## Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu

**Rhesymeg:** Mae llywodraeth leol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae pennu'r cymysgedd cywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hollbwysig y mae'n rhaid i lywodraeth leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir. Maent angen mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn i sicrhau y gellir cyflawni eu canlyniadau diffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r fasnach orau rhwng y gwahanol fathau o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni yn y ffordd orau posibl.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 2) Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

### Penderfynu a chynllunio ymyriadau

D1. Sicrhau bod penderfynwyd yn derbyn dadansoddiad gwrthrychol a thrylwyr o amrywiaeth o opsiynau sy'n dangos sut y byddai canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni a chynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Felly sicrhau bod y gwerth gorau'n cael ei gyflawni sut bynnag y darperir gwasanaethau

D2. Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i wasanaethau neu lle nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu galwadau sy'n anghyson â'i gilydd o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau a gan gofio effeithiau i'r dyfodol

### Sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o'r canlyniadau a fwriedir

D3. Sefydlu a gweithredu cylchoedd cynllunio a rheoli cadarn sy'n cwmpasu cynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau

- Mae'r [Cyfansoddiad](#) yn nodi'r glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- [Strwythurau Pwyllgorau'r Cyngor](#) - Cyngor, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, Trwyddedu, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r Pwyllgor Safonau.
- Mae [Cyngor Sir Ynys Môn](#) yn gyfrifol am y fframwaith polisi a chyllideb. Mae adroddiadau llywodraethiant allweddol yn faterion i'r Cyngor, ac mae'r Cyngor yn cyntuno ar gyllideb referniw a chyfalaf flynyddol.
- Y [Pwyllgor Gwaith](#) yw'r prif gorff gwneud penderfyniadau ac mae'n cynnwys yr arweinydd ac wyth aelod portffolio arall.
- Mae'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio](#) yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethiant yr awdurdod. Mae gan y pwyllgor ddau aelod cyfetholedig sydd yn gyfrwng i ehangu gwybodaeth a phrofiad annibynnol.
- Mae'r [Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol](#) yn darparu sicrwydd ynghylch perfformiad a darparu'r holl wasanaethau. Mae'n

<p>D4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth bennu sut y dylid cynllunio a chyflawni gwasanaethau a chamau gweithredu eraill</p> <p>D5. Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd gan gynnwys y risgiau a rennir</p> <p>D6. Sicrhau bod trefniadau'n hyblyg ac yn ystwyth fel y gellir addasu'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni allbynnau yn ôl amgylchiadau newidiol</p> <p>D7. Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn canfod sut y dylid mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau</p> <p>D8. Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth a fynnir i adolygu ansawdd gwasanaethau'n rheolaidd</p> <p>D9. Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig</p> <p>D10. Llywio gwaith cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio amcanestyniadau realistig o ran gwariant refeniw a chyfalaf sy'n anelu at ddatblygu strategaeth ariannu gynaliadwy</p> <p><b>Cyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y modd gorau bosibl</b></p> <p>D11. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio ac yn cydbwysu blaenoriaethau gwasanaethau, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau</p> <p>D12. Sicrhau bod y broses gyllidebu yn hollgynhwysol, gan ystyried cost lawn gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hwy</p>	<p>sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ac amcanion ei wasanaethau tra'n cefnogi ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r <a href="#">Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio</a> yn sicrhau bod buddion dinasyddion yr Ynys yn cael eu hyrwyddo a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau'r cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n darparu gwerth ychwanegol o weithio gyda phartneriaid.</li> <li>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sydd yn rhoi crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir eu cymeradwyo a'r rhesymeg dros wneud yr argynhelliad, er mwyn dangos y rhesymeg a thystiolaeth dros y penderfyniadau.</li> <li>• Mae'r <a href="#">Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Penaethiaid</a> yn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro a'u cyflawni drwy gydol y flwyddyn.</li> <li>• Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.</li> <li>• Mae gan y <a href="#">Cyngor Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad</a> ar waith.</li> <li>• Mae'r rhaglenni a'r prosiectau sydd wedi eu halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro gan y <a href="#">Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol a'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau</a>.</li> <li>• Mae <a href="#">Rhaglen Ynys Ynni™ Ynys Môn</a> a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth, gan roi Ynys Môn ar flaen y gad ym maes</li> </ul>
---	--

<p>D13. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus mewn perthynas â materion arwyddocaol o ran cyflenwi neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol all godi yn ystod y cyfnod cyllidebu er mwyn cyflawni canlyniadau wrth wneud y gorau o'r defnydd o adnoddau</p>	<p>ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, a sicrhau buddion economaidd enfawr posib.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant twristiaeth er mwyn creu strategaeth twristiaeth hirdymor ar gyfer yr Ynys. <a href="#">Mae Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn</a> yn monitro cyflawniadau yn erbyn y <a href="#">Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn</a></li> <li>• <a href="#">Ymgynghoriad ar Gyllideb</a></li> <li>• <a href="#">Cynllun Ariannol Tymor Canolig</a></li> <li>• <a href="#">Llyfr Cyllideb y Cyngor</a></li> </ul>
---	---

## Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo

**Rhesymeg:** Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar lywodraeth leol, yn ogystal â phobl sydd â'r sgiliau cywir, cymwysterau priodol a meddylfryd priodol, i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni eu canlyniadau arfaethedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y gallu gweithredol i'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei allu yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth aelodau unigol o staff. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn endidau llywodraeth leol drwy gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 4) Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

### Datblygu capasiti'r endid

E1. Datblygu a chynnal cynllun effeithiol ar gyfer y gweithlu er mwyn dyrannu adnoddau mewn modd mwy strategol

E2. Adolygu gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol

E3. Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau mewn modd priodol, fel meincnodi ac opsiynau eraill, er mwyn pennu sut y mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu dyrannu fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd effeithiol ac effeithlon

E4. Adnabod buddion partneriaethau a gweithio ar y cyd lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol

### Datblygu gallu arweinyddiaeth yr endid ac unigolion eraill

E5. Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinyddion sydd wedi'u hethol a'u penodi yn negydu â'i gilydd ynghylch eu rolau perthnasol yn fuan yn y

- Strategaeth Datblygu Gweithlu
- Chynlluniau Datblygu Gweithlu ar gyfer pob Gwasanaeth
- Strategaeth Pobl
- Gwerthusiad Blyneddol (Adolygiad Datblygu Perfformiad)
- Cynllun Cydraddoldeb 2020-24
- Sesiynau briffio aelodau
- Fforwm Rheolwyr
- Gwobrau Staff
- Siarter ar gyfer Cefnogi Aelodau CLILC
- [Rhaglen Datblygu a Hyfforddi Aelodau](#)
- Cynllun Hyfforddai
- Cynllun Denu Talent
- Y Gronfa Ddysgu / E-Ddysgu
- Rhaglen Hyfforddi Mewnol – yn cynnwys Arweinyddion Môn, Academi Môn ac 'Twf a Datblygu'

berthynas a bod dealltwriaeth a rennir o rolau ac amcanion yn cael ei chynnal

E6. Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rheiny sy'n cael eu cadw ar gyfer proses benderfynu'r corff llywodraethu ar y cyd

E7. Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n arbennig iddynt hwy o fewn strwythur, lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod wrth weithredu strategaeth a rheoli'r modd y cyflawnir gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodir gan aelodau, a bod y naill a'r llall yn darparu rhwystrau a gwrthbysau ar gyfer awdurdod y naill a'r llall

E8. Datblygu galluoedd aelodau ac uwch reolwyr o ran cyflawni arweinyddiaeth effeithiol a rennir ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llwyddiannus i alwadau newidiol o ran materion cyfreithiol a pholisïau yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol drwy:

- sicrhau bod aelodau a staff yn cael mynediad i sesiynau ymsefydlu priodol sydd wedi'u haddasu ar gyfer eu rôl a bod gweithgareddau hyfforddiant a datblygu parhaus ar gael sy'n cyfateb i ofynion unigol a sefydliadol a'u bod yn cael eu hannog,
- sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, y wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth priodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus,
- sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a ledled y system drwy rannu dysgu, gan gynnwys
- gwersi a ddysgwyd yng ngolau gwendidau mewnol ac allanol o ran llywodraethu

E9. Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog cyrfanogiad cyhoeddus

E10. Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ei hun a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol drwy adolygiadau cymheiriaid ac arolygiadau

E11. Dal staff yn atebol drwy adolygiadau rheolaidd o berfformiad sy'n ystyried anghenion o ran hyfforddiant neu ddatblygu

E12. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gynnal iechyd a llesiant y gweithlu ac i gefnogi unigolion i gynnal eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

**Rhesymeg:** Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y mae'n eu goruchwyllo wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynlluniedig yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risg a mynd i'r afael â hi fel rhan o'r holl weithgareddau gwneud penderfyniadau.

Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, darparu gwasanaethau'n effeithlon, ac atebolrwydd.

Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisiau ac adolygu. Mae diwylliant gwaith cadarnhaol sy'n derbyn, yn hyrwyddo ac yn annog her adeiladol yn hanfodol i graffu llwyddiannus a chyflawni'n llwyddiannus. Yn bwysig, nid yw'r diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, mae'n gofyn am ymrwymiad cyhoeddus mynych gan y rhai sydd mewn awdurdod.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

### Rheoli Risgiau

F1. Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a rhaid ystyried hyn ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau

F2. Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol

F3. Sicrhau bod cyfrifoldebau o ran rheoli risgiau unigol yn cael eu neilltuo'n glir

### Rheoli Perfformiad

F4. Monitro'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni ac adolygiadau annibynnol ar ôl eu gweithredu

- Polisi a Fframwaith Rheoli Risg
- Meddalwedd rheoli risg 4Risk
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- [Cynllun y Cyngor](#)
- [Cynllun Cyflawni Blynyddol](#)
- [Adroddiad Perfformiad Blynyddol](#)
- Hunanasesiad (Mewnol)
- Byrddau Rhaglen Corfforaethol
- Adolygiadau Gwasanaeth – Ariannol a Pherfformiad
- Hunanasesiad Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)
- Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth
- Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

<p>F5. Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddi a chyngor perthnasol a chlir gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau sy'n rhan annatod o sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor</p> <p>F6. Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu drosolwg effeithiol yn ei lle sy'n annog herio a dadlau adeiladol mewn perthynas â pholisïau cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau, gan wella perfformiad y Cyngor ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano</p> <p>F7. Darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch reolwyr ar y cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau</p> <p>F8. Sicrhau bod cysondeb rhwng cyfnodau pennu manylion (fel cyllidebau) ynghyd ag adrodd ar ôl eu gweithredu (e.e. datganiadau ariannol)</p> <p><b>Rheolaeth Fewnol Gadarn</b></p> <p>F9. Cysoni'r strategaeth rheoli risg a pholisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion</p> <p>F10. Gwerthuso a monitro'r modd y mae risgiau'n cael eu rheoli a rheolaeth fewnol yn rheolaidd</p> <p>F11. Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrthlygredigaeth effeithiol yn eu lle</p> <p>F12. Sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn darparu sicrwydd ychwanegol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg</p> <p>F13. Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol o'r bwrdd gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn darparu ffynhonnell bellach o sicrwydd effeithiol o ran trefniadau ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol</li> <li>• y dylid gwrandao ar yr argymhellion a gweithredu arnynt</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol</li> <li>• Diogelwch TGCh</li> <li>• Adroddiadau Refeniw Chwarterol</li> <li>• Adroddiadau Cyfalaf Chwarterol</li> <li>• Datganiad o Gyfrifon</li> <li>• Mae trefniadau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig</li> <li>• Strategaeth Gaffael</li> <li>• Cadarnhaodd y Dystysgrif Cydymffurfiaeth Blynyddol bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, defnyddio adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad.</li> </ul>
--	---



**Rheoli Data**

F14. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data, gan gynnwys prosesau i ddiogelu data personol

F15. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol wrth rannu data â chyrrff eraill

F16. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad

**Rheolaeth Ariannol Gyhoeddus Gref**

F17. Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad hirdymor canlyniadau ynghyd â pherfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr

F18. Sicrhau bod rheolaeth ariannol tra datblygedig wedi'i hintegreiddio ar bob lefel gynllunio a rheolaeth, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol

## Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio

**Rhesymeg:** Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond hefyd â sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i:

Ffynonellau Sicrwydd:

### Gweithredu arferion da o ran tryloywder ac adrodd

G1. Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer rhanddeiliaid cyhoeddus ac eraill mewn dull dealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig a sicrhau eu bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu

G2. Cyflawni cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni galwadau o ran tryloywder a hybu craffu cyhoeddus gan sicrhau nad yw'n ormod i'w ddarparu ac i ddefnyddwyr ei deall

G3. O leiaf yn flynyddol, adrodd ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth adnoddau

G4. Sicrhau bod gan berchnogion ac uwch reolwyr berchnogaeth dros y canlyniadau

G5. Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu'r graddau y mae'r egwyddorion a gynhwysir yn y Fframwaith wedi cael eu gweithredu, a chyhoeddi'r canlyniadau ar yr asesiad hwn gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i arddangos llywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol)

- Mae pob agenda ac adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cofrestr o ddiddordebau Aelodau
- Cofrestr o ddiddordebau Cyngorau Tref a Chymuned
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Sesiynau briffio misol Aelodau
- Adroddiadau Archwilio Allanol, gan gynnwys Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth
- Adroddiad Sgriwtini Blynyddol
- Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

G6. Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu mewn perthynas â sefydliadau gwasanaeth sy'n cael eu rheoli ar y cyd neu eu rhannu fel y bo'n briodol

G7. Sicrhau bod y wybodaeth o ran perfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol y'n cael ei pharatoi mewn modd cyson ac amserol a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu â sefydliadau tebyg eraill

### **Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol**

G8. Sicrhau y gweithredir ar yr argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir drwy archwilio allanol

G9. Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn ei le gyda mynediad uniongyrchol i aelodau sy'n darparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu ac y gweithredir ar argymhellion

G10. Croesawu herio gan gymheiriaid, ynghyd ag adolygiadau ac arolygon gan gyrrff rheoleiddio a gweithredu argymhellion

G11. Cael sicrwydd o ran risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau drwy drydydd partiön a bod tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol

G12. Sicrhau, wrth weithio mewn partneriaeth, bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i gyflawni

## Atodiad 1

### Y Chwe Thema Allweddol

Datblygwyd y Chwe Thema Allweddol gan staff a rheolwyr i gefnogi ein nodau a'n hamcanion yng Nghynllun y Cyngor. Fe'u defnyddir fel sail i bopeth a wnawn ac maent yn cyd-fynd a'r Egwyddorion Craidd a'r egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 –

#### 1. Proffesiynol a Threfnus

*Rydym yn ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phroffesiynol a fydd yn darparu arweiniad effeithiol a chryf ac yn sefydlu'r ymddygiadau proffesiynol a sefydliadol sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant.*

#### 2. Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig

*Byddwn yn sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin syniadau a datrysiadau arloesol a chreadigol sy'n edrych y tu draw i'r sefydliad er mwyn ceisio datrysiadau uchelgeisiol a fydd yn fanteisiol i'n cwsmeriaid, ein dinasyddion a'n cymunedau.*

#### 3. Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

*Byddwn yn ymgysylltu'n egniol gyda chymunedau, dinasyddion a chwsmeriaid, yn mofyn eu barn, yn deall eu hanghenion ac yn ymateb iddynt gan egluro'n llawn a chyfathrebu ein gweithredoedd.*

#### 4. Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl

*Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein pobl er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymhelliant a'u bod bob amser yn broffesiynol yn y modd y maent yn gweithio. Byddwn yn cydnabod llwyddiant, arloesedd ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol.*

#### 5. Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth

*Rydym yn deall na fedrwn gyflawni'r trawsnewidiad angenrheidiol ar ein pennau ein hunain ac rydym yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat er mwyn sicrhau twf a datblygiad cynaliadwy.*

#### 6. Cyflawni

*Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbynnau ac yn ymdrechu i wella ein perfformiad yn y meysydd pwysig o'n gwaith.*

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	9 Rhagfyr 2021
<b>Pwnc / Testun:</b>	Adolygiadau cenedlaethol a'i hargymhellion cysylltiedig
<b>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</b>	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid 01248 752502 <a href="mailto:CarysEdwards@ynysmon.gov.uk">CarysEdwards@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Gethin Morgan Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad 01248 752511 <a href="mailto:GethinMorgan@ynysmon.gov.uk">GethinMorgan@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b>	
<p>Pwrpas yr adroddiad hwn yw i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion cenedlaethol sydd ynghlwm a'r adroddiadau cenedlaethol wedi cael sylw dilys gan wasanethau'r Cyngor Sir a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrion.</p> <p>Rhagwelir y bwriad os yw'r Pwyllgor yn gytun bod y diweddariad cyfredol blynyddol yn dod i'r Pwyllgor unwaith y flwyddyn yn ystod ei gyfarfodydd yn chwarter 3 o'r flwyddyn ariannol dan sylw.</p>	

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos llywodraethu da, ac mewn ymateb i lythyr y Cyfarwyddwr Archwilio o Archwilio Cymru a yrrwyd at Gadeirydd y Pwyllgor hwn ac a dderbynwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar y 21ain o fis Medi eleni, mae'r adroddiad atodol yn dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn y gwahanol feysydd gwaith cysylltiedig.
2. Mae'r adroddiad yn cydnabod 15 o adroddiadau cenedlaethol a'l argymhellion cysylltiedig fydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol i sylw'r Pwyllgor hwn. Mae'r argymhellion hynny'n effeithio ar ystod eang o wasanaethau'r Cyngor Sir a gellid eu rhestru fel a ganlyn -
  - a. Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
  - b. Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
  - c. Adnoddau
  - d. Dysgu
  - e. Tai
  - f. Gwasanaethau Cymdeithasol
  - g. Rheoleiddio a Datblygu'r Economi

h. Busnes y Cyngor

## **Argymhelliad**

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn –

- a. derbyn y diweddariad fel cofnod o ddiweddariad blynyddol y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig
- b. derbyn y cynnig bod diweddariad o'i fath yn cael ei raglennu'n flynyddol i sylw'r Pwyllgor hwn yn ystod Ch3 i'r dyfodol.



# Adolygiadau cenedlaethol a'i hargymhellion cysylltiedig

## Chwarter 3 2021



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
<a href="#">Yn ôl eich doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol</a>	Pob Gwasanaeth	<p>Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbriso ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell.</p> <p>Mae cyfleoedd i gynghorau gynnwys dinasyddion yn y gwaith o lunio a rhedeg gwasanaethau eu hunain.</p> <p>Yr her i gynghorau lleol fydd cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a'i ddefnyddio i fireinio, addasu a chyflawni gwelliannau pellach er mwyn creu newid cadarnhaol, a parhau i fod yn berthnasol i'w holl ddinasyddion.</p>	I'w ystyried ymhellach fel rhan o baratodau ar gyfer Cynllun newydd y Cyngor 2022-27.
<a href="#">Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19</a>	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<p><b>Parodrwydd ar gyfer clefydau pandemig yn y dyfodol</b></p> <p><b>A1</b> Fel rhan o ddull gwersi-a-ddysgwyd ehangach, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU lle y bo'n bosibl i ddiweddarau cynlluniau i gadw pentwr ar gyfer pandemig i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ateb galwadau pandemig a allai ddeillio o wahanol fathau o feirysau.</p> <p><b>A2</b> Wrth ddiweddarau ei chynlluniau ei hun ar gyfer ymateb i bandemig yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i ddiffinio set o drefniadau llywodraethu ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer cynllunio, caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol fel nad oes angen datblygu'r rhain o'r dechrau un.</p> <p><b>A3</b> Dylai'r Cydwasanaethau weithio gyda'r GIG a chyrrff y sector gofal cymdeithasol i gynnal system gwybodaeth reoli gyfoes ar gyfer stoc sy'n darparu data amserol ar stociau lleol a chenedlaethol o Gyfarpar Diogelu Personol y gellir tynnu arnynt yn gyflym mewn pandemig yn y dyfodol i gefnogi amcanestyniadau o'r galw ac argaeledd yn ogystal â darparu ffynhonnell wybodaeth gadarn ar gyfer briffio rhanddeiliaid.</p>	<p>Ar ddechrau'r pandemig, nid oedd gan CSYM gyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer Covid ac nid oedd ganddo gyfleusterau storio a dosbarthu. Llwyddodd y Cyngor i ddyfeisio canllawiau perthnasol i ddelio â phrinder cenedlaethol ar ddechrau'r pandemig, datblygu tîm PPE, sefydlu storfa a rheoli stoc i sicrhau bod staff a lleoliadau gofal yn derbyn cyflenwad rheolaidd a digonol o PPE. Roedd y gwaith wedi'i drefnu'n dda ac roedd yna gswllt rheolaidd â LIC. Derbyniwyd cyflenwadau rheolaidd ganddynt, a gwelwyd gwaith da ar draws yr Awdurdod.</p> <p>Roedd y Storfa Fenthyca Gymunedol a Chludiant Cymunedol Môn yn amhrisiadwy a dylid eu cynnwys mewn unrhyw bolisi cynllunio argyfwng Corfforaethol yn y dyfodol. Roedd y pandemig wedi gorfodi Awdurdodau Lleol i symleiddio'r broses gwneud penderfyniadau ac i wneud y llinellau cyfathrebu yn fyrrach ac roedd hynny wedi caniatáu i reolaeth weithredol weithio'n iawn.</p> <p>Hefyd, sefydlodd y Cyngor drefniant cydweithio yn gysylltiedig â monitro aer a datblygu gwybodaeth gyda meddyg lleol cyn i'r llywodraeth gyhoeddi canllawiau. Yn yr un modd, mae'r Cyngor yn edrych ar buryddion aer ar hyn o bryd ac mae'n ymddangos ei fod ychydig ar y blaen i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth.</p> <p>Ar gyfer gweddill y pandemig covid, byddem yn gwerthfawrogi ymchwil pellach a pholisi clir/canllawiau ar fasgliau/masgliau clir.</p>
<a href="#">Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma</a>	Trawsnewid / TTP	<p>Yn ogystal â gwneud sylwadau am gyflawni'r rhaglen POD hyd at a chan gynnwys ym mis Rhagfyr 2020, mae'r adroddiad yn nodi rhai heriau a chyfleoedd a fydd yn dod i'r amlwg fel rhan o'r frwydr barhaus i reoli COVID-19.</p> <p><b>Negeseuon allweddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Wrth gyflawni'r rhaglen POD gwelwyd gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru'n cydweithio'n dda, mewn partneriaethau cryf ac effeithiol, i fynd ati'n gyflym i greu rhaglen o weithgareddau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at reoli COVID-19 yng Nghymru.</li> <li>Mae gan gyfluniad y system POD yng Nghymru nifer o gryfderau, gan gyfuno goruchwyliaeth ac arbenigedd technegol cenedlaethol â pherchnogaeth leol a rhanbarthol ar y rhaglen, a'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth a chudd-wybodaeth leol i lunio ymatebion.</li> <li>Mae trefniadau ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau wedi esblygu wrth i'r pandemig ddatblygu. Ond mae cynnal y perfformiad gofynnol yn y meysydd hyn wedi profi'n her yn wyneb galw cynyddol.</li> <li>Mae POD yn rhan hollbwysig o ddull Llywodraeth Cymru ond nid dyma'r unig ffordd y mae wedi bod yn ceisio atal y feirws rhag ymledu. Er gwaethaf gweithgarwch profi ac olrhain cynyddol,</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cael gwybodaeth well i wella effeithlonrwydd ac arfarnu effaith Profi, Olrhain, Diogelu       <ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd defnyddio Power BI yn golygu bod data rhanbarthol wedi'i ddiweddarau'n rheolaidd ar effaith covid ar gael i alluogi timau i arfarnu eu hardaloedd awdurdod lleol ac i wneud cymariaethau â rhanbarthau eraill ledled Cymru neu'r rhanbarth.</li> <li>Sefydlwyd tîm mewnol i fonitro data lechyd Cyhoeddus Cymru a BIPBC ochr yn ochr â data Profi, Olrhain a Diogelu lleol i nodi tueddiadau ac i ddyrannu adnoddau</li> </ul> </li> <li>Sicrhau fod gweithgareddau profi yn addas i bwrpas a'u bod yn cwrdd â'r galw cynyddol       <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu perthynas waith agos a chadarnhaol rhwng CSYM a BIPBC i sicrhau bod cyfleusterau profi ar gael ar Ynys Môn</li> <li>Safleoedd profi dros dro wedi eu lleoli yn y 4 prif dref, yn cynnwys Amlwch, Caergybi, Llanfairpwll a Llangefni, ar sail cylchdro</li> </ul> </li> </ul>



Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
		<p>mae'r feirws wedi parhau i ymledu. Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, bu angen ategu gweithgarwch profi ac olrhain â chyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol mwyfwy caeth mewn ymgais i leihau cyfraddau trosglwyddo.</p> <p><b>Heriau a chyfleoedd allweddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod â gwybodaeth well i wella effeithlonrwydd a gwerthuso effaith POD</li> <li>• Sicrhau bod gweithgareddau profi'n addas ar gyfer y diben ac yn ateb y galw cynyddol</li> <li>• Creu gweithlu medrus a gwydn i gyflawni DOP</li> <li>• Dylanwadu ar y cyhoedd i ddilyn canllawiau a gofynion diogelu iechyd y cyhoedd</li> <li>• Cymhwyso'r gwersi o'r rhaglen POD i raglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dyrannwyd adnoddau i ardaloedd lle cafwyd clwstwr o achosion neu lle'r oedd niferoedd yn cynyddu</li> <li>- Sefydlwyd safleoedd profi ychwanegol pan oedd angen er mwyn cynyddu capasiti ar yr ynys</li> <li>- Rhoddwyd cyfleusterau profi ychwanegol ar waith mewn ardaloedd lle cafwyd achosion sylweddol, roedd hyn yn cynnwys dosbarthu profion, manau casglu profion LFD, safleoedd profion LFD a safleoedd profion PCR</li> <li>- Canolfannau casglu profion LFD mewn canolfannau hamdden</li> <li>- Dosbarthu profion LFD mewn ysgolion ar gyfer staff a disgyblion o oedran priodol</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu gweithlu medrus, gwydn i ddarparu gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu       <ul style="list-style-type: none"> <li>- Disgrifiad swydd rhanbarthol i sicrhau ymgynghorwyr ac olrhainwyr addas a phrofiadol</li> <li>- Ymgyrchoedd recriwtio ar lefel rhanbarthol a lleol drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod nifer cyson o staff medrus wedi'u penodi</li> <li>- Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff newydd yn cynnwys cysgodi, cyfarfodydd tîm a chwarae rôl</li> <li>- Datblygiad parhaus trwy sesiynau hyfforddi ar gyfer yr holl staff i sicrhau cysondeb</li> </ul> </li> <li>• Dylanwadu ar y cyhoedd i ddilyn canllawiau a gofynion iechyd cyhoeddus       <ul style="list-style-type: none"> <li>- Sefydlwyd tîm cyfathrebu mewnol a oedd yn cynnwys gwarchod y cyhoedd, addysg, tîm dadansoddi data a Profi, Olrhain a Diogelu i rannu gwybodaeth berthnasol â'r cyhoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wefan gorfforaethol a negeseuon e-bost mewnol i staff.</li> <li>- Ynys Môn oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y rhanbarth i ddefnyddio technoleg map i nodi lleoliadau achosion positif ar draws yr ynys er mwyn codi ymwybyddiaeth am y niferoedd cynyddol, ac roedd gwybodaeth a chyngor lleol yn cael ei ddefnyddio i gyd-fynd â hyn hefyd</li> <li>- Rhoddodd Arweinydd y Cyngor gyfweiliadau dros y ffôn, ar y teledu, ar y radio ac i bapurau newydd i godi ymwybyddiaeth am wybodaeth leol a chenedlaethol</li> <li>- Darlledwyd diweddariadau wythnosol ar radio Môn FM ar y sefyllfa ddiweddaraf ar draws Ynys Môn</li> <li>- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'n darparwyr allanol i rannu gwybodaeth a thueddiadau ac yna roeddent yn helpu i rannu'r negeseuon â'r cyhoedd</li> </ul> </li> <li>• Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu mewn rhaglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol       <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r cyngor yn datblygu ac yn dysgu'n barhaus o newidiadau i raglenni, prosiectau a pholisi</li> <li>- Mae cofnodion 'gwersi a ddysgwyd' yn cael eu creu yn dilyn digwyddiadau mawr ac fe'u defnyddiwyd i gefnogi awdurdodau lleol eraill wrth ddelio gyda digwyddiadau tebyg.</li> <li>- Sefydlwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda thimau rhanbarthol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, BIPBC, Iechyd Cyhoeddus Cymru i rannu materion/risgiau neu bryderon a thrafod ffordd ymlaen a chynnig/cytuno ar newidiadau</li> </ul> </li> </ul>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
			Cyfarfod wythnosol gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr yn Cadeirio gyda chynrychiolwyr o BIPBC, ICC, addysg, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Profi, y gwasanaeth ambiwlans i gynllunio, paratoi a dysgu.
<a href="#">Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau</a>	Adnoddau / Dysgu	<p>Cynyddodd y nifer a oedd yn cael prydau ysgol a theimlodd cynghorau eu bod mewn gwell sefyllfa pan fyddai unrhyw ysgolion yn cau yn y dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ym mis Mehefin 2020, nododd y rhan fwyaf o gynghorau gynnydd yn nifer y prydau ysgol am ddim cymwys yn ystod y pandemig Covid-19.</li> <li>Amrywiodd y nifer a oedd yn derbyn prydau am ddim amgen rhwng 85% a 100%, cynnydd o ffigur cenedlaethol o 77% cyn Covid.</li> <li>Ymatebodd 17 cyngor i'n cais am wybodaeth a dywedodd y cynghorau wrthym eu bod yn hyderus ym mis Mehefin pe bai ysgolion yn gorfod cau eto eu bod mewn gwell sefyllfa i gynnal darpariaeth prydau ysgol am ddim.</li> <li>Mae trefniadau ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim yn dal i gael eu profi gyda'r cyfnod atal byr a gynhaliwyd fis Hydref/Tachwedd 2020 a'r cynnydd mewn achosion o ddisgyblion yn gorfod hunanynysu.</li> </ul>	Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi codi o thua 1,300 disgybl cyn y pandemig i dros 1,800 o ddisgyblion erbyn hyn. Mae'r Cyngor wedi datblygu proses sy'n caniatáu iddo dalu pob disgybl cymwys pan fod angen gwneud hynny ac i ddisgyblion sy'n hunanynysu neu i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion sy'n gorfod cau. Mae'r broses wedi'i datblygu i ddefnyddio swyddogaethau'r system fudd-daliadau sydd wedi gwella'r broses talu.
<a href="#">Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19</a>	Adnoddau	<p><b>Pam ein bod wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Roeddem eisoes wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg allweddol i drefniadau cynghorau cyn i'r pandemig ddigwydd. Roedd hyn, yn rhannol, i'w briodoli i'r pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus y DU ac, felly, Cymru yn dilyn argyfwng ariannol 2008-09. Fe gynhyrchom ni adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol pob cyngor lleol yn ystod 2019-20, ac roedd yr adroddiadau hyn yn dangos bod cynghorau mewn sefyllfaoedd gwahanol o ran eu lefel o gronfeydd wrth gefn a'u hanes o wario o fewn eu cytundebau cytunedig.</li> <li>Yn erbyn y gefnlen hon mae'r pandemig eisoes wedi cael effaith fwy dwfn ac uniongyrchol ar gyllid y sector cyhoeddus ar y cyfan ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r effaith ar wariant y sector cyhoeddus dros gyfnod mor fyr yn ddigynsail ar adeg heddwch yn y cyfnod modern.</li> <li>Yr adroddiad hwn yw dechrau ein gwaith i fwrw golwg ar gynaliadwyedd cynghorau lleol yn ystod 2020-21, gan adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd gennym yn 2019-20. Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa sylfaenol lefeluchel, gan gynnwys y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn, cynghorau lleol cyn y pandemig. Mae hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig ar gyfer cynghorau lleol a maint yr her a ragwelir wrth edrych tua'r dyfodol, yn ogystal â rhai myfyrdodau ar barodrwydd llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer digwyddiad mor ddigynsail. Yn olaf, rydym yn nodi sut y mae Archwilio Cymru yn bwriadu rhoi cymorth a her adeiladol i gynghorau a'r sector llywodraeth leol, yn ei gyfanrwydd, yn ystod gweddill 2020-21, yn eu hymdrechion i gynnal cynaliadwyedd ariannol yn erbyn pwysau mor sylweddol o ran cyllid.</li> </ol>	<p>Roedd cynaliadwyedd ariannol y Cyngor bob amser yn risg allweddol. Roedd y risg yn cael ei fonitro ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn. Mae'r cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn o ganlyniad i'r pandemig wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn y tymor byr, ond mae'r Cyngor yn ymwybodol efallai y bydd y cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu yn gostwng yn y dyfodol gan gynyddu pwysau ariannol.</p> <p>Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor yn ofalus a gweithio gydag Archwilio Cymru i sicrhau bod prosesau monitro ariannol y Cyngor yn gadarn a bod pwysau ariannol yn y dyfodol yn cael eu nodi cyn gynted â phosib a bod cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor.</p>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
<a href="#">Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20</a>	Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd yng nghymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.</li> <li>Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.</li> <li>Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.</li> <li>Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod.</li> </ul>	<p>Er bod proses y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) wedi gwella dros y blynyddoedd, mae'r broses yn dal i gynhyrchu nifer sylweddol o barau annilys nad ydynt yn arwain at nodi unrhyw dwyll. Mae'n anodd i awdurdod bychan, nad oes ganddo Dîm Twyll dynodedig, adolygu'r parau hyn er mwyn gwneud y mwyaf o'r budd o gymryd rhan h.y. nid yw'r deilliannau bob amser yn cyfiawnhau'r adnoddau staffio sydd eu hangen i gynnal y gwiriadau.</p> <p>Mae'r broses NFI yn darparu parau hanesyddol h.y. mae bwlch rhwng cyflwyno'r data a derbyn y parau ac yn y cyfamser efallai y bydd y Cyngor wedi defnyddio prosesau eraill i nodi a chywiro camgymeriadau / twyll a nodwyd yn yr ymarfer paru data e.e. rydym yn defnyddio Datatank yn rheolaidd i adolygu Gostyngiadau Person Sengl, a oedd yn gyfrifol am dros hanner y twyll a nodwyd yn adroddiad 2018-20.</p> <p>Cwblhawyd y rhestr wirio NFI a bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymarfer NFI yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Dwyll, ond ni nodwyd unrhyw dwyll yn ystod yr ymarfer diwethaf.</p> <p>Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r NFI fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i adnabod twyll ac mae o wedi nodi rhan o un swydd i ddelio gyda pharau NFI. Fodd bynnag, ar sail profiad yn y gorffennol, ychydig iawn o werth sydd i'r NFI yn Ynys Môn.</p> <p>Mae'r Pennaeth Archwilio, Risg ac Yswiriant yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Grŵp Partneriaeth Atal Twyll Gogledd a Chanolbarth Cymru i nodi arfer orau o ran yr NFI.</p>
<a href="#">Masnacheiddi o mewn Llywodraeth Leol</a>	UDA / Pob Gwasanaeth	<p><b>A1.</b> Mae ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio yn gofyn i gynghorau feddu ar allu digonol a'r sgiliau cywir, ac i fod â systemau cadarn ond ystyryth ar waith. Argymhellwn fod cynghorau'n defnyddio'n hofferynnau hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth sy'n gweddu i'r graddau y maent am ddilyn y syniad o fasnacheiddio.</p>	<p>Mae'r pandemig Covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar weithredu dull masnachol wrth ddarparu cyfleusterau'r Cyngor oherwydd i gyfleusterau orfod cau.</p> <p>Byddwn yn adolygu ein cynlluniau masnachol wrth ddatblygu ein cynlluniau adfer yn dilyn y pandemig.</p>
<a href="#">Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb</a>	Tai	<p><b>Defnydd deallus o ddata</b></p> <p><b>A1</b> Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymhell bod cynghorau a'u partneriaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyffredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;</li> <li>adolygu a diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a</li> <li>chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.</li> </ul> <p><b>Gwasanaethau integredig i fynd i'r afael ag angen cymhleth</b></p> <p><b>A2</b> Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n</p>	<p>Gan weithio ar draws Gogledd Cymru, rydym wedi nodi pwy yw'r prif gysylltiadau o fewn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Iechyd, gan gynnwys mynediad i ofal iechyd cynradd, iechyd meddwl a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol</li> <li>Yr Heddlu</li> <li>Cyfiawnder Troseddol</li> <li>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig</li> </ul> <p>ac ein bod yn dechrau sgwrs ynglŷn â'r adroddiad hwn. Rhoddir diweddariad ar hyn yn ystod ein cyfarfod nesaf o gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ym mis Hydref.</p>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
		ymatebol. Rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrio anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol	
<a href="#">Rheolaeth ariannol a llywodraethu - Cyngorau tref a chymuned 2018-19</a>	Busnes y Cyngor / Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae cyngorau cymuned yn rheoli mwy o arian ond mae cyfle i adolygu gwasanaethau a chyllidebau</li> <li>- Dim ond 66% o gynghorau a gydymffurfiodd â'r terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon Archwiliedig</li> <li>- Mae nifer yr archwiliadau â barn amodol wedi cwmpo ond mae'r nifer cyfredol, sef 218 o gynghorau, yn rhy uchel o hyd</li> <li>- Fe arweiniodd problemau arwyddocaol at gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd ar 12 o gynghorau</li> <li>- Archwiliad 2019-20 yw'r archwiliad olaf dan y trefniadau presennol a gofynnir am farn cynghorau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig</li> </ul>	Nid oes gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb dros gyllid Cyngorau Cymuned nac am roi unrhyw un o'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith.
<a href="#">Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith</a>	Diogelwch Cymunedol – Tai / Gwasanaethau Cymdeithasol	<p><b>A1</b> Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.</p> <p><b>A2</b> Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac</li> <li>• yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang.</li> </ul> <p><b>A3</b> Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymhell bod awdurdodau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;</li> <li>• yn darparu hyfforddiant diweddar ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac</li> <li>• yn adolygu ac yn diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.</li> </ul>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae asesiad o anghenion rhanbarthol yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Mae Rhiannon Edwards yn arwain ar y ddogfen hon.</li> <li>2. Mae nifer o fideos gwybodaeth gyhoeddus yn canolbwyntio ar faterion Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi cael eu rhoi ar wefannau Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor a'r Wefan Gorfforaethol – Maent yn cynnwys 'Byw Heb Ofn', 'Gofyn am Ani / Ask for Ani' (angen help ar unwaith), Sut i gysylltu â darparwyr VAWDASV dynodedig megis Gorwel.</li> </ol> <p>Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlodd CSYM, ar y cyd â'r Elusen Safe Lives Borth Un Drws Ffrynt ar gyfer achosion VAWDASV lefel isel i ganolig, lle'r oedd plant ar yr aelwyd. Cyflwynir atgyfeiriadau drwy'r Gwasanaethau Plant (yn bennaf o ganlyniad i CID16s) ac maent yn cael eu trafod mewn grŵp aml-asiantaeth sy'n cynnwys rheolwyr canol / uwch reolwyr o'r Gwasanaethau Plant, Tai, Addysg, Iechyd, Uned Diogelu Pobl Fregus Heddlu Gogledd Cymru. Darparwr VAWDASV Dynodedig. Wedyn, cysylltir â dioddefwyr / goroeswyr a'r troseddwr a gwneir atgyfeiriadau i'r asiantaeth fwyaf briodol er mwyn iddynt ddarparu'r ymyrraeth / cymorth angenrheidiol.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>3. Mae gwasanaeth tai CSYM wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein VAWDASV gorfodol ac mae ein Huned Adeiladu a Chynnal a Chadw wedi derbyn hyfforddiant ymarferol pwrpasol ar yr hyn y dylid edrych amdano a sut i roi gwybod os credir bod unrhyw achosion o VAWDASV mewn eiddo. O ran rheoli risg, rhennir gwybodaeth ar sail yr angen i wybod ac yn unol â gofynion GDPR.</li> <li>4. Mae gan Gogledd Cymru Fwrdd Comisiynu Aml-Asiantaeth at ddibenion VAWDASV, sydd yn adrodd i Fwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru.</li> </ol>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
		<p><b>A4</b> Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteisio'n rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymhell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er ddiodefwyr a goroeswyr.</p> <p><b>A5</b> Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlgu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid;</li> <li>• rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian;</li> <li>• symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartion; a</li> <li>• phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.</li> </ul>	<p>Mae'r Grŵp Comisiynu'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector.</p> <p>5. Ar hyn o bryd mae'n cael ei ystyried ar lefel Ranbarthol a lleol.</p>
<p><a href="#">Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</a></p>	PSB	<p><b>A1</b> Yn Rhan 1 o'r adroddiad rydym yn nodi bod deall effaith dewisiadau a phenderfyniadau yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid yn llawn a chwblhau Asesiadau Effaith. Fodd bynnag, canfuom fod ymarfer presennol yn annigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau ac nad yw llai dinasyddion yn dylanwadu'n ddigonol ar benderfyniadau. Rydym yn argymhell bod BGCau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol;</li> <li>• yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd;</li> <li>• yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac</li> <li>• yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.</li> </ul> <p><b>A2</b> Yn Rhan 2 o'r adroddiad rydym yn adolygu trefniadau craffu BGCau ac yn dod i'r casgliad bod diffygion a gwendidau mewn perfformiad ac arfer presennol. I wella trefniadau craffu, rydym yn argymhell:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod BGCau a chyrrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a</li> <li>• bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o rhanddeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.</li> </ul> <p><b>A3</b> Yn Rhan 3 o'r adroddiad rydym yn crynhoi'r anhawster o ran datblygu BGCau, eu rhoi ar waith a darparu adnoddau ar eu cyfer a heriau rheoli partneriaethau lluosog sy'n aml yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymhell:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;</li> <li>• bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:</li> </ul>	<p><b>A1</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd asesiadau effaith yn cael eu datblygu pan fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno gan y BGC sy'n argymhell newid polisi / gwasanaeth. Bydd asesiadau effaith yn cael eu datblygu er mwyn mesur a deall effaith y penderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y BGC.</li> <li>• Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wefan sy'n weithredol o dan yr enw: <a href="https://www.llesiantgwyneddamon.org">https://www.llesiantgwyneddamon.org</a></li> </ul> <p>Mae manylion o gyfarfodydd y Bwrdd a'r cofnodion wedi eu cynnwys ar y wefan.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r gwaith ar ddiweddarau'r Asesiadau Llesiant y BGC yn cael ei gynllunio yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r cyhoedd.</li> <li>• Yn flynyddol bydd y BGC yn paratoi adroddiad ar gynnydd eu gwaith. Mae'r adroddiad wedi ei lunio er mwyn nodi sut mae gwaith y BGC yn effeithio ar ein trigolion.</li> </ul> <p><b>A2</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r BGC yn cydweithio hefo Pwyllgorau Craffu Gwynedd ac Ynys Môn ar amserlenni craffu (alinio â chyfarfodydd y BGC) a'r meysydd i'w craffu.</li> </ul> <p><b>A3</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae BGC wedi bod yn arweiniol iawn mewn perthynas â'r weithred dan sylw. Mae is-grŵp Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru, sy'n atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, ac yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y ein trigolion yn cwrdd ag anghenion lleol.</li> </ul>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
		<p>– cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a</p> <p>– rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.</p> <p><b>A4</b> Er mwyn helpu i feithrin capasiti, cysondeb a'r broses o ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu hadolygiad o bartneriaethau strategol yn ystyried, ac yn archwilio, canfyddiadau'r adolygiad hwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ddogfen 'Cymru Iachach' yn llywio trefniadau llywodraethu a chynlluniau'r Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Wynedd ac Ynys Môn.</li> </ul>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
<a href="#">Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion</a>	Oedolion	<p><b>Gwella mynediad i'r drws blaen</b></p> <p><b>A1</b> Mae Rhan 1 yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymhell y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• awdurdodau lleol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';</li> <li>- gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;</li> <li>- sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf; ac - ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynw a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.</li> </ul> </li> <li>• Llywodraeth Cymru <ul style="list-style-type: none"> <li>- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofawr o'u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda'r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a</li> <li>- chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio'r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol.</li> </ul> </li> </ul> <p><b>Buddsoddi mewn atal a deall effaith</b></p> <p><b>A2</b> Mae Rhan 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymhell y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• awdurdodau lleol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;</li> <li>- cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;</li> <li>- gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a</li> <li>- gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.</li> </ul> </li> <li>• Llywodraeth Cymru: <ul style="list-style-type: none"> <li>- gwella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol.</li> </ul> </li> </ul>	<p><b>R1</b></p> <p>Mae ein gwasanaeth un pwynt mynediad (SPOA) yn darparu mynediad drws blaen i ofal cymdeithasol Oedolion ac mae ganddo staff profiadol sydd yn ymwybodol o doreth o fentrau cymunedol lleol a mentrau trydydd sector sy'n cefnogi ein hagenda ataliol ac ymyrraeth gynnar.</p> <p>Mae taflenni gwybodaeth amrywiol ar gael mewn nifer o bwyntiau mynediad lleol megis hybiau Cymunedol, meddygfeydd, ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol a gwefan y Cyngor er mwyn ceisio sicrhau bod gwybodaeth eang yn cael ei rhannu am fentrau ataliol a hunangymorth, cymorth i ofalwyr, llety a mynediad at ofal a chymorth.</p> <p>Yn ogystal, rydym wedi datblygu mewn partneriaeth â Medrwn Môn, y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol lleol, bwynt mynediad ar gyfer yr holl adnoddau cymunedol. Gall y sefydliad hwn rannu gwybodaeth, darparu cyngor a chynnig cymorth i unigolion sydd angen gwybodaeth gyffredinol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi datblygu i fod yn adnodd gwerthfawr i gyfeirio a chefnogi mynediad i wasanaethau ataliol, gan osgoi'r angen am ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol statudol.</p> <p>Mae cytundeb dan gontract gyda gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Cymru yn darparu mynediad i wasanaethau Eiriolaeth ffurfiol ac mae ein cytundebau lleol gydag Age Cymru Gwynedd a Môn, Gofal a Thrwsio, CAB, yn sicrhau cymorth a mynediad i ystod o fentrau a gwasanaethau ataliol sydd yn cynnwys cymorth eiriolaeth. Mae aliniad â'r hyb gwybodaeth genedlaethol DEWIS wedi cael ei yrru gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol trydydd sector ac mae arfarnu ei effeithlonrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofawrwr anffurfiol yn flaenoriaeth allweddol.</p> <p>Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i wella'r profiad 'drws ffrynt' i gwsmeriaid sy'n mynd law yn llaw â gweithredu ein Timau Adnoddau Cymunedol integredig.</p> <p><b>R2</b></p> <p>Mae gennym strategaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar tra datblygedig sydd wedi sicrhau ystod o adnoddau cymunedol a thrydydd sector sy'n cael eu gyrru gan anghenion a nodwyd ar gyfer y boblogaeth leol ac sy'n cael eu darparu trwy gytundebau partner gyda darparwyr Trydydd sector a mentrau cymunedol lleol.</p> <p>Nod strategaeth 'Cynllunio Lle' y Cyngor yw ymgysylltu â'r boblogaeth leol i nodi anghenion cymunedol lleol a darparu ar eu cyfer gyda chymorth cynllun gweithredu ar gyfer darparu ar gyfer y bylchau gwasanaeth a nodwyd yn y ddarpariaeth.</p> <p>Mae Cydlynwyr Asedau Lleol wedi hen sefydlu yn y gymuned ac maent wedi eu cysylltu â hybiau adnoddau Cymunedol, meddygfeydd ac maent yn weledol yn eu cymunedau lleol ac wedi ymgysylltu'n llawn â nhw. Maent yn darparu cysylltiadau cychwynnol ag adnoddau cymunedol lleol, yn eirioli ac yn cefnogi mynediad i fudd-daliadau, mentrau tai a llesiant ac yn cefnogi rhaglenni datblygu cymunedol.</p> <p>Mae arfarniad ansoddol a meintiol o effaith ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth hon ac mae'n rhoi data gwerthfawr i lywio datblygiad i'r dyfodol ac effaith hirdymor ar iechyd a gofal cymdeithasol wrth leihau neu ohirio gofal a chymorth statudol.</p>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
<a href="#">Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru</a>	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	<p><b>A1</b> Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymhell fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod awdurdodau cynllunio lleol: <ul style="list-style-type: none"> <li>– yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben;</li> <li>– yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac</li> <li>– yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.</li> </ul> </li> <li>• bod Llywodraeth Cymru: <ul style="list-style-type: none"> <li>– yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddarar'rsafonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.</li> </ul> </li> </ul> <p><b>A2</b> Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac</li> <li>• yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i: <ul style="list-style-type: none"> <li>– integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;</li> <li>– datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a</li> <li>– datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.</li> </ul> </li> </ul> <p><b>A3</b> Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac</li> <li>• yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.</li> </ul> <p><b>A4</b> Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;</li> <li>• diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a</li> <li>• gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.</li> </ul> <p><b>A5</b> Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant;</li> </ul>	<p>Aliniad sylweddol rhwng argymhelliad a sgôp / blaenoriaethau Cynllun Gwella Cynllunio CSYM.</p> <p>Effaith sylweddol y pandemig Covid 19 ar berfformiad, capasiti a gwydnwch y Swyddogaeth Gynllunio.</p> <p>Mae'r Swyddogaeth Gynllunio wedi wynebu arbedion / arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf – a gellir gweld eu heffaith yn glir yn awr.</p> <p>Heriau parhaus mewn perthynas â chynnal capasiti a recriwtio swyddogion newydd / profiadol.</p> <p>Mae'r Swyddogaeth eisoes yn cydweithio'n rhanbarthol mewn perthynas ag arbenigedd ym maes polisi cynllunio – rhagwelir y bydd cydweithio rhanbarthol pellach (h.y. paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol) yn creu heriau ychwanegol mewn perthynas â chapasiti, gallu a darparu adnoddau.</p>



Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;</li> <li>• yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac</li> <li>• yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant.</li> </ul>	
<a href="#">Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff</a>	Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<p><b>A1</b> Cynyddu'r pwyslais ar atal gwastraff er mwyn adlewyrchu amcanion cyffredinol Tuag at Ddyfodol Diwastraff Awgryma'r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir bod cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff Llywodraeth Cymru. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:</p> <p>a) ailedrych ar y flaenoriaeth berthnasol y mae'n ei rhoi i ailgylchu ac atal gwastraff fel rhan o'i hadolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff;</p> <p>b) gosod y disgwyliadau ar wahanol sefydliadau a sectorau ar gyfer atal gwastraff yn eglur; ac</p> <p>c) ailedrych ar ei thargedau atal gwastraff cyffredinol a'r ffordd y mae wedi mynd ati i'w monitro, gan ystyried y cynnydd hyd yn hyn, enghreifftiau o wledydd eraill ac yng nghyd-destun yr amcanestyniadau cyfredol am wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu hyd at 2050.</p> <p><b>A2</b> Gwella data ar wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel Mae Llywodraeth Cymru yn bartner mewn gwaith cychwynnol i asesu dichonoldeb datblygu datrysiad digidol newydd i olrhain yr holl wastraff. Os na fydd yr opsiwn dewisol hwn yn llwyddo, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio costau a buddion opsiynau eraill i wella'r data ar wastraff nad yw'n drefol yng Nghymru, gan gynnwys pwerau ychwanegol i ofyn am ddata gwastraff gan fusnesau.</p> <p><b>A3</b> Gwella cyfrifoldeb cynhyrchwyr a defnyddio ysgogiadau mwy cyfreithiol, ariannol a chyllidol Mae gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd i ddylanwadu ar atal gwastraff drwy ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol. Gall hefyd ddylanwadu ar newidiadau ar lefel y DU, lle nad yw materion cyllidol wedi eu datganoli. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen darpariaethau i ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr ac oes angen defnyddio pwerau ariannol fel amodau grant, mesurau cyllidol a thaliadau a chymelliadau cwsmeriaid i hyrwyddo a blaenoriaethu'r gwaith o atal gwastraff.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi nodau a thargedau strategaeth gwastraff Cymru ynghylch atal gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchel iawn a bydd Cyngor Môn yn gwneud popeth posib i gyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir.</p> <p>Er bod y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar reoli gwastraff dinesig, mae'n llwyr gefnogi gweithio mewn partneriaeth â phob sector i wella casglu data gan y sectorau masnachol, diwydiannol ac adeiladu.</p> <p>O ran gwella cyfrifoldeb y cynhyrchwr i ddylanwadu ar atal gwastraff, unwaith eto mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r holl fentrau i hyrwyddo'r dull hwn o reoli gwastraff yng Nghymru.</p>
<a href="#">Papur Trafod: Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol'</a>	Busnes y Cyngor	<p><b>Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau mewn rhai cynghorau o hyd, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn craffu'n llwyddiannus</b></p> <p>Dylai cynghorau ystyried a oes gan yr aelodau etholedig a'r swyddogion ddealltwriaeth gadarn o'r rolau a'r cyfrifoldebau. A beth mae hyn yn ei olygu o safbwynt y ffordd y caiff cefnogaeth a swyddogaethau craffu eu strwythuro; a sut caiff gweithgareddau craffu eu cynllunio a'u cynnal.</p> <p><b>Mae llawer o gynghorau yn dal i gydnabod yr angen i wella'r trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu, ond mewn nifer o gynghorau, bydd hyn yn gofyn am newid sylweddol yn yr ymarfer craffu</b></p> <p>Yng ngoleuni'r heriau presennol ac i'r dyfodol, mae gan gynghorau gyfle i ailwerthuso'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai mynd ati i ailfeddwl yn gyfan gwbl ynglŷn â'r ffordd y maent yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau craffu yn helpu i gyflawni hyn. Fel rhan o hyn gallent ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diffinio'n glir eu huchelgeisiau i geisio ymgysylltu â'r cyhoedd wrth drosolygu a chraffu;</li> <li>• sut gall gwell technoleg eu helpu i ymgysylltu'n rhwyddach ac yn fwy costeffeithiol;</li> <li>• a yw'r ffordd y mae swyddogaethau craffu yn 'gweithredu' yn ffafriol i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd a chynnwys rhanddeiliaid eraill; ac</li> <li>• a ydynt yn meddu ar y gefnogaeth briodol o ran swyddogion sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad iawn yn ogystal â rhaglen o hyfforddiant, datblygu a chefnogaeth TGCh i aelodau fel bod y swyddogaethau craffu yn gallu ymgysylltu'n briodol ac yn rhagweithiol â'r cyhoedd.</li> </ul>	<p><b>Cadarnhau rolau a chyfrifoldebau</b></p> <p>Datblygodd yr Awdurdod weledigaeth a strategaeth ar gyfer Sgriwtini y cytunodd y Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r UDA arni. Mae'n diffinio rôl a swyddogaeth glir ar gyfer Sgriwtini a'r hyn y dylai ei gyflawni ac mae hefyd yn gosod y cyd-destun yn y tymor byr a'r tymor canolig. Cynhelir cyfarfodydd misol o'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion sgriwtini i gynllunio/blaenoriaethu/cydllynu a rheoli rhaglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini Sefydlog gan sicrhau aliniad gyda blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith. Yn ogystal, mae 3 Panel Sgriwtini penodol yn rhan o drefniadau sgriwtini ac maent yn rhoi cyfle i ddatblygu dyfnder o wybodaeth mewn perthynas â rheolaeth ariannol/gwella ysgolion a materion gwasanaethau cymdeithasol. Hefyd, mae'r Cyngor yn trefnu sesiynau briffio misol ar faterion strategol a gweithredol allweddol fel rhan o drefniadau llywodraethiant corfforaethol.</p> <p>Mae adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar waith y ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r 3 Phanel Sgriwtini. Mae hyn yn cynnwys hunanarfarniad gan Aelodau Sgriwtini. (<b>canlyniad disgwylidig: dull Sgriwtini "Cyngor cyfan"</b>)</p> <p><b>Ymgysylltiad Cyhoeddus mewn Sgriwtini</b></p> <p>Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn annog y cyhoedd i gyfranogi lle bynnag y bo'n bosib ac mae cyfle i'r cyhoedd siarad ar faterion agenda mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Sgriwtini. I'r</p>

Enw'r Adroddiad	Gwasanaeth	Argymhellion / Cyfleon	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn
		<p><b>Dylai Cynghorau fyfyrion ar ba mor drylwyr y maent yn blaenoriaethu ac yna'n cynllunio gweithgareddau craffu i wella eu heffaith</b></p> <p>Dylai cynghorau ystyried a yw'r ffordd y caiff gweithgareddau craffu eu cynllunio a'u cynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cael ei blaenoriaethu'n ddigon dda, gan ystyried faint o amser ac anoddau y bydd eu hangen o bosibl i graffu ar destunau'n 'briodol', ar sail methodoleg briodol ac, felly, y goblygiadau o ran faint o eitemau y gall pwyllgorau eu hystyried yn briodol;</li> <li>• yn rhoi ystyriaeth briodol i'r dewisiadau a'r dulliau y gellid eu defnyddio i graffu ar bob testun, yn hytrach nag ar rai testunau yn unig;</li> <li>• yn cyd-fynd â rolau a chanlyniadau arfaethedig y swyddogaeth graffu, a bod y testunau a'r methodolegau a ddewisir yn cael eu dylunio i gyflawni yn erbyn y rhain, yn hytrach na throi'n 'ddiofyn' at ystyried y rhan fwyaf o eitemau yn y pwyllgor llawn ar ffurf adroddiadau swyddogion; ac</li> <li>• yn mynd ati i ystyried sut gellid defnyddio egin-dechnolegau i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer craffu, i hysbysu'r broses o ddewis testunau wrth lunio'r rhaglen waith, a chanfyddiadau ac argymhellion y gwaith craffu.</li> </ul> <p><b>Mae'n bosibl y bydd angen dull gweithredu gwahanol i gefnogi aelodau'r pwyllgor craffu i ymateb i heriau heddiw ac i'r dyfodol</b></p> <p>Dylai cynghorau ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• beth mae eu swyddogaethau craffu yn ceisio'i gyflawni, ac a fydd y trefniadau cefnogaeth swyddogion presennol a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu helpu i gyflawni hyn;</li> <li>• a oes angen gwella sgiliau swyddogion sy'n gweithio i gefnogi'r pwyllgor craffu;</li> <li>• gweithio'n fwy effeithio â rhannau eraill y cyngor a/neu sefydliadau eraill i wella'r dewis o sgiliau a gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r pwyllgor craffu; ac</li> <li>• ail-ddylunio'r rhaglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau'r pwyllgor craffu.</li> </ul> <p><b>Gwerthuso effeithiolrwydd swyddogaethau craffu</b></p> <p>Ac ystyried rhai o'n sylwadau uchod sy'n awgrymu bod rolau yn dal i fod yn aneglur, ac y ceir dull 'traddodiadol' o ddewis testunau craffu mewn llawer o gynghorau, gallai cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y trefniadau y gweithredir arnynt yn ddiweddarach fod yn un ffordd allweddol o roi sylw i rai o'r problemau hyn sydd i'w gweld ers tro byd.</p> <p><b>Dylai Llywodraeth Cymru a'r cynghorau ystyried goblygiadau'r themâu uchod ar drefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau</b></p> <p>Dylai Cynghorau a Llywodraeth Cymru fyfyrion ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• i ba raddau y gallant ddibynnu ar swyddogaethau craffu awdurdodau lleol ar eu ffurf bresennol; a</li> <li>• beth allai hyn olygu i'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar swyddogaethau craffu yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r Cyngor ei hun ac mewn unrhyw arweiniad cysylltiol.</li> </ul>	<p>perwyl hwn, mae protocol siarad cyhoeddus ar waith ar gyfer Pwyllgorau Sgrwtini a'i fwriad yw bod yn gyfrwng i sicrhau y clywir lleisiau pobl a chymunedau lleol ar Ynys Môn fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.</p> <p><b>(deilliannau disgwylidig: gwella ymgysylltu cyhoeddus yn ein gwaith sgrwtini, sylfaen gref ar gyfer gwella deilliannau ar gyfer dinasyddion, gwell penderfyniadau a gwella ansawdd ymgysylltu democrataidd, galluogi lleisiau pobl leol a chymunedau i gael eu clywed fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a pholisi)</b></p> <p><b>Cynllunio ac Effaith Sgrwtini</b></p> <p>Mae 2 aelod o staff dynodedig yr Uned Sgrwtini yn cynorthwyo Pwyllgorau Sgrwtini. Rhennir arfer orau drwy rwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol. Cynhelir y Fforwm cadeiryddion ac is-gadeiryddion bob mis i gynllunio/blaenoriaethu/cydllynu a rheoli rhaglenni gwaith y 2 Bwyllgor Sgrwtini Sefydlog gan sicrhau aliniad â blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.</p> <p>Datblygwyd ein trefniadau lleol sy'n sylfaen i flaen raglenni gwaith sgrwtini i roi mwy o sylw i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Agweddau strategol</li> <li>• Ymgysylltu â dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a deilliannau</li> <li>• Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a rhaglenni trawsnewid corfforaethol</li> <li>• Risgiau</li> <li>• Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio</li> <li>• Eitemau ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.</li> </ul> <p>Amcan: rhaglenni gwaith treigl yn canolbwyntio ar ansawdd sgrwtini; llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth</p> <p><b>(Deilliannau disgwylidig: creu'r amodau ar gyfer sgrwtini effeithiol, gweithredir ar effaith sgrwtini i wella effeithiolrwydd, trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi penderfyniadau cadarn ac effeithiol).</b></p> <p><b>Arfarnu effeithiolrwydd Sgrwtini</b></p> <p>Mae'r Cyngor yn arfarnu effeithiolrwydd ei drefniadau Sgrwtini yn rheolaidd – bob blwyddyn – fel rhan annatod o'r broses o baratoi ei Adroddiad Sgrwtini Blynnyddol. Mae hyn yn cael ei ategu gan yr hunanarfarniad gan Aelodau a gwblheir ar wahân gan y 3 panel sgrwtini.</p> <p><b>(canlyniad disgwylidig: hunanarfarniad gan Aelodau i fesur gwerth a ychwanegir ac effaith)</b></p> <p>Mae Adroddiad Blynnyddol Sgrwtini a Throsolwg 2020/21 y Cyngor yn darparu crynodeb cynhwysfawr o'n trefniadau sgrwtini o fewn trefniadau llywodrethiant y Cyngor  <a href="http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16241/Adroddiad%20Blynnyddol%20Throsolwg%20a%20Sgrwtini%20201920.pdf?LLL=1">http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16241/Adroddiad%20Blynnyddol%20Throsolwg%20a%20Sgrwtini%20201920.pdf?LLL=1</a></p>

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	09 Rhagfyr 2021
<b>Pwnc:</b>	Diweddariad Archwilio Mewnol
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod.	

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddarar'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 1 Rhagfyr 2021 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 1 Medi 2021, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.



## Investment in Assets


November 2021

Final Internal Audit Report

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA  
Nanette Williams MSc CMIIA CIA




## Cil Sundry Impact of



## Chyllers

Acting (Wales) Act 2014  
Status Update

Review & Action Plan



## Investigations – of Works

Investigation Report



# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL RHAGFYR 2021

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

[MarionPryor@YnysMon.gov.uk](mailto:MarionPryor@YnysMon.gov.uk)



# TABL CYNNWYS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF	3
Buddsoddi mewn Asedau	3
Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19	4
Llety Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014)	4
Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo	5
GWAITH AR Y GWEILL	6
Menter Twyll Genedlaethol	6
CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL	7
BLAENORIAETHAU AR GYFER 2021-22	8
Capasiti Cyfredol	8
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig	8
Blaenoriaethau mwy Hirdymor	8
ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 RHAGFYR 2021	9

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion / risgiau a godwyd.
2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** adroddiad yn y cyfnod dan sylw, a gwelir crynodeb ohonynt isod:

Teitl	Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol	Dyddiad yr Adroddiad Terfynol	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Cymedrol	Cyfanswm
Buddsoddi mewn Asedau	YM49	Tachwedd 2021	Sicrwydd Rhesymol	0	0	0	0
Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19	Amh.	Tachwedd 2021	Sicrwydd Cyfyngedig	0	3	5	8
Llety Sipsiwn a Theithwyr	YM29	Tachwedd 2021	Sicrwydd Rhesymol	0	0	0	0
Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo	Amh.	Tachwedd 2021	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.

## Buddsoddi mewn Asedau

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	0	Cymedrol

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**A oes gan y Cyngor drefniadau digonol mewn grym i liniaru'r risg i gynaliadwyedd ac effeithiolrwydd ei asedau ffisegol o ganlyniad i danfuddsoddi a diffyg datblygu?**

4. Ar y cyfan, daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor yn y broses o atgyfnerthu ei fframwaith ar gyfer rheoli'r risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas i'r diben, neu nad ydynt yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd a busnesau, oni bai bod y Cyngor yn buddsoddi'n ddigonol i'w cynnal a'u datblygu. Er hyn, mae'n amlwg bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd oherwydd bod y gofynion

o ran cynnal a chadw'r asedau cyfalaf sydd ym mhortffolio asedau cyfredol y Cyngor ar raddfa mor fawr, a'r heriau a wynebwr ganddo wrth ystyried y gofynion hyn yng nghydestun y cyllid cyfalaf sydd ar gael iddo.

- Oherwydd y ffactorau a amlinellir uchod, mae'n rhy gynnar i gynnal asesiad llawn o effeithiolrwydd y dulliau sydd gan y Cyngor ar waith i reoli'r risg i gynaliadwyedd ac effeithiolrwydd ei asedau ffisegol. Nid ydym wedi codi unrhyw 'Faterion/Risgiau' ffurfiol y dylid eu dwyn i sylw'r rheolwyr, gan fod y gwaith yn mynd rhagddo. Pa fodd bynnag, mae gennym **sicrwydd rhesymol** bod y Cyngor yn cydnabod bod angen gwaith pellach yn y maes hwn, ac mae'r cynnydd hyd yma yn dangos ei fod wedi ymrwymo i atgyfnerthu ei framwaith rheoli yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r risg wrth symud ymlaen.

## Adennill Mân Ddyledion y Cyngor ac effaith Covid-19

Sicrwydd Cyfyngedig	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	3	Sylweddol
	5	Cymedrol

- Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i adennill mân ddyledion yn effeithiol ac a yw wedi rheoli effaith Covid-19?**

- Ar y cyfan, daw'n hadolygiad i'r casgliad er bod gan y Cyngor rywfaint o drefniadau ar waith i adennill mân ddyledion nid ydynt yn rhagweithiol nac yn gadarn; mae oedi o ran uwchgyfeirio dyledion er mwyn cymryd camau i'w hadennill a methiant o ran cynnal cyfrifon cywir ar gyfer dyledwyr yn effeithio ar allu'r Cyngor i adennill dyledion. Mae adleoli'r Tîm Adennill i gefnogi gwasanaethau rheng flaen eraill ac atal camau i adennill dyledion yn ystod y pandemig hefyd wedi rhwystro'r Cyngor rhag adennill mân ddyledion.
- Rydym wedi codi wyth Mater/Risg, sydd angen camau rheoli lefel uchel i ganolig a chyfraniad Penaethiaid Gwasanaethau i'w datrys. Felly, dim ond **sicrwydd cyfyngedig** y gallwn ei roi i'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.
- Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr ac rydym wedi'n sicrhau bod rheolwyr yn bwriadu mynd i'r afael â'r holl Faterion/Risgiau erbyn 30 Mehefin 2022. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151 wedi comisiynu ymgynghorwr i fynd i'r afael â'r materion a'r risgiau a godwyd yn y Cynllun Gweithredu. Mae prosiect â cherrig milltir wedi'i ddatblygu a'i gytuno gyda'r ymgynghorwr.

## Llety Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014)

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	0	Cymedrol

10. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**A oes trefniadau effeithiol ar waith gan y Cyngor i asesu anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o dan ofynion Deddf Tai (Cymru) 2014 ac a oedd rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r materion/risgiau a oedd angen sylw a godwyd yn wreiddiol yn ei adroddiad 'Sicrwydd Rhesymol' ym mis Mawrth 2019?**

11. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad y rhoddwyd sylw i'r holl 'faterion/risgiau' a godwyd yn ein hadolygiad gwreiddiol ac mae'r cynllun gweithredu wedi'i gwblhau. Bu oedi mewn cynnydd wrth weithredu argymhellion yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwethaf yn 2016. Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau tebygol yn anghenion llety grwpiau o Sipsiwn a Theithwyr ar yr Ynys, rydym yn fodlon bod y Cyngor wedi penderfynu disgwyl am ganlyniadau'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr presennol cyn ymrwymo i unrhyw wariant pellach. Felly, gallwn barhau i ddarparu lefel 'Resymol' o sicrwydd yn y maes hwn.

## Ymchwiliad - Gwasanaethau Eiddo

12. Rydym wedi cynnal ymchwiliad i'r honiad yn ymwneud â gweithgareddau caffael y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.
13. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Gwasanaeth Eiddo'n dyrannu llawer iawn o waith i'r cyflenwr a nodwyd yn yr honiad, ac o'r herwydd gall hynny arwain at ganfyddiad bod y cyflenwr hwnnw'n cael ei ffafrio. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu canfod unrhyw dystiolaeth bod unrhyw aelod o staff yn rhoi ffafriaeth amhriodol i'r cyflenwr wrth ddyrannu gwaith ac mae swyddogion yn gweithio'n unol â'r rheolau a osodwyd gan y Cyngor a gan y Gwasanaeth Eiddo ei hun. Serch hynny, rydym wedi nodi dau fater sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn:
- Yr angen i sefydlu contract neu fframwaith yn benodol ar gyfer gwaith draenio, gan gymryd i ystyriaeth y cyngor a ddarparwyd gan y Cyfreithiwr Contractau, Caffael a Llywodraethiant Corfforaethol
  - Gwneud rhagor o waith i adolygu'r risg o dwyll a llygredd mewn perthynas â chaffael yn ehangach ar draws y Cyngor.
14. Cawsom sicrwydd rhesymol o esboniadau swyddogion bod gwaith a ddynodwyd fel gwaith 'brys' ei natur yn waith brys mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae elfen o farn a disgresiwn, ac mae'n bwysig bod swyddogion yn cadw'r holl ddogfennau i ddangos bod y broses gywir yn cael ei dilyn bob amser, gan fod risg y gallai'r Cyngor wynebu hawliadau am iawndal os profir ei fod wedi trin cwmni yn anffafriol.
15. Byddai'n ddoeth i uwch reolwr annibynnol oruchwylio a chraffu ar y mater yn rheolaidd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cynnal y safonau uchaf o reoleidd-dra (y pwerau a'r awdurdod cywir i wario arian) ac uniondeb (gweithredu'n unol â gwerthoedd y Cyngor). Mae hyn yn golygu ymddwyn yn onest, yn deg a gydag uniondeb ac osgoi gwastraff neu ormodedd ac osgoi unrhyw elw neu fudd personol, gan gynnwys rhoi'r argraff o hynny.



## GWAITH AR Y GWEILL

16. Mae'r archwiliadau canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

Maes Archwilio	Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol	Gwasanaeth	Rheswm dros yr Archwiliad	Cam
Rheoli Trwyddedau Meddalwedd	YM38	Trawsnewid	Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol	Adroddiad Drafft
Rheoli'r risg o dwyll a llygredd ym maes caffael	YM46	Adnoddau	Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygru 2021-24 ac wedi'i godi yn ystod ymchwiliad	Gwaith Maes
Llywodraethu Gwybodaeth	YM3	Corfforaethol / Busnes y Cyngor	Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol	Gwaith Maes

## Menter Twyll Genedlaethol

17. Rydym yn parhau i ymchwilio i'r gyfran gyntaf o ganlyniadau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2020/21 a gafodd eu rhyddhau ym mis Ionawr 2021. Mae'r canlyniadau paru'n amlygu twyll neu wallau posib â systemau'r Cyngor. Er mwyn amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag twyll a gwallau rydym yn y broses o adolygu'r canlyniadau paru hyn i atal cynnydd posib mewn gordaliadau.
18. Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i'r canlyniadau paru canlynol:
- O'r Gyflogres i'r Gyflogres
  - O'r Gyflogres i Dŷ'r Cwmniau
  - O'r Gyflogres i Gredydwy
  - O'r Gyflogres i Bensiynau
  - O'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
  - O'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i Bensiynau
19. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r ymchwiliadau hyn yn ein hadroddiad Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygru Blynyddol.
20. Mae Swyddfa'r Cabinet yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gwblhau uwch-lwythiad data blynyddol er mwyn paru'r rheiny sy'n derbyn Disgownt Person Sengl ar y Dreth Gyngor â'r Gofrestr Etholiadol cyn diwedd Ionawr 2022. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adrannau hyn y ddarparu'r data yn unol â'r gofyniad.

## CAMAU GWEITHREDU SY’N WEDDILL

21. Mae'r gwaith i gynorthwyo gwasanaethau i roi'r camau sydd yn weddill ar waith yn parhau. Mae'r dangosfwrdd '4action' yn [Atodiad 1](#) yn rhoi trosolwg o statws y camau gweithredu ar 2021.
22. Ar hyn o bryd mae 14 o'r camau'n hwyr (6 Sylweddol; 8 Cymedrol), ac yn berthnasol i'r gwasanaethau Adnoddau, Dysgu a Busnes y Cyngor. Maent yn ymwneud â 'Materion / Risgiau' a godwyd mewn chwe archwiliad:
  - Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw
  - Adnabod anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg
  - Mân Ddyledwyr
  - Proses Ymadawyr
  - Parhad Busnes
  - Llywodraethu Gwybodaeth Ysgolion
23. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaethau i'w cynorthwyo i weithredu'r camau hyn.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2021-22

## Capasiti Cyfredol

24. Rydym wedi llwyddo i recriwtio i'r swydd wag Uwch Archwilydd a byddwn yn croesawu'r aelod newydd i'r tîm ar 13 Rhagfyr 2021. Golyga hyn bod gan y tîm gapasiti llawn fwy neu lai, gyda dim ond hanner swydd lawn amser yn wag, a hynny oherwydd trefniant gweithio'n hyblyg. Fodd bynnag, mae un aelod o'r tîm yn dal i fod yn absennol oherwydd salwch tymor hir.

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig






25. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ynghanol adolygiad sylweddol.
26. Ein prif flaenoriaeth yw adolygu'r risgiau 'coch' ac 'ambr' sydd yn weddill ac sydd heb eu hadolygu eto neu heb eu hadolygu er y ddwy flynedd ddiwethaf.
27. Byddwn hefyd yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a monitro'r angen i fynd i'r afael â'r materion/risgiau archwilio mewnol sydd yn weddill.
28. Nid oes gan yr Uwch Archwilydd newydd gefndir ym maes archwilio mewnol, felly byddwn yn darparu cymorth ychwanegol er mwyn datblygu eu sgiliau archwilio technegol.

## Blaenoriaethau mwy Hirdymor

- Cyflawni'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygru 2021-24, yn cynnwys parhau i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru sydd wedi'u cynnwys yn eu hadroddiad 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru
- Gweithio â chydweithwyr yn y Rîm Perfformiad i wella'r gwaith mapio sicrwydd ledled y Cyngor a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Grŵp Adolygu Perfformiad.
- Paratoi ar gyfer yr Asesiad Ansawdd Allanol ym mis Mehefin 2022.

# ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY’N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 RHAGFYR 2021

Tudalen 208



### Outstanding Red Issues/Risks

ID Summary

0 of 0

### Outstanding Limited Assurance Reports

Audit Title	Count
Payments - Supplier Maintenance 202107	9
Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118	6
ICT Service Continuity (Phishing) 202123	2

### Outstanding Amber Issues/Risks

ID Summary

4148	Business Continuity 3 - Our testing identified a lack of quality assurance activity over corporate and service business continuity plans and key...
4157	IT Resilience 2 - There is a lack of continuity and coordination between the Council's corporate business continuity plans and the IT disaster...
4165	IT Resilience 5 - The Council has included a list of 18 priority business applications and servers for recovery in the event of an IT related...
4212	Financial Resilience 2 - Progress with undertaking an exercise to map sources of assurance to support the Council's governance framework and ensure...

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	09 Rhagfyr 2021
<b>Pwnc:</b>	Siartr Archwilio Mewnol
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddog (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Siartr Archwilio Mewnol, y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gymeradwyo. Nid yw adolygiad er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol parhaus wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol.	

## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn darparu ar gyfer adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r siartr yn derfynol.
- 1.2. Cafodd y siartr ei hadolygu ddiwethaf, a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2021. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal adolygiad er mwyn ei bod yn parhau i fod yn briodol ac nad yw wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol.

## 2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Siartr Archwilio Mewnol.



# SIARTR ARCHWILIO MEWNOL RHAGFYR 2021

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

[MarionPryor@YnysMon.gov.uk](mailto:MarionPryor@YnysMon.gov.uk)

01248 752611



## TABL CYNNWYS

RHAGARWEINIAD	3
PWRPAS ARCHWILIO MEWNOL	4
AWDURDOD ARCHWILIO MEWNOL	5
Hawliau Mynediad y swyddogaeth archwilio mewnol	5
Sgôp Gwaith Archwilio Mewnol	6
Annibyniaeth	6
CYFRIFOLDEBAU ARCHWILIO MEWNOL	7
ADRODD	8
Strategaeth Archwilio Mewnol	8
Barn Flynyddol	8
Adrodd ar Aseiniadau	8
Graddfa Sicrwydd	9
RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN GWAITH SY'N YMWNEUD Â THWYLL	10
ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL	11
Archwilio Mewnol a Rheoli Risg (Rhagfyr 2021)	11
MESURAU DIOGELU I GYFYNGU AR UNRHYW AMHARIAD AR ANNIGYNTIAETH NEU WRTHRYCHEDD	12

## RHAGARWEINIAD

1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus<sup>1</sup> (PSIAS) yn diffinio natur ac yn gosod yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
2. Mae'r Safonau yn nodi'r angen i'r prif swyddog archwilio ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol mewn siatr archwilio mewnol. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Siatr Archwilio Mewnol yn derfynol.
3. Mae'r siatr archwilio mewnol yn sefydlu:
  - pwrpas archwilio mewnol a'i statws o fewn y Cyngor
  - awdurdod archwilio mewnol i gael mynediad i gofnodion, personél a phriodweddau ffisegol sy'n berthnasol i berfformiad ei waith
  - cyfrifoldebau archwilio mewnol
  - llinellau adrodd a natur perthynas y prif swyddog archwilio â'r uwch reolwyr a'r bwrdd
  - cwmpas y gwaith archwilio mewnol, yn cynnwys natur ei rôl sicrwydd a gwasanaethau ymgynghori
  - rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn ymwneud â thwyll
  - trefniadau ar gyfer sicrhau adnoddau ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol
  - y mesurau diogelwch ar gyfer cyfyngu ar amhariadau ar annibyniaeth neu wrthrychedd
4. Mae'r PSIAS yn defnyddio termau generig, sydd yn achos Cyngor Sir Ynys Môn, fel a ganlyn:

Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Cyngor Sir Ynys Môn
Prif Swyddog Archwilio	Pennaeth Archwilio a Risg
Uwch Reolwyr	Uwch Dîm Arweinyddiaeth
Y Bwrdd	Pwyllgor Gwaith

<sup>1</sup> Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, Cyhoeddwyd gan y sawl sy'n gosod y Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol, Mawrth 2017



## PWRPAS ARCHWILIO MEWNOL

5. Gwasanaeth archwilio mewn proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yw un o elfennau allweddol llywodraethiant da, fel y cydnabyddir ar hyd a lled y sector cyhoeddus yn y DU.
6. Y ddarpariaeth o wasanaethau sicrwydd yw prif rôl archwilio mewnol. Drwy ein barn archwilio mewnol flynyddol ac adroddiadau eraill, rydym yn rhoi sicrwydd i aelodau etholedig a rheolwyr ac yn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella.
7. Mae'r PSIAS yn diffinio archwilio mewnol fel:

**Mae archwilio mewnol yn weithgaredd annibynnol, sicrwydd gwrthrychol ac ymgynghorol sydd wedi ei gynllunio er mwyn ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni eu hamcanion drwy sefydlu agwedd systematig a disgybledig er mwyn gwerthuso a gwella effeithlonrwydd rheolaeth risg, rheolaeth a phrosesau llywodraethu**

8. Mae ein rôl yn unigryw; mae'n darparu her effeithiol ac yn gweithio fel catalydd ar gyfer newidiadau cadarnhaol a gwelliant parhaus o ran llywodraethiant yn ei holl agweddau. Mae ein rôl yn hynod o bwysig wrth i'r Cyngor wynebu cyfnodau ansicr a heriol.
9. Er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl i'r sefydliad, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r tîm rheoli i gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.
10. Ein prif amcanion yw:
  - Darparu sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr ac aelodau lleyg ac etholedig ar reolaeth risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol
  - Datblygu a hyrwyddo ein rôl er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol i flaenoriaeth y Cyngor i foderneiddio a darparu effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.
  - Ychwanegu gwerth ym mhob maes o'n gwaith, rhoi gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid.

## AWDURDOD ARCHWILIO MEWNOL

11. Mae archwilio mewnol yn ofyniad statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n cael ei awdurdod a'i rwymedigaethau o ddau ddarn o ddeddfwriaeth:
12. Mae Rhan 3, Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014<sup>2</sup> yn dweud bod "rhaid i awdurdod perthnasol ymgymryd ag archwiliad mewnol effeithiol er mwyn gwerthuso effeithlonrwydd ei brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethiant, gan ystyried safonau neu arweiniad archwilio'r sector cyhoeddus".
13. Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi bod angen i bob awdurdod wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol a sicrhau bod gan un o'r swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Mae CIPFA wedi diffinio 'gweinyddiaeth briodol' fel rhywbeth ddylai gynnwys 'cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifo ac archwilio mewnol'.
14. Hefyd, mae datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol yn dweud bod rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol (PSA):
  - sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol a bod y swyddogaeth yn cael ei chynnal
  - sicrhau bod yr awdurdod wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol yr amgylchedd rheoli
  - gefnogi trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod
  - sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn y cyngor a'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall y ddwy swyddogaeth weithredu'n effeithiol.
15. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn darparu ar gyfer cynnal swyddogaeth archwilio fewnol barhaus dan oruchwyliaeth annibynnol, wedi'i goruchwyllo gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor ac yn amodol ar safonau archwilio proffesiynol (4.8.5.3.1).

### Hawliau Mynediad y swyddogaeth archwilio mewnol

16. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.2) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliau mynediad i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac yn rhoi i'r gwasanaeth yr awdurdod i:
  - gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i eiddo, tir neu safleoedd contract y Cyngor;
  - cael mynediad i'r holl gofnodion, dogfennau neu ohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor;
  - gofyn am, a derbyn, unrhyw esboniadau sy'n angenrheidiol gan weithwyr y Cyngor yn ôl yr angen;
  - gofyn i weithwyr y Cyngor ddangos arian parod, eitemau mewn storffeydd neu unrhyw eiddo arall sydd o dan reolaeth y Cyngor er mwyn iddynt ei archwilio.

<sup>2</sup> Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018 yn diwygio Rheoliadau 2014 ond nid yw'n cael effaith ar y gofyniad hwn.

## Sgôp Gwaith Archwilio Mewnol

17. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rhagweithiol ac yn arloesol sydd bob amser yn anelu at wneud yn well. Mae gennym agwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio archwiliadau, sgopio prosiectau a darparu gwasanaethau ac sy'n cynnwys aelodau etholedig, uwch reolwyr a staff gweithredol.
18. Mae ein strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y gofrestr risg gorfforaethol ac unrhyw sicrwydd arall y gall y Cyngor ei dderbyn yn fewnol neu'n allanol, i atal dyblygu gwaith a chydlynu gwaith rheoleiddio. Mae hefyd yn ystyried trafodaethau ag uwch reolwyr.
19. Mae ein gwaith yn darparu agwedd sy'n seiliedig ar risg sy'n caniatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ffurfio a rhoi tystiolaeth o'i barn ar yr amgylchedd rheoli er mwyn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.
20. Efallai y bydd Archwilio Mewnol yn darparu arweiniad a chynghor ar adegau e.e. ar systemau newydd neu efallai y rhoddir cymorth i ddatblygu prosesau newydd gan ddefnyddio ein sgiliau arbenigol. Efallai y bydd gwasanaethau yn gofyn i ni ar adegau gyflawni prosiectau penodol ar sail ymgynghori. Ar yr adegau hyn, byddwn yn ei gwneud hi'n glir o'r dechrau ein bod yn gweithio ar sail ymgynghorol yn hytrach nag archwilio mewnol ac nad ydym yn rhoi sicrwydd archwilio ar yr achlysuron hyn.

## Annibyniaeth

21. Mae'r PSIAS yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio, adrodd i lefel o fewn y sefydliad sy'n galluogi'r gweithgaredd archwilio mewnol i gyflawni ei gyfrifoldebau; adrodd i'r bwrdd neu'r corff cyfatebol yw'r dull o helpu a dderbynnir fel arfer er mwyn sicrhau bod annibyniaeth sefydliadol yn cael ei gyflawni.
22. Mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'n rhydd i adrodd yn uniongyrchol i unrhyw aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu'r pennaeth gwasanaeth.
23. Er yn ymarferol yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, ac mae darpariaeth ar gyfer hynny yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.5).
24. Mae'r llinellau adrodd estynedig hyn yn rhoi i'r swyddogaeth archwilio mewnol annibyniaeth ddigonol o ran y gweithgareddau y bydd yn eu hadolygu er mwyn galluogi ei archwilwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn wrthrychol ac i ddod i farn ddiuedd ac effeithiol ac i godi materion ar gyfer gwella.
25. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn gwerthuso perfformiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn flynyddol a cheir adborth gan y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae hyn yn sicrhau nad yw sefyllfa'r Pennaeth Archwilio a Risg o ran rheolaeth llinell yn y Cyngor yn cael ei chyfyngu na'i heffeithio.

## CYFRIFOLDEBAU ARCHWILIO MEWNOL

26. Wrth gynnal gweithgaredd archwilio mewnol parhaus, mae'r prif swyddog archwilio yn ystyried elfennau gorfodol y PSIAS:
- Egwyddorion Craidd yr Ymarfer Proffesiynol o Archwilio Mewnol
  - Cod Moeseg
  - Safonau
  - Diffiniad o Archwilio Mewnol
27. Mae angen i holl aelodau'r gwasanaeth archwilio mewnol gydymffurfio â'r PSIAS, yn cynnwys ei God Moeseg. Yn ychwanegol at hynny, bydd yr holl archwilwyr yn arwyddo datganiad bob blwyddyn yn nodi y byddant yn parchu cyfrinachedd y wybodaeth y ceir mynediad iddi wrth wneud y gwaith, yn datgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt mewn unrhyw wasanaethau y maent yn eu hadolygu a'u bod wedi darllen y PSIAS, y Cod Moeseg a Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion.
28. Rhaid i'r holl archwilwyr mewnol:
- weithio gydag eraill er mwyn hyrwyddo a dangos budd llywodraethiant da drwy gydol y Cyngor
  - hyrwyddo'r lefel uchaf bosibl o safonau a moeseg ar draws y Cyngor yn seiliedig ar unplygrwydd, gwrthrychedd, cymhwysedd a chyfrinachedd
  - mynegi barn gadarn wrth adnabod gwendidau yn amgylchedd rheoli'r Cyngor a darparu barn gytbwys o ran ba mor sylweddol yw'r rhain
  - ymrwymo i welliant parhaus
  - arddangos unplygrwydd
  - adrodd ar yr hyn sy'n cael ei ddarganfod yn ddiuedd a heb unrhyw ofn
  - rhoi cyngor clir, proffesiynol a gwrthrychol
  - dod â chymhwyster priodol a rhaglen weithredol ar gyfer datblygiad proffesiynol personol
29. Yn ychwanegol ar hyn, rhaid i'r Pennaeth Archwilio a Risg:
- fod yn uwch reolwr sy'n ymgysylltu'n rheolaidd ac agored ar draws y Cyngor, yn enwedig gyda'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
  - fod â chymwysterau addas ac yn brofiadol
  - rhoi sicrwydd ar yr amgylchedd rheoli, yn cynnwys rheoli risg a gwybodaeth a rheoliadau mewnol ar draws y Cyngor
  - cynhyrchu barn archwilio mewnol flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth ar amgylchedd rheoli'r Cyngor sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn crynhoi'r prif ganlyniadau a chasgliadau gan dynnu sylw at unrhyw bryderon penodol
  - ymgysylltu'n agos â rheoleiddwyr allanol y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth a defnyddio adnoddau archwilio yn y ffordd fwyaf effeithiol
  - penderfynu ar yr adnoddau, arbenigeddau, cymwysterau a systemau sydd eu hangen ar y gwasanaeth archwilio mewnol er mwyn gallu bodloni ei amcanion a darparu barn archwilio mewnol
30. Mae'r prif swyddog archwilio hefyd yn cymryd i ystyriaeth Ddatganiad CIPFA ar Bennaeth Archwilio Mewnol (2019), sy'n nodi cyfrifoldebau'r unigolyn a'r sefydliad ac sy'n darparu canllawiau ynghylch arfer orau er mwyn cefnogi effeithiolrwydd archwilio mewnol.

# ADRODD

## Strategaeth Archwilio Mewnol

31. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn paratoi'r strategaeth archwilio mewnol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 a'r uwch reolwyr.
32. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno hyn yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethau ar gyfer eu cymeradwyo. Darperir adolygiadau yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel rhan o'r adroddiad diweddar a gyflwynir i bob cyfarfod.

## Barn Flynyddol

33. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi barn i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
34. Wrth roi'r farn, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt; y mwyaf y gellir ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr mewn prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi'r farn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ôl diwedd y flwyddyn.

## Adrodd ar Aseiniadau

35. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ymrwymo'n llawn i bolisi iaith Gymraeg y Cyngor. Adroddir yn ddwyieithog ble bynnag y mae hynny'n bosibl ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys nifer o staff dwyieithog sy'n gallu ymgymryd ag adolygiadau yn newis iaith y rhai hynny sy'n cynorthwyo â'r adolygiadau.
36. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar yr holl adolygiadau archwilio. Cynhelir cyfarfodydd adrodd yn ôl gyda'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y maes sy'n destun adolygiad er mwyn cytuno ar gywirdeb ffeithiol y materion a'r risgiau a godwyd.
37. Yn dilyn cytundeb, cyflwynir adroddiadau drafft i'r rheolwr perthnasol sy'n cofnodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd er mwyn delio â'r materion / risgiau a godwyd ynghyd â'r swyddogion sydd wedi cael y cyfrifoldeb o weithredu'r rhain, ynghyd â'r amserlen ar gyfer eu gweithredu. Unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi ei gwblhau yn llawn a'i gytuno arno gyda'r archwilydd, cyhoeddir adroddiad terfynol.
38. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi copi o bob adroddiad i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Deilydd Portffolio perthnasol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno crynodeb o bob adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mhob cyfarfod.
39. Bydd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Deilydd Portffolio hefyd yn derbyn copïau o unrhyw gynlluniau gweithredu cytunedig cysylltiedig lle mae adroddiadau wedi derbyn graddfa sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim'.

## Graddfa Sicrwydd

40. Rydym yn rhoi barn ar y lefel gyffredinol o sicrwydd ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol unigol. Wrth ddod i gasgliad, byddwn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2019:

Lefel Sicrwydd	Diffiniad
<b>Sicrwydd sylweddol</b>	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn <b>dda</b>.</p> <p>Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw Risgiau/Materion sylweddol neu berthnasol.</p>
<b>Sicrwydd rhesymol</b>	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn <b>rhesymol</b>.</p> <p>Mae mân wendidau o ran y modd y rheolir risg ac/neu dulliau rheoli ond nid oes unrhyw risg i gyflawniad yr amcanion. Gall Rheolwr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.</p>
<b>Sicrwydd cyfyngedig</b>	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn <b>gyfyngedig</b>.</p> <p>Mae gwendidau sylweddol o ran rheoli risgiau ac/neu'r dulliau rheoli sy'n golygu bod risg i gyflawniad yr amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth ddatrys y rhain ac mae'n bosib y bydd raid hysbysu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.</p>
<b>Dim Sicrwydd</b>	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn <b>sylweddol ddiffygiol</b>.</p> <p>Mae gwendidau sylfaenol o ran rheoli risgiau ac/neu'r dulliau rheoli a fydd yn arwain at fethiant i gyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw brys i'r rhain ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith ymyrryd.</p>


# RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN GWAITH SY'N YMWNEUD Â THWYLL

41. Nid yw archwilio mewnol yn gyfrifol am reoli'r risg o dwyll - mae hyn yn gyfrifoldeb i uwch reolwyr y Cyngor.
42. Mae polisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llwgrwobrwyo yn gofyn i reolwyr hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg am unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo, amhriodoldeb sy'n cael ei amau neu ei ddarganfod, er mwyn siapio ei barn ar yr amgylchedd rheoli mewnol a'r rhaglen waith archwilio mewnol yn ogystal â chaniatáu iddi sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol.
43. Er bod archwilio mewnol yn cyflawni prosiectau rhagweithiol er mwyn dod o hyd i dwyll, llwgrwobrwyo a / neu lygredd posibl ac yn gallu cynnal ymchwiliadau arbennig i anghysondebau honedig, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cadw'r hawl i benderfynu ar y camau priodol i'w cymryd, a gall hyn olygu ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai rheolwyr anfon canlyniad yr holl weithgareddau ymchwilio i'r Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer eu cynnwys yn yr Adroddiad Archwiliad Mewnol Blyneddol Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.
44. Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr archwiliwr allanol gynnal ymchwiliadau, un ai mewn cydweithrediad ag archwilio mewnol neu'n annibynnol.

## ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

45. Mae gennym dîm cymwys a phrofiadol gyda chymysgedd o gymwysterau perthnasol er mwyn adlewyrchu swyddogaethau amrywiol y gwasanaeth archwilio mewnol.

### Archwilio Mewnol a Rheoli Risg (Rhagfyr 2021)



46. Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu adnoddau'r gwasanaeth archwilio mewnol drwy dderbyn y cynlluniau gweithredol a strategol ar gyfer archwilio mewnol.
47. Lle nad yw arbenigeddau penodol ar gael, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cael y rhain o'r tu allan i'r Cyngor lle mae'r adnoddau hynny ar gael.
48. Mae'r Safonau yn nodi bod yn rhaid i archwilwyr mewnol ehangu eu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd eraill drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnal adolygiadau rheolaidd o anghenion datblygu a hyfforddiant yr holl archwilwyr drwy oruchwyliaeth un i un a thrwy werthusiadau blynyddol.



# MESURAU DIOGELU I GYFYNGU AR UNRHYW AMHARIAD AR ANNIGYNIAETH NEU WRTHRYCHEDD

49. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i archwilio mewnol fod yn annibynnol a rhaid iddo gael ei weld fel gwasanaeth annibynnol. Er mwyn sicrhau hyn bydd archwilio mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n galluogi:
  - mynediad anghyfyngedig at uwch reolwyr a chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
  - adrodd yn ei enw ei hun
  - gwahaniad oddi wrth weithrediadau llinell
50. Gwneir pob ymdrech i sicrhau gwrthrychedd drwy reoli cyswllt staff archwilio gyda dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn dderbyniol wrth gymryd rhan mewn prosiectau gwella gwasanaeth lle bydd yn cyflawni rôl 'ffrind beirniadol'.
51. Yn ychwanegol at hynny, mae trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd o ganlyniad i'r ffaith bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sgopio nac yn adolygu gweithgareddau archwilio mewnol sy'n ymwneud â'r maes gwasanaeth hwn. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn arwyddo adroddiadau.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad:</b>	09 Rhagfyr 2021
<b>Pwnc:</b>	Blaenraglen Waith 2021-22 Wedi'i Diweddarau
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y diwygiadau i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2021-22 y Pwyllgor.	

## Cyflwyniad

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Blaenraglen Waith arfaethedig yn [Atodiad A](#) yn ei gyfarfod ar 25 Mai 2021, a rhai mân welliannau yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf, a 21 Medi 2021.
2. Gwnaed diwygiadau pellach ers hynny i ystyried ceisiadau gan reolwyr oherwydd llwyth gwaith neu ffactorau eraill, a chynnwys y cyfarfod arbennig ychwanegol yn y calendr i ystyried y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol. Amlygir y gwelliannau mewn **print trwm**.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
  - yn nodi'r mân ddiwygiadau i'r Flaenraglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021-22.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddarau 2021-22

Swyddogaeth Graidd	Dydd Mawrth 25/05/21	Dydd Mercher 23/06/21	Dydd Mawrth 20/07/21	Dydd Mawrth 21/09/21	Dydd Mercher 20/10/21	Dydd Llun 15/11/21	Dydd Iau 09/12/21	Dydd Mawrth 08/02/22	Dydd Mawrth 19/04/22
Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)	Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 (3.4.8.3.1)  Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2021-22 (3.4.8.3.2)						Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor		Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)  <b>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor</b>
Llywodraethiant (3.4.8.4)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3)			<u>Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3)</u>	<b>Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3)</b>	Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio (3.4.8.4.4)	
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)			Adroddiad Blynyddol 2020-21 (3.4.8.5.1/2/3/4)				Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)	Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2022-23 (3.4.8.5.3/4)	

Tudalen 224

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddarau 2021-22

Swyddogaeth Graidd	Dydd Mawrth 25/05/21	Dydd Mercher 23/06/21	Dydd Mawrth 20/07/21	Dydd Mawrth 21/09/21	Dydd Mercher 20/10/21	Dydd Llun 15/11/21	Dydd Iau 09/12/21	Dydd Mawrth 08/02/22	Dydd Mawrth 19/04/22
Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) Rheoli Risg (3.4.8.8)							Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)  Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)  Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	
Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)			Adroddiad Twyll Blynyddol 2020-21 (3.4.8.9.4)	Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1)			Strategaeth Twyll (3.4.8.9.2/3)		

Tudalen 225

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

Swyddogaeth Graidd	Dydd Mawrth 25/05/21	Dydd Mercher 23/06/21	Dydd Mawrth 20/07/21	Dydd Mawrth 21/09/21	Dydd Mercher 20/10/21	Dydd Llun 15/11/21	Dydd Iau 09/12/21	Dydd Mawrth 08/02/22	Dydd Mawrth 19/04/22
Archwilio Mewnol (3.4.8.10)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6)		Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)  Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11)			Adolygiad o'r Siatr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)  Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)	Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6)  Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)  Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11)
Archwilio Allanol (3.4.8.11)				Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3)			Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (3.4.8.11.3)		Cynllun Archwilio Blynyddol 2021-22 (3.4.8.11.1/3)
Adrodd Ariannol (3.4.8.12)		Datganiad Cyfrifon Drafft 2020-21 (3.4.8.12.1/2)			<del>Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21</del> (3.4.8.12.1/2)	Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2)			

Tudalen 226

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddarau 2021-22

Swyddogaeth Graidd	Dydd Mawrth 25/05/21	Dydd Mercher 23/06/21	Dydd Mawrth 20/07/21	Dydd Mawrth 21/09/21	Dydd Mercher 20/10/21	Dydd Llun 15/11/21	Dydd Iau 09/12/21	Dydd Mawrth 08/02/22	Dydd Mawrth 19/04/22
Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)			Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (3.4.8.13.1)	Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2020-21 (3.4.8.13.1)  Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2020-21 (3.4.8.13.1)			Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1)  Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020-21 (3.4.8.13.1)  Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2020-21 (3.4.8.13.1)	Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020-21 (3.4.8.13.1)  Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2020-21 (3.4.8.13.1)	
Delio â Chwynion (3.4.8.14)				Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban (3.4.8.14.1/2)					
Perfformiad y Panel (3.4.8.15) <sup>1</sup>									

Tudalen 227

<sup>1</sup> Bydd yn cael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth newydd.

This page is intentionally left blank